

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 26/2022

Dyddiad Cyhoeddi: 31/03/2022

# Gwerthusiad o'r Gronfa Gofal Integredig

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

 © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-892-1

## Gwerthusiad o'r Gronfa Gofal Integredig

Awduron:

Nia Bryer a Heledd Bebb, Ymchwil OB3

Yr Athro Mark Llewellyn a'r Athro Tony Garthwaite, Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru



Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

ISBN: 978-1-80391-892-1

© Hawlfraint y Goron

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	4
2.	Methodoleg .....	6
3.	Adolygu polisïau.....	9
4.	Rhaglen y Gronfa Gofal Integredig .....	15
5.	Canfyddiadau'r gwaith maes gyda rhanddeiliaid.....	28
6.	Cyflawni prosiectau: ystyriaethau hollbwysig, ffactorau llwyddiant a rhwystrau.....	47
7.	Y gwahaniaeth a wnaed.....	68
8.	Casgliadau ac argymhellion.....	97
	Atodiad A: Tabled ar gyfer adolygiad metaddadansoddiad o brosiectau'r Gronfa.....	112
	Atodiad B: Methodoleg a phroffil prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a adolygwyd.....	115

## Rhestr o'r tablau a'r ffigurau

Ffigur 3.1: Deg Egwyddor Cynllunio Cymru lachach .....	13
Tabl 4.1: Dyraniadau cyllid refeniw blynyddol y Gronfa Gofal Integredig .....	16
Tabl 4.2: Dyraniadau blynyddol y Gronfa Gofal Integredig i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol .....	17
Tabl 4.3: Dyraniad blynyddol y Gronfa Gofal Integredig yn ôl grŵp blaenoriaeth .....	18
Ffigur 6.1: Beth fyddai wedi digwydd yn absenoldeb y Gronfa Gofal Integredig .....	48
Ffigur 6.2: Y cynnydd a wnaed gan brosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg .....	52
Tabl 6.1: Galluogwyr cyflawni allweddol .....	56
Tabl 6.3: Dadansoddiad desg o brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig .....	63
Ffigur 6.3: Cynaliadwyedd prosiectau ar ôl i'r Gronfa Gofal Integredig ddod i ben.....	66
Tabl 7.1: Allbynnau a gweithgareddau a adroddir yn gyffredin.....	68
Tabl 7.2: Canlyniadau cyffredin yr adroddir amdanynt .....	69
Tabl 7.3: Effeithiau ar unigolion a chymunedau.....	72
Tabl 7.4: Effeithiau ar ddarparu gwasanaethau a modelau gweithio .....	74
Tabl 7.5: Enghreifftiau o'r effeithiau y mae prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig yn eu cael ar wella integreiddio gwasanaethau.....	75
Ffigur 7.1: Y gwahaniaeth a wnaed gan brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig o ran sut y mae defnyddwyr yn cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol .....	78
Ffigur 7.2: Y gwahaniaeth a wnaed gan brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig i iechyd a llesiant defnyddwyr gwasanaethau .....	78

Ffigur 7.3: Y gwahaniaeth a wnaed gan brosiectau plant a theuluoedd y Gronfa Gofal Integredig .....	79
Ffigur 7.4: Y gwahaniaeth y mae prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig yn ei wneud i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.....	87
Ffigur 7.5: I ba raddau y mae prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig wedi lleihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.....	93
Tabl 8.1: Crynodeb o'r argymhellion a'r awgrymiadau .....	107
Tabl B.1: Adolygu proffil daearyddol prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig .....	117
Tabl B.2: Grŵp blaenoriaeth prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a adolygwyd .....	117
Tabl B.3: Y math o wasanaeth a ddarparwyd gan brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a adolygwyd .....	118
Tabl B.4: Grŵp thematig prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a adolygwyd .....	118
Tabl B.5: Buddiolwyr prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a adolygwyd .....	119
Tabl B.6: Ôl Troed daearyddol prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a adolygwyd.....	119
Tabl B.7: Partner arweiniol prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a adolygwyd.....	119
Tabl B.8: Lefel gyllido flynyddol prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a adolygwyd .....	120

## Geirfa

<b>Acronym/Allweddair</b>	<b>Diffiniad</b>
CALDS	Plant ag Anableddau Dysgu ac Anghenion Cymhleth
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
CBS	Cyngor Bwrdeistref Sirol
CORE-OM	Canlyniadau Clinigol mewn Dull Mesur Canlyniadau Gwerthuso Rheolaidd
GIG	Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
MAPPS	Gwasanaeth Cefnogi Lleoliadau Amlasiantaeth
OECD	Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd
PPE	Cyfarpar Diogelu Personol
WCCIS	System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
Y Gronfa	Y Gronfa Gofal Integredig

# 1. Cyflwyniad

- 1.1 Penodwyd Ymchwil OB3, mewn partneriaeth â Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC) ym Mhrifysgol De Cymru, gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r Gronfa Gofal Integredig (y Gronfa). Rhaglen ataliol sydd â'r nod o integreiddio iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector a thai er mwyn gwella bywydau pobl sy'n agored i niwed yng Nghymru yw'r Gronfa Gofal Integredig. Fe'i cyflwynwyd yn 2014 ac mae cyllid ar gael tan ddiwedd mis Mawrth 2022.
- 1.2 Nod y gwerthusiad oedd asesu effaith ganfyddedig a/neu effaith bosibl y Gronfa wrth newid systemau ac ymddygiad er mwyn gwella'r gallu i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pobl.<sup>1</sup>
- 1.3 Disgwylwyd i'r gwerthusiad ganolbwyntio ar y cyllid refeniw a oedd ar gael drwy'r cynllun, ond nid oedd yn cynnwys darpariaethau a ariannwyd drwy System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia. Mae'r ddwy ddarpariaeth olaf yn destun gwerthusiadau ar wahân.
- 1.4 Roedd disgwyl i'r gwerthusiad asesu:
- effaith y rhaglen rhwng 2016 a 2021 ar unigolion a'r cymunedau dan sylw
  - effaith y rhaglen ar ddarparu gwasanaethau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol
  - effaith prosiectau ataliol o ran lleihau'r pwysau ar y system iechyd a gofal
  - y ffactorau llwyddiant hanfodol a'r rhwystrau a all lywio rhaglenni ac ymyriadau yn y dyfodol
  - i ba raddau y gellir ehangu modelau cyflawni a'u lledaenu er mwyn eu mabwysiadu'n ehangach ledled Cymru.
- 1.5 Cynhaliwyd y gwerthusiad rhwng mis Ionawr a mis Hydref 2021. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau allweddol metaddadansoddiad o

---

<sup>1</sup> Manyleb ymchwil, tud.8

ddogfennau'r Gronfa a gwaith maes helaeth gyda rhanddeiliaid a phrosiectau a ariannwyd.

1.6 Mae wyth pennod i'r adroddiad hwn, fel a ganlyn:

- pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
- pennod dau: methodoleg yr astudiaeth
- pennod tri: y cyd-destun polisi a'r cyd-destun strategol sy'n ymwneud â'r Gronfa
- pennod pedwar: trosolwg o'r rhaglen
- pennod pump: canfyddiadau'r gwaith maes gyda rhanddeiliaid
- pennod chwech: canfyddiadau'r gwerthusiad mewn perthynas â chyflawni prosiectau, a'r ffactorau llwyddiant hanfodol a'r rhwystrau a brofwyd
- pennod saith: canfyddiadau'r gwerthusiad mewn perthynas ag effaith y rhaglen a'i heffeithiau ar unigolion a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol
- pennod wyth: casgliadau ac argymhellion ar gyfer y dyfodol.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer cynnal y gwerthusiad.

### Dull

2.2 Mae'r gwerthusiad wedi cynnwys yr elfennau canlynol o waith:

- cam cychwynnol, a oedd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a pharatoi dull methodolegol wedi'i fireinio a chynllun prosiect
- adolygu datblygiadau polisi a deddfwriaethol perthnasol sydd wedi llywio dyluniad a gweithrediad rhaglen y Gronfa
- adolygu gwerthusiadau ac adolygiadau blaenorol yn ymwneud â'r Gronfa
- adolygu dogfennau gweithredol lefel rhaglen y Gronfa ar gyfer y cyfnod cyflawni pedair blynedd rhwng 2016/17 a 2019/20
- datblygu Hysbysiadau Preifatrwydd dwyieithog a chynnal cyfres o drafodaethau rhagarweiniol gyda thri o swyddogion Llywodraeth Cymru, dau randdeiliad a chynrychiolwyr o bob un o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- dewis sampl cynrychioliadol o brosiectau a chynnal metaddadansoddiad o ddogfennau ar gyfer 77 ohonynt gan ddefnyddio'r templed dadansoddi a nodir yn Atodiad A, gan gynnwys ffurflenni cais cychwynnol, adroddiadau cynnydd, adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru, gwerthusiadau neu adolygiadau ar lefel prosiect, ac astudiaethau achos ansoddol
- dewis is-set o 15 o'r prosiectau a ariannwyd a gwneud gwaith maes gyda 48 o staff/rheolwyr cyflawni o bob un o'r prosiectau a 26 o dderbynwyr o naw prosiect (gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a staff sydd wedi'u cefnogi gan brosiectau<sup>2</sup>)

---

<sup>2</sup> Mae rhai prosiectau wedi cefnogi staff iechyd a gofal cymdeithasol drwy gynnal gweithgareddau fel codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant.



- datblygu arolwg ar-lein i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ei ddsbarthu i holl arweinwyr prosiectau cyfredol y Gronfa<sup>3</sup>, a dadansoddi 68 o ymatebion
- casglu barn 74 o randdeiliaid o bob un o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys Cadeiryddion a Chyfarwyddwyr gwasanaethau, yn bennaf drwy gyfweiliadau un-i-un a chyfweiliadau ar y cyd ond hefyd drwy drafodaethau grŵp ffocws bach ac arolwg ar y we
- syntheseiddio canfyddiadau'r adolygiad desg, metaddadansoddiad, a gwaith maes
- drafftio'r adroddiad gwerthuso terfynol hwn.

### **Ystyriaethau methodolegol**

2.3 Mae angen ystyried y materion a ganlyn mewn perthynas â'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer yr astudiaeth hon:

- effeithiodd y brigiad o bandemig y coronafeirws (COVID-19) a'r cyfyngiadau a ddaeth i rym o'i herwydd ar y dull a fabwysiadwyd ar gyfer cynnal yr astudiaeth hon h.y. cynhaliwyd pob cyfweiliad drwy Microsoft Teams neu dros y ffôn. Roedd hefyd yn golygu na allai rhai rhanddeiliaid iechyd a gofal cymdeithasol a staff prosiectau a oedd dan bwysau aruthrol dros gyfnod yr astudiaeth gyfrannu ati. Er gwaethaf hyn, cafwyd cyfraniad rhagorol gan ystod eang o brosiectau a rhanbarthau sydd wedi llywio canfyddiadau'r ymchwil
- Mae Atodiad B yn cynnwys rhagor o fanylion am y dull gweithredu a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r adolygiad pen desg a samplu prosiectau'r astudiaethau achos. Dewiswyd trawstoriad o brosiectau ar gyfer y macroddadansoddiad a'r gwaith astudiaethau achos, gan ystyried nifer

---

<sup>3</sup> Ariannwyd cyfanswm o 410 o brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig yn ystod 2020/21 (gan gynnwys y rhai y tu allan i gwmpas y gwerthusiad hwn e.e. y rhai sy'n ymwneud â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig). Fodd bynnag, ni allwn fod yn sicr ynghylch nifer y prosiectau/unigolion a wahoddwyd gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gwblhau arolwg y gwerthusiad er mwyn cynnig cyfradd ymateb. Mae'n bosibl bod yr arolwg wedi cael ei gwblhau gan fwy nag un cynrychiolydd ar gyfer rhai prosiectau pe bai'r arolwg yn cael ei ddsbarthu i fwy nag un cyswllt. Byddai'r diffyg ymateb gan un Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn awgrymu efallai na ddsbarthwyd yr arolwg i brosiectau yn y rhanbarth hwnnw.

o ffactorau megis daearyddiaeth a'r math o wasanaeth. Cynlluniwyd y sampl hefyd i gynnwys prosiectau yr oedd ganddynt rywfaint o dystiolaeth werthuso ac fe'i diwygiwyd i adlewyrchu barn y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. O ganlyniad efallai y bydd gogwydd posibl tuag at gynnwys prosiectau mwy llwyddiannus sydd wedi'u rheoli'n well yn yr astudiaeth

- roedd y tîm ymchwil yn dibynnu ar brosiectau astudiaethau achos i nodi defnyddwyr gwasanaethau a fyddai'n barod i gyfrannu at y gwerthusiad ac yn gallu gwneud hynny. O ganlyniad, efallai y bydd rhywfaint o ogwydd yn y dystiolaeth a gasglwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau fel rhan o'r gwerthusiad.

### 3. Adolygu polisïau

3.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu adolygiad o bolisiau allweddol a datblygiadau deddfwriaethol sydd wedi llywio'r gwaith o gynllunio a gweithredu rhaglen y Gronfa Gofal Integredig.

#### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

3.2 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<sup>4</sup>, (y Ddeddf) a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016, yn amlinellu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer y sector gwasanaethau cymdeithasol drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gydweithio â byrddau iechyd i hybu llesiant unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt, neu ofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Er mwyn cyflawni hyn roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn seiliedig ar batrwm y saith bwrdd iechyd.

3.3 Pedair egwyddor sylfaenol y Ddeddf yw:

- **llais a rheolaeth:** rhoi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal, a rhoi llais a rheolaeth iddyn nhw er mwyn cyflawni'r canlyniadau sy'n creu llesiant
- **atal ac ymyrryd yn gynnar:** cynyddu gwasanaethau ataliol o fewn cymunedau er mwyn lleihau'r cynnydd mewn anghenion difrifol
- **llesiant:** cynorthwyo pobl i greu eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth
- **cydgynhyrchu:** annog unigolion i gymryd mwy o ran mewn cynllunio a darparu gwasanaethau.

3.4 Mae'r Ddeddf yn amlinellu sut y dylid cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau cymdeithasol drwy roi ffocws cynyddol ar atal ac ymyrryd yn gynnar, gwaith amlasiantaeth a mwy o ymgysylltu â dinasyddion. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i asesiadau ganolbwytio ar ddiwallu anghenion unigolion, gydag un corff yn gweithredu ar ran partneriaid eraill i symleiddio prosesau. Pwysleisia y dylai awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG gydweithio'n agos i sicrhau bod iechyd a gofal

---

<sup>4</sup> Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

cymdeithasol yn cael eu hintegreiddio'n well ac y dylai byrddau partneriaeth roi blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau ar gyfer grwpiau penodol gan gynnwys pobl hŷn ag anghenion cymhleth, pobl ag anableddau dysgu, gofalwyr a phlant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod disgwyliad ar awdurdodau lleol i hyrwyddo rôl mentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol wrth helpu i ddarparu ymyriadau ataliol.

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

3.5 Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>5</sup> ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, fabwysiadu saith nod llesiant hirdymor i sicrhau:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnherth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

3.6 Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi egwyddorion datblygu cynaliadwy a thryloywder wrth wraidd gwaith cyrff cyhoeddus. Sefydlodd y Ddeddf hefyd Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru a fyddai'n cynnwys aelodaeth o awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac eraill.

---

<sup>5</sup> [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

## **Adolygiad o Ansawdd Gofal Iechyd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)**

- 3.7 Daeth adolygiad yr OECD o Ansawdd Gofal Iechyd ledled y Deyrnas Unedig (2016)<sup>6</sup> i'r casgliad bod angen i Gymru wella ansawdd y gofal iechyd sydd ar gael a chynyddu atebolrwydd am y ddarpariaeth hon. Canfu'r adolygiad fod angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy cyfarwyddol ynghylch yr hyn a ddisgwyllir gan sefydliadau fel Byrddau Iechyd gan annog a chymell arloesedd. Yn benodol, awgrymodd yr adolygiad fod angen mapiau trywydd cliriach ar gyfer gweithredu'r agenda Gofal Iechyd Darbodus ac y dylid hyrwyddo'n gryfach y broses o symud gofal i leoliadau gofal sylfaenol. Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod angen cynllun gweithredu ar gyfer gwella bellach i gyflawni uchelgeisiau strategol Cymru ar gyfer y system iechyd ac y byddai hyn yn cynnwys rhoi modelau newydd o ddarparu gofal a sefydliad gofal sylfaenol ar waith.

## **Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru 2018**

- 3.8 Canfu yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru<sup>7</sup> 'nad yw patrwm presennol y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn addas ar gyfer y dyfodol'<sup>8</sup>. Galwodd am 'system ofal wahanol' gyda gweledigaeth sy'n seiliedig ar system o ddarpariaeth iechyd a gofal di-dor sy'n 'grymuso unigolion i wneud penderfyniadau, yn teilwra gofal at yr anghenion a'r dewisiadau y mae'r unigolyn wedi eu mynegi, yn llawer mwy rhagweithiol ac ataliol, yn cael ei ddarparu mor agos â phosibl at gartrefi pobl, yn ddi-dor ac o'r ansawdd uchaf'<sup>9</sup>.
- 3.9 Argymhellodd yr adolygiad y dylai'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru weithio tuag at y Nod Pedwarplyg:
- gwella iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ffocws ar atal

---

<sup>6</sup> [OECD Reviews of Health Care Quality: United Kingdom 2016: Raising Standards](#)

<sup>7</sup> [Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Chwyldro o'r Tu Mewn: Trawsnewid Iechyd a Gofal yng Nghymru, Adroddiad Terfynol Ionawr 2018.](#)

<sup>8</sup> Ibid.tud.4.

<sup>9</sup> Ibid.tud.6.

- gwella'r profiad gofal i unigolion a theuluoedd, yn ogystal ag ansawdd y gofal
- cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, a
- cynyddu'r gwerth a gyflawnir gyda chyllid iechyd a gofal, drwy welliant, arloesi, defnyddio arfer gorau, a chael gwared ar wastraff.

3.10 Gwnaed nifer o argymhellion eraill yn yr adolygiad, gan gynnwys datblygu 'modelau gofal di-dor newydd a dewr' yn seiliedig ar egwyddorion arfer da cenedlaethol, cryfhau llais a rheolaeth gymunedol o fewn y system iechyd a gofal a gwneud y mwyaf o fanteision technoleg ac arloesi i ddarparu gofal gofal mwy effeithiol ac effeithlon.

### **Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

3.11 Cyhoeddwyd 'Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol'<sup>10</sup> ym mis Mehefin 2018 ac roedd yn nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol', a fyddai'n canolbwyntio ar atal salwch. Bwriad y cynllun oedd mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ac roedd yn seiliedig ar athroniaeth Gofal Iechyd Darbodus. Roedd yn amlinellu amcan Llywodraeth Cymru o ddatblygu 'modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol di-dor' a fyddai'n cael eu darparu mor agos i'r cartref â phosibl ac wedi'u teilwra i anghenion a dewisiadau defnyddwyr gwasanaethau. Rhoddir pwyslais ar 'atal, ymyrryd yn gynnar a llwybrau gofal integredig'.

3.12 Mae Cymru Iachach yn pwysleisio pwysigrwydd y Nod Pedwarplyg a nodir yn yr Adolygiad Seneddol yn ogystal â nodi deg Egwyddor Cynllunio a fyddai'n helpu i gyflawni'r athroniaeth Gofal Iechyd Darbodus. Nodir y rhain yn Ffigur 3.1. Ers 2019/20, disgwyliwyd i'r Gronfa Gofal Integredig adlewyrchu'r Nod Pedwarplyg a'r deg egwyddor dylunio.

<sup>10</sup> [Llywodraeth Cymru \(2018\) Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)

**Ffigur 3.1: Deg Egwyddor Cynllunio Cymru Iachach**

Atal ac ymyrryd yn fuan	Di-dor
Diogelu	Gwerth uwch
Annibyniaeth	Seiliedig ar dystiolaeth
Llais	Datblygu
Personol	Trawsnewid

3.13 Mae Cymru Iachach yn amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Drawsnewid genedlaethol. Noda y byddai ffrydiau cyllido presennol, gan gynnwys y Gronfa Gofal Integredig, yn cael eu cysoni i gefnogi uchelgeisiau'r cynllun i gyflawni'r Rhaglen Drawsnewid hon ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Yn benodol, mae'r cynllun yn datgan y byddai 'elfen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig' yn cael ei hadeiladu i gefnogi opsiynau tai sy'n gyson â'r weledigaeth ar gyfer darparu gofal yn nes at y cartref.

### **Cysylltu Cymunedau**

3.14 Ym mis Chwefror 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol<sup>11</sup>, i gydnabod effaith negyddol hynny ar iechyd corfforol a meddyliol. Mae'r strategaeth yn nodi pedair blaenoriaeth ar gyfer gweithredu i gyflawni ei gweledigaeth lle y 'bydd gan bawb y cyfle i feithrin cysylltiadau cymdeithasol ystyrlon a bydd pobl yn gallu cael cymorth ar yr adegau hynny yn eu bywydau pan maent yn fwyaf tebygol o fod yn unig ac yn teimlo'n ynysig yn gymdeithasol'<sup>12</sup>:

- cynyddu cyfleoedd i bobl ddod i gysylltiad â'i gilydd
- seilwaith cymunedol sy'n cefnogi cymunedau cysylltiedig
- cymunedau cydlynus a chefnogol
- meithrin ymwybyddiaeth a hybu agweddau cadarnhaol.

<sup>11</sup> [Unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol \(cysylltu cymunedau\)](#)

<sup>12</sup> tud.10

## Y Rhaglen Lywodraethu

- 3.15 Yn ei Rhaglen Lywodraethu flaenorol ar gyfer 2016 i 2021<sup>13</sup>, ymrwymodd Llywodraeth Cymru, o dan yr amcan i sicrhau cenedl iach a gweithgar, i gadw'r Gronfa Gofal Integredig. Roedd yn disgwyl y byddai'r Gronfa yn ei helpu i gyflawni ei huchelgeisiau o ddatblygu cysylltiadau agosach rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yn cryfhau darpariaeth gymunedol ac yn darparu gofal a thriniaeth amserol i gleifion pan fo angen.
- 3.16 Disgwylir hefyd i'r Gronfa gyfrannu at ddwy o amcanion y Rhaglen Lywodraethu gyfredol (wedi'i diweddarau) ar gyfer 2021 i 2026.<sup>14</sup> Er mwyn cyflawni'r amcan cyntaf, sef darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i sawl blaenoriaeth gan gynnwys sicrhau gwell mynediad at feddygon, nyrsys, deintyddion, a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill; diwygio gofal sylfaenol; blaenoriaethu buddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl; a blaenoriaethu ailgynllunio gwasanaethau i wella dulliau ataliol a hyrwyddo dull dim drws anghywir o ddarparu cymorth iechyd meddwl. Er mwyn cyflawni'r ail, diogelu, ailadeiladu a datblygu gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gyflawni nifer o flaenoriaethau lle mae'r Gronfa eisoes yn weithredol megis ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal; darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a all fod ar gyrion y system ofal; ac ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl.

---

<sup>13</sup> [Symud Cymru Ymlaen](#)

<sup>14</sup> [Rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru: Diweddariad](#)



## 4. Rhaglen y Gronfa Gofal Integredig

4.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o raglen y Gronfa Gofal Integredig, gan gyfeirio at ddogfennau gweithredol lefel rhaglen a gwerthusiadau perthnasol.

### Cyflwyniad

4.2 Rhaglen ataliol sydd â'r nod o hyrwyddo'r gwaith o integreiddio iechyd, gofal cymdeithasol a thai i wella bywydau'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru yw'r Gronfa Gofal Integredig. Ei nod yw diwallu anghenion gofal a chymorth pobl drwy wasanaethau mwy cydgysylltiedig a di-dor. Y bwriad oedd gwneud gwell defnydd o adnoddau drwy gydweithio a defnyddio modelau cyflawni amgen.

4.3 Mae'r canllawiau cyfredol (2020/21) yn nodi mai nod y Gronfa yw 'gyrru a galluogi gweithio integredig a chydweithredol rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a'r sectorau annibynnol'. Mae hefyd yn nodi mai ei bwriad yw 'helpu byrddau partneriaeth rhanbarthol i ddatblygu a phrofi dulliau newydd a modelau cyflwyno gwasanaethau a fydd yn ategu egwyddorion sylfaenol integreiddio ac atal'.

4.4 Fe'i sefydlwyd gyntaf fel cronfa i bara blwyddyn ar gyfer 2014/15 a'r enw gwreiddiol arni oedd y Gronfa Gofal Canolraddol.<sup>15</sup> Bwriad y gronfa oedd ysgogi newid sylweddol yn y ffordd y mae gwasanaethau'n gweithio ar y cyd ar lefel strategol a gweithredol. Fe'i cynlluniwyd i gefnogi pobl hŷn, yn enwedig y rhai bregus a'r henoed, i gynnal eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartrefi eu hunain drwy osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty, derbyniadau amhriodol i ofal preswyl, yn ogystal ag atal oedi cyn eu rhyddhau o'r ysbyty.

4.5 Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ariannu'r Gronfa yn flynyddol. Cyflwynwyd newidiadau sylweddol i'r Gronfa yn ystod 2017/18 er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r amcanion a'r grwpiau blaenoriaeth a nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Roedd disgwyl i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio cyllid y Gronfa Gofal Integredig i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol (fel y nodir yn adran 15

---

<sup>15</sup> Newidiwyd yr enw i'r Gronfa Gofal Integredig yn 2017 er mwyn adlewyrchu'n well ddiben y gronfa o weithio'n integredig

o'r Ddeddf) drwy ddarparu neu drefnu gwasanaethau ataliol a thrwy gefnogi modelau cyflawni amgen, megis drwy ddarpariaeth y trydydd sector (fel y nodir yn adran 16). Cafodd y gronfa ai hailfrandio fel y Gronfa Gofal Integredig ac roedd ei chanllawiau yn rhoi pwyslais ar weithio'n rhanbarthol a'r angen i'r ddarpariaeth gael ei llywio gan Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, a ddaeth yn ofyniad o dan adran 14 o'r Ddeddf.

## Cyllido

- 4.6 Mae'r Gronfa yn cynnwys dyraniadau cyfalaf a refeniw blynyddol (ac eithrio yn ystod 2015/16 pan mai dim ond cyllid refeniw oedd ar gael). Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am gyllid refeniw, a'r Gweinidog Newid Hinsawdd sy'n gyfrifol am gyllid cyfalaf.
- 4.7 Mae Tabl 4.1 yn nodi cyfanswm y cyllid refeniw sydd ar gael i'r Gronfa. Mae gwerth blynyddol y gronfa wedi cynyddu o'r dyraniad cychwynnol o £30 miliwn yn 2014/15 i £89 miliwn yn 2021/22.

**Tabl 4.1: Dyraniadau cyllid refeniw blynyddol y Gronfa Gofal Integredig**

	Cyfanswm y gronfa (£miliwn)
2014/15	£30m
2015/16	£20m
2016/17	£50m
2017/18	£50m
2018/19	£59m
2019/20	£89m
2020/21	£89m
2021/22	£89m

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 4.8 Mae'r cyllid yn cael ei ddsbarthu i saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol drwy daliad chwyddo, yn seiliedig ar fformiwla sy'n ystyried ystod o egwyddorion cyllido, ac yn cael ei ddyfarnu i fyrddau iechyd lleol o fewn pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Gwneir penderfyniadau gwariant ar y cyd gan y bwrdd partneriaeth ehangach er mwyn sicrhau bod cyrff yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cydweithio. Nodir cyfanswm y dyraniadau refeniw rhanbarthol yn Nhabl 4.2.

**Tabl 4.2: Dyroniadau blynyddol y Gronfa Gofal Integredig i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol**

£miliwn	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/2022
Caerdydd a Bro Morgannwg	3.697	2.460	6.435	6.273	6.273	11.603	11.602	11.402
Cwm Taf Morgannwg	2.918	1.940	5.102	5.015	5.015	12.968	12.966	12.756
Gwent	5.293	3.600	9.336	9.073	9.073	16.525	16.476	15.928
Gogledd Cymru	7.159	4.780	11.544	11.452	11.595	20.152	20.152	19.812
Powys	dd/b	dd/b	2.490	2.530	2.530	4.362	4.362	4.309
Gorllewin Morgannwg <sup>16</sup>	5.203	3.460	8.455	8.345	8.424	11.583	11.651	11.329
Gorllewin Cymru <sup>17</sup>	5.626	3.760	6.484	6.488	6.567	11.898	11.874	11.442
Cyfanswm	29.896 <sup>18</sup>	20.000	49.845	49.754 <sup>19</sup>	50.000 <sup>20</sup>	89.090	89.083	88.977 <sup>21,22</sup>

Ffynhonnell: Canllawiau Blynyddol y Gronfa Gofal Integredig, Llywodraeth Cymru

- 4.9 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi sut y disgwylir i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio'r cyllid, gyda dyroniadau penodol ar gyfer pob grŵp poblogaeth allweddol – gweler Tabl 4.3.

<sup>16</sup> Bae'r Gorllewin yn flaenorol

<sup>17</sup> Yn cynnwys dyroniad Powys hyd at 2016/17

<sup>18</sup> Cyfanswm y gyllideb oedd £30m, a dyrannwyd £5m ohono drwy'r Bwrdd Cydweithredol Rhanbarthol

<sup>19</sup> Yn cynnwys cronfa genedlaethol ychwanegol o £500,000 ar gyfer WCCIS a chronfa genedlaethol o £80,000 ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

<sup>20</sup> Yn cynnwys cronfa genedlaethol ychwanegol o £500,000 ar gyfer WCCIS a chronfa genedlaethol o £23,000 ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

<sup>21</sup> Yn cynnwys £2m ychwanegol a gedwir yn ganolog ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â darparu llety diogel i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth ar y pen uchaf.

<sup>22</sup> Yn ogystal â'r £89m, dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid cynllunio gaeaf ychwanegol o £9.8m i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o fewn y flwyddyn ariannol 2021/22.

**Tabl 4.3: Dyranriad blynyddol y Gronfa Gofal Integredig yn ôl grŵp blaenoriaeth**

£miliwn	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
Pobl hŷn	35.000	20.000	30.000	30.000	30.000	40.000	40.000	40.000
Pobl ag anabledau dysgu; Plant ag anghenion cymhleth a gofalwyr	dd/b	dd/b	4.000 <sup>23</sup>	15.000	15.000	20.000	20.000	20.000
Plant a theuluoedd	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	15.000	15.000	15.000
Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig <sup>24</sup>	dd/b	dd/b	845	2.754	3.000	2.977	2.977 <sup>25</sup>	2.977
WCCIS <sup>26</sup>	dd/b	dd/b	dd/b	2.000	2.000	2.113	2.106	dd/b
Dementia	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	9.000	9.000	9.000
Llety diogel <sup>27</sup>	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	2.000
Cyfanswm	35.000	20.000	49.845 <sup>28</sup>	49.754	50.000	89.090	89.083	88.977

- 4.10 Bu newidiadau blynyddol i'r canllawiau a gyhoeddwyd, i sicrhau bod y defnydd o'r gronfa yn adlewyrchu blaenoriaethau Gweinidogol ac yn ystyried adborth gan sefydliadau partner. Mae pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflwyno Cynlluniau Buddsoddi Refeniw blynyddol i Lywodraeth Cymru i'w hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn y canllawiau cyllido.
- 4.11 Yn ystod 2016/17, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gronfa ar gael yn flynyddol hyd at 2021 ac amlinellodd gynllun tair blynedd gydag amcanion i ddefnyddio'r gronfa i gynorthwyo gyda gwaith cynllunio tymor hwy.
- 4.12 Yn ogystal â'r newidiadau sylfaenol a wnaed i'r Gronfa i sicrhau ei bod yn cyd-fynd ag amcanion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae newidiadau nodedig eraill i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen dros amser wedi cynnwys y canlynol:

<sup>23</sup> Roedd y cyllid hwn hefyd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau ag anghenion cymhleth

<sup>24</sup> Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

<sup>25</sup> Arian ychwanegol hefyd wedi'i ddosbarthu drwy brif ddyranriad y GIG

<sup>26</sup> System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

<sup>27</sup> Ar gyfer plant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth ar y pen uchaf

<sup>28</sup> Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys £15m ychwanegol o ddyranriad newydd y llywodraeth sydd ar gael ar ôl yr etholiad

#### Yn ystod 2016/17:

- ehangu ffocws y gronfa i gefnogi grwpiau poblogaeth penodol ychwanegol (plant ag anghenion cymhleth, plant ac oedolion ag anableddau dysgu)
- cadw elfen o'r gronfa i gefnogi datblygiad a gweithrediad Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, sy'n cael ei oruchwylio drwy drefniadau cenedlaethol

#### Yn ystod 2017/18:

- addasu'r ffocws ar bobl hŷn i ganolbwyntio ar y rhai ag anghenion hirdymor neu gymhleth, gan gynnwys dementia
- ymestyn y gronfa i gwmpasu gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc
- cadw elfen o'r gronfa i gefnogi cyflwyno'r WCCIS, er bod hwn yn cael ei ariannu o ffrwd gyllido arall o 2021/22 ymlaen

#### Yn ystod 2019/20:

- ymestyn y gronfa i gynnwys plant sydd mewn perygl o fynd i ofal, y rhai sydd mewn gofal neu'r rhai sydd wedi'u mabwysiadu
- cyflwyno disgwyliad bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn buddsoddi o leiaf 20 y cant o'u dyraniad mewn darpariaeth drwy'r sector gwerth cymdeithasol
- cysoni â nod pedwarplyg a 10 egwyddor dylunio Cymru Iachach.

### **Canllawiau cyfredol y Gronfa Gofal Integredig**

4.13 Ar hyn o bryd, mae'r Gronfa yn canolbwyntio ar bum grŵp blaenoriaeth allweddol:

- pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor
- pobl sydd ag anableddau dysgu
- plant sydd ag anghenion cymhleth
- gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc
- plant ar ymylon gofal.

4.14 Yn ogystal â bodloni blaenoriaethau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, disgwylir i'r Gronfa gyllido '[m]odelau ac ymagweddau cyflenwi gwasanaethau integredig newydd' gan gynnwys y rhai sy'n:

- galluogi pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartrefi, gan osgoi gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty yn ddiangen ac oedi cyn rhyddhau
- galluogi teuluoedd i ddiwallu anghenion eu plant a'u helpu i aros gyda'i gilydd
- cynorthwyo gofalwyr yn eu rôl ofalu a'u galluogi i gynnal eu llesiant eu hunain
- cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau gofal a chymorth integredig ar gyfer unigolion anghenion cymhleth, gan gynnwys pobl ag anabledau dysgu, plant ag anghenion cymhleth ac awtistiaeth
- cynnig cymorth yn gynnar ac atal anghenion rhag cynyddu
- hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol yn ogystal ag atal iechyd meddwl gwael.

4.15 Mae'r canllawiau presennol yn nodi sefydliadau'r trydydd sector neu sefydliadau gwerth cymdeithasol<sup>29</sup> fel partneriaid strategol wrth ddatblygu a chyflawni rhaglenni a phrosiectau'r Gronfa, gan atgyfnerthu'r disgwyliadau a nodir yn Adran 16 o'r Ddeddf sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo rôl sefydliadau gwerth cymdeithasol fel partneriaid cyflawni amgen. Mae'r canllawiau'n nodi y dylai o leiaf 20 y cant o'r gronfa gefnogi darpariaeth y trydydd sector erbyn diwedd 2021.

4.16 Mae'r canllawiau hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio adnoddau'r Gronfa ar wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar arloesol gyda'r nod o sicrhau bod cymorth a chynghor cynnar yn ogystal â gweithgareddau dad-ddwysáu yn cael eu cefnogi. At hynny, mae'r canllawiau'n nodi y dylid defnyddio'r Gronfa i gefnogi uchelgeisiau a strategaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, drwy helpu i wella llesiant pobl.

---

<sup>29</sup> Wedi'u diffinio gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel rhai sy'n cynnwys mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector.

- 4.17 Mae'r canllawiau'n egluro y dylid defnyddio'r gronfa i:
- 'gefnogi prosiectau a gwasanaethau newydd neu ychwanegu at rai sy'n bodoli'n barod' ac 'ni all fod yn ffordd o amnewid ffynonellau cyllid eraill'
  - adeiladu ar sail arferion da presennol a chynyddu graddfa'r ddarpariaeth o wasanaethau integredig
  - profi modelau cyflawni newydd
  - cyllido prosiectau bach a mawr
  - cefnogi gweithgareddau sydd â strategaethau clir o ran datblygu, prif ffrydio neu ymadael.'
- 4.18 Yn 2019/20, roedd yn ofynnol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu Cynllun Buddsoddi Refeniw y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer cyfnod o ddwy flynedd yn nodi'r prosiectau a'r gweithgareddau a fyddai'n cael eu cefnogi dros y cyfnod o ddwy flynedd, sef 2019/20 a 2020/21.
- 4.19 Roedd disgwyl hefyd i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fabwysiadu ffurflen gyffredin ar gyfer cynigion am brosiectau newydd, gan nodi manylion megis gwariant, partneriaid cyflawni, buddiolwyr arfaethedig a chanlyniadau ac effaith ddisgwyliedig.
- Trefniadau Llywodraethu*
- 4.20 Mae bwrdd rheoli ffurfiol, gyda chynrychiolaeth o bob rhan o adrannau gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai ac adfywio Llywodraeth Cymru, yn cyfarfod bob chwarter i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Gronfa.
- 4.21 Mae tîm bach o Lywodraeth Cymru yn cymryd cyfrifoldeb am reoli'r gronfa'n weithredol.
- 4.22 Mae grŵp rhwydwaith arweiniol wedi bod ar waith ers 2019 i hwyluso deialog rhwng tîm Llywodraeth Cymru ac arweinwyr rhanbarthol y Gronfa. Yn ogystal, cynhaliwyd pedwar Digwyddiad Dysgu ar gyfer y Gronfa rhwng 2016 a 2020 i helpu i rannu profiadau a'r hyn a ddysgwyd. Roedd y digwyddiadau hyn wedi'u hanelu at gynrychiolwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gan gynnwys arweinwyr rhanbarthol y Gronfa yn ogystal ag unigolion sy'n ymwneud â chyflawni prosiectau a ariannwyd gan y Gronfa.

- 4.23 Disgwylir i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol roi trefniadau priodol ar waith i reoli'r broses o gyflawni'r Gronfa. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i roi cytundebau ysgrifenedig tair blynedd ar waith sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau gan fyrddau partneriaeth a'u rhannu â Llywodraeth Cymru. Disgwylir hefyd i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol enwi unigolyn i oruchwylio a monitro'r Gronfa yn eu rhanbarth.

#### **Trefniadau adrodd**

- 4.24 Cafodd trefniadau adrodd presennol y Gronfa Gofal Integredig eu cyd-gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Disgwylir i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol adrodd i Lywodraeth Cymru bob chwarter yn amlinellu gwariant y Gronfa yn erbyn y gyllideb. Disgwylir iddynt hefyd adrodd ar gynnydd gan ddefnyddio dull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau a nodi eu statws cyflawni gan ddefnyddio templed offeryn adrodd Coch Oren Gwyrdd cyffredin. Disgwylir i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol adrodd ar sut y defnyddir cyllid y Gronfa ar draws eu rhanbarth drwy eu hadroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio data ar brosiectau ar lefel ranbarthol i ddeall yn well y gwahaniaeth a wneir gan ymyriadau ac i fod yn sail i waith cynllunio ar gyfer y dyfodol.
- 4.25 Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi adroddiadau blynyddol ar y Gronfa (ar gyfer 2018/19 a 2019/20) sy'n nodi cyflawniadau'r cynllun ar sail Cymru gyfan<sup>30</sup>.

#### **Trefniadau gwerthuso**

- 4.26 Disgwylir i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynnal 'gwerthusiad trylwyr o bob prosiect' i nodi gwersi a sicrhau y gellir 'ehangu, cyflymu a/neu brif ffrydio' modelau llwyddiannus<sup>31</sup>. Disgwylir i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fabwysiadu fframwaith Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau i adrodd i Lywodraeth Cymru pa mor dda yw'r darpariaethau a pha

---

<sup>30</sup> [Cymru Iachach \(llyw.cymru\)](#); [Y Gronfa Gofal Integredig: Adroddiad Blynyddol 2019-2020 \(llyw.cymru\)](#)

<sup>31</sup> Canllawiau 2020/21 tud. 31



wahaniaeth y maent yn eu gwneud. Wrth wneud hynny, mae'n ofynnol i brosiectau ystyried pedwar maes allweddol:

- Effaith – Pa ganlyniadau a gyflawnwyd, a pha wahaniaeth a wnaed gan y prosiect?
- Proses - Sut mae'r prosiect wedi cefnogi egwyddorion allweddol fel integreiddio, cydgynhyrchu, gwerth cymdeithasol?
- Economaidd - Beth yw costau a manteision y prosiect a pha gostau y llwyddwyd i'w hosgoi?
- Ansoddol - Beth yw profiadau'r defnyddwyr gwasanaethau, staff a chymunedau o'r prosiect?

4.27 Disgwylir i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol baratoi a rhannu astudiaethau achos ansoddol gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cyflwyno profiadau defnyddwyr gwasanaethau, staff a chymunedau sydd wedi ymgysylltu â phrosiectau.

### **Gwerthusiadau ac adolygiadau perthnasol**

4.28 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau allweddol tri adolygiad lefel rhaglen mewn perthynas â'u heffaith. Mae dau o'r rhain yn ymwneud yn uniongyrchol â rhaglen y Gronfa Gofal Integredig ac mae'r trydydd yn ymwneud â rhaglen y Gronfa Trawsnewid. Mae hwn wedi'i gynnwys oherwydd ei fod yn debyg i raglen y Gronfa Gofal Integredig o ran amcanion cyffredin a model gweithredu.

*Adolygiad o'r Gronfa Gofal Integredig: Prosiectau a mentrau sy'n dangos arfer da gan yr Athro Tony Garthwaite<sup>32</sup>*

4.29 Ystyriodd yr adolygiad hwn y defnydd o'r gronfa dros ei chyfnod cyflawni cychwynnol o ddwy flynedd (y blynyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/6) ac roedd yn canolbwyntio ar sut y defnyddiwyd y Gronfa yn llwyddiannus gan 40 o brosiectau a oedd yn cynrychioli arfer gorau. Canfu fod y rhaglen yn cyllido ystod lawer ehangach o brosiectau ataliol ac integredig nag yr oedd teitl y rhaglen yn ei awgrymu (Gronfa Gofal Canolraddol). Roedd y rhain yn cynnwys prosiectau a oedd yn canolbwyntio ar dai, cryfhau capasiti

---

<sup>32</sup> Heb ei gyhoeddi

cymunedol, gwella llesiant, a gwella llwybrau gofal. Canfyddiadau allweddol yr adolygiad mewn perthynas ag effaith y Gronfa Gofal Integredig oedd bod rhai prosiectau wedi arbed arian gan wneud elw ar fuddsoddiad, er bod amcangyfrifon gwahanol wedi'u defnyddio ar draws y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyfrifo'r arbedion a gyflawnwyd (e.e. costau gwahanol yn gysylltiedig ag arbed diwrnodau gwely). Canfu'r adolygiad hefyd na fyddai rhai gwasanaethau wedi bodoli yn absenoldeb y Gronfa Gofal Integredig, gan awgrymu nad oedd gwasanaethau ataliol yn cael eu hystyried yn llawn fel gweithgareddau gwasanaeth craidd.

#### *Adolygiad Archwilio Cymru o'r Gronfa Gofal Integredig*

4.30 Ymysg canfyddiadau allweddol adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru o'r Gronfa Gofal Integredig (2019)<sup>33</sup> roedd y canlynol:

- roedd y gronfa wedi helpu i ddod â phartneriaid rhanbarthol ynghyd i gynllunio a darparu gwasanaethau integredig
- roedd pryderon ynghylch natur tymor byr y cyllid, diffyg amseroldeb wrth gyhoeddi canllawiau, anawsterau o ran cydbwysu anghenion y boblogaeth leol â dyraniadau dangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer grwpiau targed ac nid oes gan bob prosiect ffocws rhanbarthol
- mae angen cryfhau'r trefniadau llywodraethu, gan gynnwys o fewn Llywodraeth Cymru, o ran goruchwyliaeth ganolog a chapasiti staffio, ac ar draws Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- roedd effaith gyffredinol y gronfa o ran gwella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau yn parhau i fod yn aneglur, a phrin oedd y dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus yn cael eu prif ffrydio.

4.31 O ddiddordeb arbennig i'r gwerthusiad hwn mae canfyddiadau allweddol yr adolygiad mewn perthynas ag effaith y gronfa o ystyried 'nad yw Llywodraeth Cymru, hyd yma, wedi gallu darparu darlun cenedlaethol o'r effaith y mae'r gronfa wedi'i chael'<sup>34</sup>. Canfu'r adroddiad, er bod llawer o

---

<sup>33</sup> [Y Gronfa Gofal Integredig | Audit Wales](#)

<sup>34</sup> tud.44

astudiaethau achos o brofiad defnyddwyr yn cael eu paratoi, nad oedd y wybodaeth am ganlyniadau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn caniatáu unrhyw gymhariaeth o debyg at ei debyg ar lefel genedlaethol. Cododd yr adroddiad hefyd y ffaith nad oedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu adrodd am lai o alw neu arbedion mewn rhannau eraill o'r system o ganlyniad i'r Gronfa Gofal Integredig, oherwydd cynnydd cyffredinol yn y galw am wasanaethau craidd presennol. Mewn ymateb i adroddiad Archwilio Cymru, cyflwynodd Llywodraeth Cymru fecanweithiau adrodd mwy cyson ar draws y Gronfa a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fabwysiadu ac adrodd yn erbyn egwyddorion Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Roedd prosiectau a ariannwyd yn gallu dewis eu dangosyddion Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau eu hunain fel sail i'r adroddiadau hyn.

*Gwerthusiad o Gronfa Trawsnewid Cymru Iachach (Ebrill 2020, 2021)*

4.32 Mae llawer o'r canfyddiadau allweddol yn y gwerthusiad canol cyfnod <sup>35</sup> a'r gwerthusiad diweddar blynyddol<sup>36</sup> o 'Gronfa Trawsnewid Cymru Iachach' yn berthnasol i'r Gronfa Gofal Integredig o ystyried bod y Gronfa Trawsnewid hefyd yn gronfa genedlaethol sydd ar gael i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddarparu modelau newydd, trawsnewidiol o iechyd a gofal cymdeithasol di-dor. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- cynlluniwyd cynigion ar gyfer prosiectau gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol drwy ddull 'o'r gwaelod i fyny' a oedd yn golygu, er bod prosiectau wedi'u hanelu at fynd i'r afael â blaenoriaethau rhanbarthol, arweiniodd at roi hunaniaeth a modelau gweithredu gwahanol i brosiectau â nodau ac amcanion tebyg, gan greu heriau o ran ehangu ymyrraeth effeithiol mewn rhanbarthau eraill
- roedd y gronfa'n cefnogi nifer llawer mwy o brosiectau na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol yn Cymru Iachach, sef 30, ac roedd hynny'n cynyddu'r risg na fyddai cyllido nifer fawr o brosiectau llai yn cyflawni'r

---

<sup>35</sup> [Gwerthusiad Canol Cyfnod Cronfa Drawsnewid Cymru Iachach](#)

<sup>36</sup> [Y Gronfa Trawsnewid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2018 i 2021: Gwerthusiad](#)

newid ar lefel strategol a ragwelwyd gan y Gronfa Trawsnewid. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r Gronfa Gofal Integredig o ystyried y nifer fawr o brosiectau y mae wedi'u cyllido hyd yma

- er y canfuwyd bod y rhan fwyaf o'r modelau yn newydd ac o bosibl yn drawsnewidiol, mae'r gorgyffwrdd o ran themâu a dulliau gweithredu ar draws y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ynghyd â rhai nad ydynt wedi'u diffinio'n arbennig o dda, yn creu risg mai prin fyddai'r ymyriadau llwyddiannus a fyddai'n cael eu hehangu o lefel isranbarthol i lefel ranbarthol, neu o lefel ranbarthol i lefel genedlaethol o ganlyniad
- roedd yr heriau cyflawni cynnar a wynebwyd gan brosiectau'r Gronfa Trawsnewid yn cynnwys materion technegol, trefniadau llywodraethu a negodi manylebau contract allanol. Yn ogystal, canfuwyd bod yr amserlenni ar gyfer cyflawni trawsnewidiad gwirioneddol yn uchelgeisiol iawn a chawsant eu rhwystro gan faterion megis oedi wrth gymeradwyo ceisiadau, problemau recriwtio eang a phwysau ariannol sy'n wynebu'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Effeithiodd y pandemig COVID-19 ar brosiectau mewn gwahanol ffyrdd, gyda rhai yn profi cynnydd yn y galw yn ystod y cyfnod hwn
- fel yr adroddwyd ar gyfer y Gronfa Gofal Integredig, canfuwyd bod y Gronfa Trawsnewid yn cael effaith gadarnhaol o ran annog partneriaid i gydweithio
- erbyn 2021, roedd y newid wedi cyflymu ar gyfer rhai prosiectau ond roedd argaeledd staff ac anawsterau o ran ymgysylltu â phobl yn ystod y cyfnod wedi effeithio ar eraill
- erbyn 2021, canfuwyd bod y cynnydd a wnaed i weithredu fframweithiau gwerthuso yn amrywio o un rhanbarth i'r llall, gyda diffyg cynnydd yn cael ei briodoli'n bennaf i effeithiau'r pandemig
- erbyn 2021, roedd rhanbarthau'n gweithio ar gysoni eu prosiectau â model mwy cydlynol ar gyfer y dyfodol a chanfu'r gwerthusiad fod achos cryf dros ymchwilio i'r angen am raglen sengl, tymor hwy i ariannu'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau yn y dyfodol.

4.33 Mae'r gwerthusiad yn cynnig nifer o argymhellion sy'n cwmpasu gweddi cyfnod cyflawni'r rhaglen (a fyddai'n mynd i'r afael â llawer o'r canfyddiadau allweddol a nodir uchod) yn ogystal ag argymhellion tymor hwy. Yr argymhelliad allweddol sy'n berthnasol i raglen y Gronfa Gofal Integredig yw'r argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyfleoedd i gyfuno ffrydiau cyllido yn y dyfodol ac edrych ar gyfleoedd i integreiddio'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid.

## **5. Canfyddiadau'r gwaith maes gyda rhanddeiliaid**

- 5.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith maes gyda rhanddeiliaid ac yn nodi eu barn ar y Gronfa Gofal Integredig hyd yma, yn ogystal â ffurf y Gronfa (neu fath o gyllid amgen) yn y dyfodol. Mae'n ystyried safbwyntiau 74 o gyfranwyr: cymerodd 40 ohonynt ran mewn cyfweiliadau unigol neu barau, cyfrannodd 31 drwy bum trafodaeth grŵp a chyfrannodd tri drwy arolwg i rhanddeiliaid ar y we. Cynrychiolwyd pob un o saith rhanbarth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn y sampl.
- 5.2 Nodwyd saith mater allweddol o'r dystiolaeth a ddarparwyd ac mae'r rhain yn cynrychioli meysydd o bwys i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid eu hystyried. Ar gyfer pob mater, rhoddir ystyriaeth i brofiad y cyfranwyr o'r Gronfa Gofal Integredig hyd yma a'u syniadau a'u hawgrymiadau ar gyfer sut y gellid defnyddio'r cyllid yn y cyfnod ar ôl Ebrill 2022.

### **Nodyn ar COVID-19**

- 5.3 Dylid nodi nad oes unrhyw adran benodol sy'n sôn am effeithiau'r pandemig fel mater ynddo'i hun. Y rheswm am hyn yw bod gan COVID-19 oblygiadau ar gyfer pob agwedd nodir isod. Yn hytrach nag ailadrodd yr un pwyntiau ym mhob un o'r adrannau, efallai ei bod yn ddigonol nodi bod y pandemig ar y cyfan wedi cael dwy effaith allweddol:

- y cyntaf oedd ei fod yn darparu amgylchedd a oedd yn caniatáu i drafodaethau am drefniadau gweithio integredig gael eu cynnal. Dywedodd y cyfranwyr yn gyson fod y pandemig wedi creu amgylchedd ac awyrgylch o fod angen meddwl a gweithio'n wahanol, gan ddileu prosesau biwrocraidd a chyflymu llawer o'r effeithiau yr oedd gweithio ar brosiectau'r Gronfa wedi'u creu ymysg timau amlasiantaeth ac ar draws sefydliadau.
- yn ail, ac ar yr un pryd, roedd y pandemig yn anochel yn llesteirio'r cynnydd a wnaed ar lefel prosiect mewn sawl achos. Roedd y cysylltiad â phobl a chymunedau yn brin ac yn destun protocolau llym a oedd yn golygu bod yn rhaid gohirio rhai o brosiectau'r Gronfa dros dro neu eu haddasu. Gwaethygyd hyn gan y ffaith bod llawer o staff iechyd a gofal cymdeithasol yn absennol neu wedi'u hadleoli

er mwyn darparu ymateb brys, gan arwain at brinder ar draws y timau a oedd yn gweithio i gyflawni portffolio'r Gronfa. Serch hynny, cawsom ein hysbysu bod 88 y cant o brosiectau'n dal i gael eu cyflawni yn ystod y pandemig.

**Mater 1: Mae'r Gronfa Gofal Integredig wedi galluogi a chyflymu gwelliannau mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth rhwng asiantaethau ac ar draws rhanbarthau**

- 5.4 Mynegwyd nifer o sylwadau cadarnhaol ynghylch sut yr oedd y Gronfa wedi helpu i wella gwaith partneriaeth nid yn unig rhwng y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol ond hefyd gyda sectorau eraill megis tai a'r trydydd sector. Disgrifiwyd y Gronfa fel arian partneriaeth wedi'i ddiogelu a oedd wedi dod â phobl o wahanol asiantaethau o amgylch y bwrdd ac wedi arwain at newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad. O ganlyniad, roedd gwell cyd-ddealltwriaeth, a chynhyrwyd agendâu ar y cyd yn llawer cyflymach nag a fyddai wedi digwydd fel arall. Dywedwyd bod y diwylliant o feio wedi lleihau yn sgil y Gronfa a bod y gwaith ar sail system gyfan wedi gwella. Er bod heriau'n dal i fodoli i sefydliadau'r trydydd sector o ran amseroedd paratoi ac ymadael oherwydd natur fyrdymor y gronfa, teimlwyd bellach bod partneriaid statudol yn deall y rhain yn well. Ystyriwyd bod y Gronfa wedi helpu i rymuso'r trydydd sector a dangos ei werth. Roedd wedi rhwystro partneriaid statudol rhag cadw darpariaeth mewn modd amhriodol. Serch hynny, roedd tueddiad o hyd i'r trydydd sector ganolbwyntio ar brosiectau llai, annibynnol, a gynigiwyd yn aml gan y sector ei hun, a oedd yn fwy tueddol o gael eu colli mewn cystadleuaeth am arian.
- 5.5 Disgrifiwyd bod sefydliadau'n fwy eangfrydig o ganlyniad i'r Gronfa a'u bod bellach yn dilyn ethos partneriaeth newydd o ran eu dulliau o ddatblygu gwasanaethau. Roedd y dogfennau cychwyn prosiect sy'n ofynnol ar gyfer prosiectau'r Gronfa yn dangos yr angen am waith amlasiantaeth gan fod angen iddynt gael eu cymeradwyo ar y cyd. Fodd bynnag, er bod cydweithio da wedi helpu prosiectau i gychwyn yn gyflymach, roedd tensiynau anochel yn dal i fodoli o ran gweithio mewn partneriaeth yn gyffredinol ac ni ddylid diystyru'r her o gael cytundeb trawsasiantaethol.

Roedd rhai o'r farn bod manteision ac anfanteision i sianelu arian y Gronfa drwy fyrddau iechyd lleol gan ei fod ar y naill law yn ennyn ymddiriedaeth a pherthnasoedd mwy agored drwy drafodaethau heriol ond ar y llaw arall yn ei gwneud yn anos i un ffynhonnell gydlynu ar draws nifer o awdurdodau lleol.

- 5.6 Daeth dwy agwedd arall ar weithio mewn partneriaeth i'r amlwg o'r cyfweiliadau. Roedd y cyntaf yn ymwneud â'r graddau yr oedd y Gronfa wedi gwella trefniadau gweithio rhanbarthol. Ar y cyfan, er bod ehangu prosiectau lleol i lefel ranbarthol wedi bod yn heriol, yn debyg i'r heriau o ran prif ffrydio y cyfeiriwyd atynt yn ddiweddarach, dywedwyd bod y Gronfa wedi helpu i annog a hwyluso ffordd fwy rhanbarthol o weithio. Roedd gwahanol ddulliau gweithredu gan awdurdodau lleol wedi'u lleihau yn hyn o beth ac mewn rhai achosion, roedd prosiectau rhanbarthol wedi'u blaenoriaethu. Fodd bynnag, roedd angen cydnabod natur unigryw awdurdodau unigol o hyd ac roedd hyn weithiau'n gwneud dulliau gweithredu rhanbarthol cyfan yn anodd a hyd yn oed yn amhriodol. Mewn rhai achosion, roedd y tensiynau rhwng agendâu lleol a rhanbarthol wedi atal rhaglen y Gronfa rhag cael ei chydgyssylltu ar draws y rhanbarth. Ymysg rhai o'r prif rwystrau a'r ffactorau sy'n galluogi trefniadau gweithio amlasiantaeth, rhanbarthol roedd: gwahanol flaenoriaethau, capasiti, personoliaethau, ystyriaethau gwleidyddol a nodweddion rhanbarthol megis daearyddiaeth.
- 5.7 Yr ail agwedd yw i ba raddau y mae'r Gronfa wedi cefnogi'r gwaith o integreiddio gwasanaethau. Yn y cyd-destun hwn, dehonglwyd integreiddio fel rhywbeth y tu hwnt i waith partneriaeth da ac yn debycach i ddulliau system gyfan tymor hwy. Mynegwyd safbwyntiau cymysg, gyda rhai yn teimlo bod yr agenda gweithio integredig wedi'i chyflymu gan y Gronfa ac eraill, er yn cydnabod rhai enillion ymylol, yn teimlo y byddai'n gyfeiliornus honni bod y Gronfa wedi cael dylanwad radical ar integreiddio o safbwynt strategol. Gellir priodoli'r anghysondeb hwn yn rhannol i safonau gwahanol sy'n cael eu cymhwyso wrth ddehongli beth yw gwir integreiddio yn absenoldeb 'safon' y cytunwyd arni.



5.8 Efallai fod y farn gyffredinol ynghylch sut y teimlwyd bod y Gronfa wedi effeithio ar drefniadau gweithio mewn partneriaeth wedi'i chrynhoi mewn un sylw - er gwaethaf yr holl drafferthion, roedd cael yr adnoddau i'w gwario ar bobl wedi cryfhau partneriaethau, wedi helpu i chwalu rhwystrau sefydliadol, ac wedi bod yn werth yr holl heriau y cyfeiriwyd atynt.

#### *Goblygiadau*

5.9 Mae nifer o faterion yn codi o hyn wrth i oblygiadau gweithio mewn partneriaeth gael eu hystyried wrth i'r Gronfa symud i gam nesaf ei gweithrediad ar ôl Ebrill 2022. Dyma ein dehongliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd ond sydd hefyd yn tynnu ar faterion ehangach sy'n berthnasol i ddyfodol y Gronfa:

- mae ymddiriedaeth wedi cynyddu, ond mae hyn yn dal i amrywio o fewn rhanbarthau, a rhwng ac o fewn byrddau iechyd ac awdurdodau lleol
- er bod deinameg pŵer yn dal i fod ar waith, lle mae pethau'n gweithio orau, dywedodd y cyfranwyr nad oes ots ym mha ran o'r system y mae manteision yn cronni, ond mae ffocws hwyr ar gael 'cyfran deg' (gul) wedi lleihau effaith y Gronfa mewn manau
- yr adnodd ychwanegol a ddarperir gan y Gronfa Gofal Integredig (ochr yn ochr â'r Gronfa Trawsnewid) oedd yr unig arian gwirioneddol a oedd ar gael i alluogi sefydliadau i feddwl am weithio'n wahanol ac mae'n cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu'n fawr am hynny. Mae pryderon yn bodoli felly ynghylch i ba raddau y bydd y gronfa'n cael ei chynnal ar ôl mis Ebrill 2022
- er bod gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a'r trydydd sector wedi bod yn gadarnhaol iawn, mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod y berthynas â gofal sylfaenol, y sector annibynnol, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ar yr un lefel.

## **Mater 2: Mae heriau o ran gallu prif ffrydio gwasanaethau wedi parhau oherwydd diffyg hyblygrwydd yn y gyllideb**

- 5.10 Roedd yr egwyddor a'r angen i uwchraddio a phrif ffrydio gwasanaethau o ganlyniad i ddysgu o brosiectau llwyddiannus y Gronfa Gofal Integredig yn bwysig i'r rhai a gyfwelwyd. Deallwyd yn gyffredinol y dylai gweithgareddau peilot newydd gael eu profi, ac os profir eu bod yn effeithiol, bwrw ymlaen â nhw o fewn cyllid prif ffrwd craidd. Fodd bynnag, er bod rhai enghreifftiau o uwchraddio prosiectau lleol i lefel ranbarthol, ystyriwyd bod prif ffrydio yn ormod o her mewn cyfnod o galedi. Roedd pwysau a y gyllideb wedi golygu bod angen parhaus i wneud arbedion a bu'n rhaid i wasanaethau'n ymwneud â'r Gronfa gystadlu â gwasanaethau prif ffrwd presennol am flaenoriaeth. Yn y cyd-destun hwn, roedd rhai cynghorwyr mewn awdurdodau lleol wedi'i chael hi'n anodd cysoni'r syniad o leihau cyllid ar gyfer gwasanaethau prif ffrwd tra'n gwario mwy o arian drwy gyllid allanol fel y Gronfa Gofal Integredig. Awgrymwyd bod pwysau cynyddol ar ochr y galw wedi golygu bod cyllidebau ac unrhyw arian ychwanegol bob amser yn cael eu defnyddio'n llawn ac wedi'u hymrwymo ac y byddai ystyried gorfod cael gwared ar staff a ariennir gan y Gronfa o'r hyn sy'n wasanaethau sydd wedi bwrw gwreiddiau'n llawn y tu hwnt i amgyffred.
- 5.11 Roedd siom gyffredinol na fu'n bosibl rhoi mwy o sylw i brif ffrydio prosiectau llwyddiannus y Gronfa heblaw mewn pocedi cymharol fach. Ymddengys mai cymharol brin oedd y sgysiau ymhlith asiantaethau ar brif ffrydio ond roedd y rhai a gyfwelwyd yn dymuno pwysleisio mai diffyg cyllid oedd yn bennaf cyfrifol am hyn yn hytrach na dymuniad neu fwriad. Teimlai llawer fod anawsterau a chymhlethdodau prif ffrydio yn cael eu tanamcangyfrif gan nad oedd mor syml â dod ag un gwasanaeth i ben a rhoi gwasanaeth arall yn ei le. Roedd angen cyllid penodol i alluogi prif ffrydio gan fod angen rhedeg gwasanaethau presennol a newydd ar yr un pryd am gyfnod o amser fel arfer. Mewn rhai achosion, nid oedd y dadfuddsoddiad mewn gwasanaeth wedi cynhyrchu arian ychwanegol y gellid ei ddefnyddio gan fod y manteision o ran effeithlonrwydd i'w gweld mewn maes gwasanaeth arall. Mae pwysau a blaenoriaethau'n newid dros amser felly gall dadfuddsoddi mewn gwasanaeth sy'n effeithio ar bobl hŷn,

er enghraifft, arwain at orfod defnyddio arbedion cost i gefnogi gwasanaethau ar gyfer grŵp gwahanol o'r boblogaeth.

- 5.12 Teimlai rhai y gallai mwy o brif ffrydio fod wedi bod yn bosibl pe rhoddwyd blaenoriaeth i hynny dros greu prosiectau newydd ond roeddent yn cydnabod yr effaith y gallai hyn fod wedi'i chael ar y manteision a ddeilliodd o'r prosiectau hynny.

### *Goblygiadau*

- 5.13 Yn deillio o'r cyfweiliadau hyn mae nifer o oblygiadau, o ran prif ffrydio y dylid eu hystyried cyn mis Ebrill 2022:
- mae'n anodd sgwario'r cylch o orfod cwtogi ar wasanaethau 'craidd' yn wyneb cyllid parhaus o dan y Gronfa ar gyfer prosiectau 'dewisol'. Mae'r pwysau cyson i wneud arbedion ar wasanaethau 'craidd' – yn enwedig pan fydd y galw 'n fwy na'r cyflenwad – mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r sicrwydd a ddarperir gan gyllid grant allanol fel y Gronfa Gofal Integredig.
  - mae bron yn amhosibl cyflawni prosiectau heb gyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddyletswyddau statudol. Nid yw'n bosibl prif ffrydio heb arian sydd wedi'i glustnodi a'i neilltuo at y diben hwn, yn enwedig yn yr argyfwng presennol
  - mae buddsoddi a dadfuddsoddi mewn gwasanaethau yn fater cymhleth, yn enwedig gan nad yw'r Gronfa bob amser yn darparu 100% o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau.

### **Mater 3: Mae gan y Gronfa Gofal Integredig amodau cyllido nad ydynt bob amser yn ffafriol i gynnal y manteision hirdymor y gellid eu cyflawni**

- 5.14 Mae'n ymddangos bod ambell gamddealltwriaeth a/neu ddehongliad gwahanol o amodau'r Gronfa, a'r rhesymeg sy'n sail iddynt, o'u cymharu â'r esboniad swyddogol gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod y Gronfa yn rhan o'r Rhaglen Lywodraethu, a bod ei hamcanion yn gysylltiedig â'r blaenoriaethau ar gyfer cyflawni integreiddio a nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Pennwyd yr amcanion hyn am dair blynedd tan 2021 ac er nad ydynt yn ddelfrydol, nid yw trefniadau cyllido'r Gronfa yn wahanol o gwbl i raglenni grant eraill o ran cyllidebau blynyddol. Dim ond canran o'r gronfa a oedd wedi'i chlustnodi ar gyfer grwpiau neu swyddogaethau penodol o'r boblogaeth ac roedd y pwyslais ar gefnogi grwpiau agored i niwed o bobl na fyddent wedi cael cymorth fel arall. Yn y cyd-destun hwn, roedd defnyddio'r Gronfa i gefnogi iechyd a llesiant emosiynol pobl yn briodol er nad oedd yn flaenoriaeth benodol.

- 5.15 Roedd yn anodd pennu'r cydbwysedd cywir o gyfarwyddyd a disgresiwn ar gyfer defnyddio'r gronfa ac roedd yn briodol sicrhau bod cyfran o gyfanswm y gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei glustnodi at ddibenion penodol. Er enghraifft, dim ond tua 2 y cant o gyfanswm y gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol a gynrychiolwyd gan y Gronfa ac nid oedd yn afresymol meddwl y dylai swm o'r fath fod ar gael at ddibenion arbrofol ac arloesol. Roedd y cyfarwyddyd cyfyngedig yn caniatáu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio'r Gronfa yn ôl yr angen ac yn seiliedig ar eu hasesiadau poblogaeth. Gallent bennu ystod a nifer y prosiectau ac roedd ganddynt hyblygrwydd i ddiwallu anghenion lleol.
- 5.16 Yn gyffredinol, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai rhanddeiliaid fod wedi deall yn ddigonol y bwriad i barhau â'r cyllid er mwyn lleddfu'r ofnau y byddai'r Gronfa'n diflannu heb rybudd digonol.
- 5.17 Roedd y farn a fynegwyd gan y rhai a gyfwelwyd yn dangos y gwahanol safbwyntiau a/neu achosion o gamddealltwriaeth y cyfeiriwyd atynt. Cafwyd beirniadaeth eang o natur tymor byr y Gronfa gan y teimlwyd bod hyn yn creu llawer o ansicrwydd. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â phroblemau recriwtio a chadw staff a oedd yn amharod i ymuno â phrosiect neu'n awyddus i'w adael er mwyn cael swyddi mwy parhaol. Mewn un achos y cyfeiriwyd ato, roedd darparwr o'r trydydd sector wedi rhoi'r gorau i recriwtio pobl newydd ar ôl y trydydd chwarter oherwydd ei fod yn ofni na fyddai cyllid ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Yn yr un modd, cyfeiriwyd at achosion lle y rhoddwyd y gorau i recriwtio buddiolwyr posibl ar gyfer gwasanaethau oherwydd yr ansicrwydd ynghylch parhad y prosiect. Mewn rhai achosion, roedd y cyfyng-gyngor o ran recriwtio staff

wedi arwain at danwariant a oedd yn ei dro wedi cyfrannu at ymddygiad gwrthnysig ynghylch yr angen i wario arian yn gyflym heb roi ystyriaeth briodol i effaith hynny.

- 5.18 Disgrifiwyd rheoli cronfa tymor byr, cyfnod sefydlog fel y Gronfa Gofal Integredig fel rhywbeth tebyg i reoli risg. Arweiniodd hyn at yr angen i fynd i'r afael â chwestiynau anodd megis a ddylid cynnig sefydlogrwydd i staff ac mewn rhai achosion a ddylid dileu gwasanaethau. O bryd i'w gilydd, penderfynwyd peidio â gwneud rhai buddsoddiadau a gresynwyd at hynny pan ddaeth yn amlwg y byddai'r gronfa'n parhau. Mewn achosion eraill, cymerodd pobl y risg o barhau â phrosiectau ac o ganlyniad dechreuodd y prosiectau sicrhau mwy o werth am arian.
- 5.19 Teimlai nifer o randdeiliaid fod natur y Gronfa wedi'i gwneud yn llawer anos mabwysiadu dull strategol o gynllunio darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn ymwneud nid yn unig â'r ffactor tymor byr ond ag amseriad y cyhoeddiadau am gyllid hefyd. Arweiniodd hyn at ormod o brosiectau llai a thuedd i addasu prosiectau presennol yn hytrach na chanolbwyntio ar fanteision hirdymor, a thrwy hynny gyfyngu ar y gwerth a ychwanegwyd. Roedd hefyd yn golygu diffyg amser i recriwtio staff a chynnal ymarferion tendro hirdymor o fewn y broses gomisiynu. Roedd natur a strwythur y Gronfa hefyd yn dylanwadu ar lefel yr uchelgais ac ansawdd y syniadau ac wedi arwain at neilltuo cryn dipyn o adnoddau ac amser i gynllunio ariannol, adroddiadau ariannol ac adroddiadau ar gynnydd.
- 5.20 Roedd beirniadaeth hefyd ar ofyniad y Gronfa i ddyrannu cyfrannau penodol o arian i grwpiau poblogaeth. Nid oedd y rhesymau dros yr amod hwn yn cael eu deall yn glir a thynnwyd sylw at y rheswm dros ddiffyg cyllid ar gyfer iechyd meddwl fel enghraifft. Teimlwyd, er bod targedu grwpiau penodol yn ddealladwy pan ddechreuodd y Gronfa, nad oedd hyn yn angenrheidiol mwyach ac nad oedd modd ei gyfiawnhau, yn bennaf oherwydd nad oedd yn ystyried sut yr oedd gwariant presennol eisoes wedi'i ddyrannu mewn gwahanol ranbarthau. Ystyriwyd bod y dyraniadau cyllid a'r diffyg hyblygrwydd yn ychwanegu at y meddylfryd o weithio mewn seilos yr oedd y gronfa wedi'i bwriadu i'w ddileu.

- 5.21 Roedd y cyllid tymor byr a'r amseru yn peri problemau penodol i'r trydydd sector a oedd weithiau wedi cael trafferth i wario'r arian a ddyrannwyd. Disgrifiwyd bod y trydydd sector yn wynebu'r holl heriau recriwtio a chadw a wynebir gan y sector statudol, a mwy. Adroddwyd bod gormodedd o geisiadau am gyllid ar gyfer prosiectau'r trydydd sector mewn rhai rhanbarthau a bod y broblem i gyrrff llai yn y trydydd sector yn cael ei gwaethygu mewn rhai achosion gan y ffaith bod llawer o'r gronfa yn cael ei dyrannu i'r elusennau cenedlaethol mawr.
- 5.22 Ar brydiau, roedd ffactorau amser yn golygu mai dim ond am ran o flwyddyn yr oedd modd defnyddio arian y Gronfa. Roedd nodweddion sefydliadau bach yn y trydydd sector yn golygu nad oeddent mewn sefyllfa ariannol ddigon cryf i gymryd unrhyw un o'r risgiau y cyfeirir atynt uchod a chyfeirirwyd at enghraifft o un sefydliad yn diswyddo pobl oherwydd ansicrwydd ynghylch cyllid ac yna angen recriwtio eto pan gadarnhawyd bod cyllid ar gael. Nid oedd y cynghorau gwasanaethau gwirfoddol mewn sefyllfa i helpu i reoli'r risgiau drwy warantu prosiectau.
- 5.23 Cafwyd barn yn gymysg ynghylch y cyfarwyddyd i ddyrannu 20 y cant o arian y Gronfa i brosiectau gwerth cymdeithasol. Er bod rhai yn ei groesawu fel ffordd o sicrhau cyfranogiad cryf gan y trydydd sector, tynnodd eraill sylw at y ffaith na chydymffurfiwyd â hyn bob amser a/neu nad oeddent yn ystyried cyllid a oedd eisoes yn cael ei ddarparu i'r trydydd sector mewn rhanbarth penodol. Yn ddiddorol ddigon, mynegwyd barn y gellid dehongli'r angen i bennu swm penodol fel adlewyrchiad o ddiffyg hyder mewn partneriaid statudol i barchu a gwerthfawrogi cyfraniad y trydydd sector yn briodol.
- 5.24 Teimlwyd bod prosiectau'r trydydd sector yn gyffredinol yn fwy lleol na rhanbarthol yn ogystal â bod yn fwy ystwyth a hyblyg o gymharu â sefydliadau statudol, gan adlewyrchu'r cryfderau a allai ddod yn eu sgil. Mynegwyd peth pryder bod y trydydd sector yn rhy adweithiol wrth weithredu ar sail cylch cynigion blynyddol. Wedi dweud hynny, gwnaeth pobl sylwadau cadarnhaol am sut yr oedd y Gronfa wedi galluogi'r trydydd sector i gefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac mewn rhai achosion i gael arian cyfatebol ychwanegol o ffynonellau eraill.

## *Goblygiadau*

5.25 Mae'r canlynol yn rhestr o faterion a ddaeth i'r amlwg o ystyriaethau ynghylch yr amodau sydd ynghlwm wrth gyllid y Gronfa y mae angen eu hystyried ar ôl Ebrill 2022. Fel uchod, dyma ein dehongliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd gennym ond gan ystyried hefyd faterion ehangach sy'n berthnasol i ddyfodol y Gronfa:

- mae angen cyfnod ariannu gofynnol – o leiaf 3 blynedd ac yn ddelfrydol 5 mlynedd – oherwydd fel arall gallai cyllid y Gronfa fod yn rhwystr i drawsnewid y system gyfan, a chyfyngu ar y syniadau ynghylch y gwerth y gellir ei gyflawni
- mae heriau o ran yr amseroedd paratoi a datgysylltu i rywfaint o waith y Gronfa ar gyfer partneriaid (yn enwedig y trydydd sector) sydd weithiau â chyfyngiadau ar eu gallu oherwydd y ffyrdd y cânt eu hariannu fesul prosiect
- mae angen ailystyried y cyfarwyddyd ynghylch cydbwysedd y gwariant ar draws gwahanol grwpiau poblogaeth, a dylai fod cyfle hefyd i gynnig meysydd ffocws newydd – fel iechyd meddwl
- gallai trefniadau cyllido eraill (gan gynnwys cyfuno cyllid) fod yn rhan o ddyfodol y Gronfa, ond mae angen eglurder o ran siâp y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol 'newydd' ar ôl y papur gwyn<sup>37</sup>, yn enwedig mewn perthynas â'r trefniadau ariannol a llywodraethu
- pe bai prosiectau'n cael eu cau heb gyllideb ddigonol i wneud taliadau diswyddo byddai hynny'n cael ei weld fel amharch tuag at waddol y gwaith a wnaed o dan y Gronfa a thrin pobl mewn modd ansensitif ac amhriodol
- mae'n hanfodol bod amodau cronfeydd cyfnod penodol, a'r rhesymeg sy'n sail iddynt, yn cael eu deall gan y ddwy ochr ac nad ydynt yn agored i gael eu camddechongli.

---

<sup>37</sup> [Gwella Trefniadau Gofal Cymdeithasol a Gwaith Partneriaeth](#)

**Mater 4: Mae dibyniaeth ar gyllid y Gronfa Gofal Integredig wedi dod yn nodwedd o'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu**

- 5.26 Cydnabuwyd yn eang werth y Gronfa o ran cefnogi parhad gwasanaethau craidd yn ystod cyfnod o gynt. Yn ogystal â hynny, disgrifiwyd llawer o raglenni'r Gronfa fel rhai a oedd wedi datblygu mewn modd cadarnhaol o fentrau trawsnewidiol i fusnes craidd. Roedd canmoliaeth mawr i'r Gronfa yng nghyd-destun galluogi gwasanaethau i ddatblygu ac, yng ngeiriau rhanddeiliaid, 'cynnal y cyllidebau' sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau presennol pwysig, yn enwedig rhai awdurdodau lleol. Roedd pobl yn awyddus i bwysleisio eu bod yn defnyddio'r term, 'cynnal' mewn goleuni cadarnhaol o ystyried yr hinsawdd ariannol anodd, gan gydnabod y gallai hyn fod wedi effeithio ar y defnydd o'r Gronfa at ddibenion gwreiddiol. Roedd hyn yn cynnwys y ffaith bod defnyddio arian y Gronfa o ganlyniad i'r twf a'r datblygiad yn y gwasanaethau a'r prosiectau a ariennir ganddi bellach yn rhan ganolog o gyflawni nodau ac amcanion a lleddfu'r pwysau ar wasanaethau a chyllidebau. I'r perwyl hwnnw, cydnabu rhai pobl eu bod wedi gallu dehongli meini prawf ariannu'r Gronfa mewn modd digon hyblyg i'w galluogi i ymateb i heriau o fewn y system ehangach, a thrwy hynny ysgafnhau'r pwysau ar wasanaethau a chyllidebau. O'r herwydd, daeth prosiectau yn elfen ganolog o gyflawni nodau ac amcanion ar draws y system.
- 5.27 Disgrifiwyd y Gronfa fel un o'r ychydig adnoddau sydd ar gael i wneud pethau'n wahanol yn enwedig o ran cefnogi mentrau ataliol. Roedd y gronfa hefyd wedi darparu capasiti ychwanegol amhrisiadwy i fwrw ymlaen â datblygu gwasanaethau ar draws y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd y rhai a gyfwelwyd yn awyddus i bwysleisio, er gwaethaf y cyllid ychwanegol hwn, fod y galw yn dal i fod yn fwy na'r cyflenwad mewn llawer o achosion. Crynhodd pobl bwysigrwydd cyllid y Gronfa drwy fynegi'r anawsterau y byddent yn eu hwynebu hebdo. Dywedasant fod llawer o'r swyddi a ariennir yn swyddi rheng flaen ac na allai cyllidebau gweddilliol dalu'r diffygion mewn cyllid na thalu'r costau sy'n gysylltiedig â dod â phrosiectau i ben. Nid oedd modd cau'r tap, yn enwedig o ran y mentrau sy'n fwy seiliedig ar raglenni, a byddai'r niwed i



drawsnewidiad hirdymor yn sylweddol yn yr achosion hynny. Dywedwyd bod y Gronfa bellach yn rhan o seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol a'i bod wedi codi disgwyliaid ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni. Gellid dehongli hyn fel cleddyf deufin o ystyried natur tymor penodol y gronfa.

5.28 O ran osgoi costau a chreu arbedion, cydnabuwyd bod y Gronfa wedi cyfrannu at leihau pwysau o ran costau a chapasiti drwy, er enghraifft, gylluniau rhyddhau o'r ysbyty, ond nad oedd yn gywir priodoli manteision yn y cyd-destun hwn i'r Gronfa Gofal Integredig yn unig. Mae adborth o brosiectau'r Gronfa ar sut y bu iddynt helpu i leihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei ystyried ymhellach ym Mhennod 7. Fodd bynnag, yn gyffredinol roedd pobl yn amharod i honni bod y Gronfa wedi arwain at arbed costau sylweddol am sawl rheswm. Yn gyntaf, yr anawsterau o ran mesur unrhyw arbedion, megis drwy ryddhau capasiti gwelyau ysbytai, yn nhermau ariannol yn unig; yn ail, pwysau o fewn y system sy'n golygu bod unrhyw arbedion yn cael eu llyncu'n gyflym gan alw ychwanegol; yn drydydd, bod y bwriad a'r pwyslais o ran defnyddio'r Gronfa wedi bod ar wella canlyniadau yn hytrach na lleihau costau; ac yn bedwerydd, y gallai prosiectau eraill hefyd fod wedi bod yn gyfrifol am leihau'r defnydd o welyau ac y gallai hyn arwain at rywfaint o gyfrif dwbl.

5.29 Yn gyffredinol, felly, er bod y Gronfa yn cael ei hystyried yn rhywbeth sy'n helpu i leihau nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, nid oedd pobl yn credu ei bod yn gywir tybio bod hyn o reidrwydd yn troi'n arbedion arian parod gwirioneddol. At hynny, nododd rhai pobl, o ran lleihau'r pwysau ar wasanaethau, y cydnabuwyd nad oedd y Gronfa wedi'i thargedu at rai o brif faterion y dydd, megis cynnal gweithlu cryf a sicrhau marchnad gynaliadwy ar gyfer cartrefi gofal.

#### *Goblygiadau*

5.30 Dylai ffordd o gyllido sy'n lleihau dibyniaeth ar y Gronfa ac sy'n cymhell cynaliadwyedd fod wrth wraidd y setliad ar ôl Ebrill 2022 – mae'r canlynol yn ystyriaethau y mae angen eu hadolygu:

- roi mwy o reolaeth i ranbarthau dros benderfyniadau am gynaliadwyedd prosiectau, a hyrwyddo hyn drwy leihau cyllid dros amser, yn gysylltiedig â'r cynigion newydd ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- ymgorffori tair elfen yn y Gronfa ar ôl 2022: cyllid ar gyfer arloesi; cyllid ar gyfer cydgrynhoi a thrawsnewid ar gyfer prosiectau sy'n symud tuag at brif ffrydio y profwyd eu bod wedi gweithio dros nifer o flynyddoedd; a chyllid ar gyfer terfynu prosiectau wrth iddynt ddirwyn i ben
- byddai angen i hybu cynaliadwyedd atal rhai mathau o ymddygiad – er enghraifft cael gwared ar derfynau amser pan fo sefydliadau'n gweld bod ymdrin â thanwariant drwy sicrhau bod yr arian 'oddi ar y llyfrau' yn opsiwn gwell na'i wario mewn ffyrdd eraill

**Mater 5: Gallai meddwl yn wahanol am sut y mae data'n cael eu defnyddio o fewn y Gronfa Gofal Integredig arwain at wella gwasanaethau ac ansawdd**

- 5.31 Nodir gofynion adrodd y Gronfa ym mharagraff 4.24 a dylid eu darllen er mwyn rhoi'r sylwadau a wnaed gan gyfweleion yn eu cyd-destun.
- 5.32 Roedd cytundeb unfrydol bron ymhlith rhanddeiliaid bod gofynion adrodd y Gronfa yn anghymesur â swm y gwariant a'r gwerth a gafwyd. Gwnaed sylwadau am y ffaith bod y trefniadau monitro ac adrodd yn arwain at greu diwydiant ynddo'i hun gyda chostau ychwanegol o ganlyniad. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen adrodd hefyd ar lefelau lleol a rhanbarthol a oedd yn ychwanegu at y baich. Teimlwyd hefyd fod y gofyniad i lenwi ffurflenni chwarterol yn rhy fynych a beichus.
- 5.33 Ar y cyfan, teimlai'r rhanddeiliaid rhanbarthol y gellid gwella'r gofynion data ac adrodd er mwyn helpu i leihau'r pwysau amser arnynt o ystyried eu capasiti, ac i roi mwy o ymdeimlad o ddiben yn yr adrodd. Roedd rhai yn teimlo, o ystyried y costau o ran cyfle sy'n gysylltiedig â chasglu a dadansoddi data, nad oes digon yn cael ei wneud gyda'r data sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd i gyfiawnhau parhau eu casglu. Mynegodd pobl ddiffyg

egllurder ynghylch yr hyn sy'n digwydd i'r data ar ôl iddynt gael eu cyflwyno, ac roedd hyn yn ychwanegu at deimlad nad oedd y broses yn arbennig o ystyrlon. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch nid yn unig a oedd hwn yn wariant effeithiol ar lefel ranbarthol ac ardal (o ystyried y gellid dyrannu'r adnoddau i gyflawni prosiectau yn lle hynny), ond hefyd a oes gan Lywodraeth Cymru yr amser a'r adnoddau i ymgysylltu'n ystyrlon â'r data sy'n yn cael eu cyflwyno, ac i ddarparu adborth effeithiol.

5.34 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn pryderu nad oedd prosiectau fel pe baent yn gweld gwerth mewn casglu data at eu dibenion eu hunain i'w helpu i ddeall effeithiolrwydd ac effaith yr hyn yr oeddent yn ei gyflawni. Y teimlad oedd pe bai prosiectau'n sefydlu proses dda o gasglu data ac adrodd at eu dibenion eu hunain, y dylai'r broses o adrodd i Lywodraeth Cymru drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod yn llai beichus ac yn fwy ystyrlon. Cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd fod y data a'r wybodaeth a gawsant yn cael eu defnyddio'n bwrpasol mewn amrywiaeth o ffyrdd, e.e. yr adroddiad blynyddol, hysbysu grwpiau rhanddeiliaid, ac ymateb i ymholiadau gan ddinasyddion. Cyflwynwyd adroddiadau hefyd i Weinidogion a'u defnyddio at ddibenion llywodraethu a goruchwyllo. Ystyriwyd bod unrhyw awgrym na allai prosiectau'r Gronfa, ar y naill law, ddangos effaith bob tro, ond ar y llaw arall bod awydd i leihau lefel y data a ddefnyddir i ddangos bod prosiectau'n cael eu cyflawni, yn groes i'w gilydd.

5.35 Er gwaethaf y fframwaith Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau ar gyfer adrodd, teimlwyd yn gyffredinol bod ffocws y gofynion data yn anghywir gyda gormod o bwyslais ar ddata ariannol a dim digon ar agweddau ansoddol yn ymwneud ag effaith. Roedd hyn yn golygu bod gormod o ddata'n cael eu casglu i ddangos bod arian yn cael ei wario'n briodol a dim digon o ddata'n cael eu casglu i helpu i wella gwasanaethau. Roedd y cydbwysedd, felly, yn gogwyddo'n ormodol tuag at atebolrwydd yn hytrach na gwella ansawdd. Mynegwyd barn hefyd bod y data a gasglwyd yn anghymesur. Roedd galwad i symud i ffwrdd o'r dull 'un ateb sy'n addas i bawb' ar gyfer monitro data i sefyllfa lle mae modelau gwahanol yn helpu i wahaniaethu'r 'gofynion' gwerthuso – awgrymwyd na ddylid disgwyl i

brosiect £30,000, er enghraifft, wneud cymaint o waith gwerthuso ag un gwerth £3 miliwn.

- 5.36 Nid ystyriwyd bod y systemau monitro data sydd ar waith wedi cefnogi gwerthuso prosiectau yn effeithiol ac roedd rhai pobl yn ystyried bod defnyddio gwahanol dulliau, megis astudiaethau achos, yn ffordd fwy defnyddiol o ddangos bod y Gronfa yn gwneud gwahaniaeth. Ychydig o hyder a fynegwyd bod canlyniadau'r Gronfa yn cael eu mesur yn gyson ar draws y rhanbarthau ac mewn llawer o achosion roedd hi'n anodd priodoli canlyniadau i'r Gronfa gan mai dim ond un rhan ydoedd o jig-so cyllido amlochrog. Cwestiynodd rhai pobl werth y dulliau mesur canlyniadau hyn ymhellach gan ofyn tybed a oedd modd iddynt ddarparu asesiad cywir o'r sefyllfa ar lawr gwlad.
- 5.37 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn dadlau'n gryf yn erbyn yr awgrymiadau bod y gofynion am ddata, fel y'u hamlinellir ym mharagraff 4.24, yn anghymesur ac yn rhy feichus. Roedd y fframwaith lefel uchel Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau yn hwyluso'r mesurau a'r dangosyddion ar lefelau lleol a rhanbarthol. Y bwriad oedd y byddai cylch adrodd chwe mis yn rhoi digon o amser a lle ar gyfer cyflawni, ond mae'n bosibl bod trefniadau ychwanegol rhanbarthol wedi effeithio'n anghymesur ar hyn. Dywedasant fod gofynion data wedi'u hadolygu er mwyn ystyried barn rhanddeiliaid. Roedd angen cynnwys elfen o atebolrwydd i adlewyrchu'r ffaith bod cyfanswm y gronfa yn £89 miliwn o wariant cyhoeddus ond gwnaed pob ymdrech i leihau'r baich monitro ac adrodd a oedd ar waith pan ddechreuodd y gronfa. Nodwyd hefyd bod gwahanol ranbarthau wedi mabwysiadu dulliau gwahanol o gasglu a monitro data, ac wedi cychwyn nifer wahanol o brosiectau, a allai fod wedi cyfrannu at y teimladau bod y broses yn rhy feichus.
- 5.38 Cydnabu swyddogion Llywodraeth Cymru yr anhawster o geisio gwahanu buddion y Gronfa Gofal Integredig oddi wrth fuddion ffrydiau cyllido eraill gan adlewyrchu'r agweddau cadarnhaol ar gyfuno cyllid yn y modd hwn. Cydnabuwyd hefyd yr her o gynyddu'r pwyslais ar fesur canlyniadau.

## *Goblygiadau*

- 5.39 Mae'r rhestr isod yn disgrifio goblygiadau'r canfyddiadau hyn ar gyfer ailystyried ac ailffocysu'r gofyniad ynghylch data cyn mis Ebrill 2022:
- symud o gasglu a monitro data sy'n canolbwyntio ar gydymffurfiaeth, i ddull mwy cymesur a symlach o ddefnyddio data i ysgogi gwella ansawdd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn rhynggranbarthol gan ddefnyddio methodolegau gwella ansawdd sefydledig
  - gwella'r gyfatebiaeth ac ehangu'r gofyniad i sicrhau cyfatebiaeth ar draws systemau data lluosog, ac ystyried goblygiadau ei gwneud yn orfodol i ddefnyddio system Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.
  - symud i ddefnyddio fframwaith canlyniadau Cymru gyfan a chanolbwyntio'n ddwys ar y data a'r metrigau pwysicaf, a chynnwys partneriaid allweddol fel Comisiwn Bevan, Gofal Cymdeithasol Cymru, a Gwelliant Cymru yn y broses honno.

### **Mater 6: Mae gweithio'n fwy effeithlon ar draws prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a gwella rolau arwain yn allweddol i'r cam nesaf**

- 5.40 Gan adeiladu ar y pwynt blaenorol, awgrymodd yr ymatebwyr y gellid lleihau'r costau cyfle sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r Gronfa drwy leihau nifer y prosiectau a chynnwys llai o ffrydiau gwaith a rhaglenni. Awgrymwyd y dull o gael nifer fach o ffrydiau gwaith yn hytrach na phrosiectau lluosog fel ffordd synhwyrol ymlaen. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn poeni oni bai bod pethau'n cael eu symleiddio yn y ffordd hon neu mewn ffordd debyg, na fyddai'r adnodd o fewn y Gronfa yn cael ei ddefnyddio cystal â phosibl. Yn lle cyllido pecynnau cymorth ychwanegol, byddai'r arian yn cael ei wario'n aneffeithlon ar weinyddu'r gronfa, na fyddai'n sicrhau gwerth gorau i ddinasyddion. Roedd hyn yn cyd-fynd â barn rhai ymatebwyr bod cyfle trawsnewid allweddol yn cael ei golli. Awgrymwyd bod angen bod yn radical a dechrau gweld popeth o safbwynt y dinesydd a chaniatáu i hynny ysgogi newid, yn hytrach na pharhau i gyflawni dim ond yr hyn y mae'r sefydliadau'n ei feddwl sy'n bwysig.

5.41 O ran mwy o arweinyddiaeth ar raddfa genedlaethol a rhanbarthol, mynegwyd yr angen i hyrwyddo dysgu rhynggranbarthol a mewnrhanbarthol yn fwy effeithiol a gweithio i leihau amrywiadau a dyblygu diangen. Awgrymwyd bod cael saith model (h.y. un fesul rhanbarth) o'r un gwasanaethau neu wasanaethau tebyg yn well na chael 22 amrywiad, ac er efallai nad yw'n realistig cael un model, mae lle i leihau'r amrywiad i lai na saith. Teimlai'r ymatebwyr fod angen gweithio'n galetach yn awr i rannu tystiolaeth a phrofiadau. Roedd teimlad bod angen rhoi sylw i ddysgu rhynggranbarthol yn gyntaf, ond bod angen gwneud llawer mwy ar sail Cymru gyfan. Yn ogystal â hyn, awgrymwyd bod angen mwy o atebolrwydd ar lefel ranbarthol yn erbyn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt. Gallai cysylltu cyllid y Gronfa yn fwy penodol â'r Cydgynlluniau Ardal<sup>38</sup> fod yn ddull allweddol o gyflawni hyn.

#### *Goblygiadau*

5.42 Yn dilyn ymlaen o hyn mae'r materion isod y mae angen eu hystyried o ran gweithio'n fwy effeithlon a gwella arweinyddiaeth o ran agweddau 'Cymru gyfan' ar y prosiectau a'r rhaglenni hyn:

- byddai hwyluso newid o reoli prosiectau i reoli rhaglenni yn lleihau costau cysylltiedig, ac yn helpu i adeiladu 'màs critigol' o amgylch tîm o bobl o fewn strwythurau rhanbarthol er mwyn cyflawni'r Gronfa'n fwy effeithlon
- gellid datblygu dangosyddion safonol ar gyfer prosiectau Cymru gyfan o dan y Gronfa – fel Timau Adnoddau Cymunedol, neu Un Pwynt Mynediad – ac yna mesur perfformiad ar draws a rhwng rhanbarthau

---

<sup>38</sup> "Pan fo adroddiad ar y cyd ar yr asesiad o'r boblogaeth wedi'i lunio, dylai awdurdodau lleol a BILL lunio cynllun ardal ar y cyd. Mae'n rhaid i'r cynlluniau ardal ar y cyd hyn ddarparu disgrifiad o amrywiaeth a lefel y gwasanaethau y maen nhw'n bwriadu eu darparu neu eu trefnu mewn ymateb i'r anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr a nodwyd yn yr adroddiadau cyfunol ar yr asesiad o'r boblogaeth."

Llywodraeth Cymru (2017) *Canllawiau statudol yn ymwneud â chynlluniau ardal o dan adran 14A*  
O: [Canllawiau Statudol yn Ymwneud a Chynlluniau Ardal o Dan Adran](#).

- gellid datblygu cymuned ymarfer dan arweiniad cyfoedion i gynorthwyo gyda chydlynu prosiectau 'cenedlaethol'
- er mwyn manteisio i'r eithaf ar y gwersi a ddysgir ledled Cymru, mae cwestiynau i'w hystyried o ran a ddylai trefniadau gweithio rhwng rhanbarthau / Cymru gyfan fod yn orfodol o dan y trefniant cyllido newydd
- mae hwn yn gyfnod pwysig i Lywodraeth Cymru bwysu a mesur ac (ail)ystyried y rôl y mae'n ei chwarae o fewn y Gronfa.

**Mater 7: Gallai edrych o'r newydd ar y cysyniad o arloesi sydd wrth wraidd y Gronfa Gofal Integredig roi hwb i'r gronfa**

- 5.43 O ran amcan y Gronfa o greu arloesedd, yr ymateb pennaf gan gyfweleion oedd bod y Gronfa Gofal Integredig wedi annog a galluogi ffyrdd newydd o weithio drwy ei phwyslais ar weithio'n rhanbarthol, mewn partneriaeth a'r gallu i ddarparu arian cychwynol i brofi dulliau newydd drwy dreialu prosiectau newydd. Honnwyd bod y Gronfa wedi bod yn gatalydd i asiantaethau edrych ar ffyrdd newydd o weithio na fyddai wedi digwydd fel arall o bosibl. Ystyriwyd ei fod wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol o ran hwyluso creu rhaglenni mawr, strategol, megis mentrau cam i fyny a cham i lawr a datblygu canolfannau adnoddau cymunedol. Roedd y rhain bellach wedi dod yn wasanaethau craidd ond roedd y ffaith eu bod yn dal i gael eu hariannu gan y Gronfa yn dangos eu bod yn agored i niwed pe bai cyllid yn dod i ben. Darparwyd llai o dystiolaeth bod yr hyn a ddysgwyd o brosiectau llai y Gronfa yn arwain at newid eang, yn rhannol oherwydd anawsterau gyda'r prosesau gwerthuso ac yn rhannol oherwydd pwysau ariannol a oedd yn llesteirio ehangu a phrif ffrydio.
- 5.44 Mynegwyd rhai amheuon hefyd ynghylch pa mor llwyddiannus fu'r Gronfa o ran cefnogi arloesedd. Gwnaed sylwadau bod ymrwymiad parhaus i barhad prosiectau presennol wedi cyfyngu ar y lle i brosiectau newydd. Y cyfyng gyngor oedd bod arloesedd i bob pwrpas yn cael ei beryglu gan yr angen i gyllido prosiectau a oedd wedi dod yn rhan o wasanaethau craidd. Gwaethygyd hyn gan yr angen i ddefnyddio arian y Gronfa i gefnogi gwasanaethau presennol eraill. Yn yr ystyr hwn, disgrifiwyd y Gronfa yn fwy

fel cronfa graidd gydweithredol yn hytrach na grant – ac roedd y pwyslais ar arloesi wedi lleihau dros gyfnod y Gronfa. Croesawyd hyn gan rai a oedd yn teimlo bod angen cydgrynhoi yn hytrach nag arloesi pellach ar hyn o bryd.

### *Goblygiadau*

5.45 Mae nifer o faterion yn codi o hyn a goblygiadau meddwl yn wahanol am y cysyniad o arloesi wrth i'r Gronfa symud i gam nesaf ei gweithrediad ar ôl mis Ebrill 2022:

- mae angen egluro'r disgwyliadau ynghylch beth yw arloesi mewn gwirionedd. Mae pryder bod pobl wedi hen alaru ar arloesi, gan y gofynnir yn barhaus iddynt ailddyfeisio pethau, ac mae galwad i osgoi arloesi diangen neu 'synthetic' sy'n honni ei fod yn newydd ond nad yw'n newydd mewn gwirionedd.
- awgrymir y dylid herio mwy ar brosiectau newydd wrth iddynt ddatblygu, cyn iddynt fwrw gwreiddiau, fel rhan o'r ffordd ymlaen, gan sicrhau mai dim ond y prosiectau gorau a mwyaf arloesol sy'n mynd yn eu blaenau. Mae'n bosibl y bydd angen cynnal asesiad effaith priodol cyn i brosiectau ddechrau, a'u hadolygu'n drylwyr ar ôl tua 12 i 18 mis
- mae cyfle i flaenoriaethau rhanbarthol gael eu cysylltu'n agosach o lawer â'r penderfyniadau a wneir ynghylch y math o arloesi sydd ei angen a sut y dylid ei gynnal. Mae cael y cydbwysedd cywir o ran cyllid rhwng adnoddau ar gyfer arloesi a chydgrynhoi yn allweddol i hyn.



## **6. Cyflawni prosiectau: ystyriaethau hollbwysig, ffactorau llwyddiant a rhwystrau**


6.1 Mae'r bennod hon yn ystyried effeithiolrwydd cyflawni prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig ac yn cyfeirio at ganfyddiadau'r macroddadansoddiad o sampl o ddogfennau lefel prosiect y Gronfa, yr arolwg o arweinwyr prosiectau, gwaith maes gydag astudiaethau achos prosiectau a defnyddwyr gwasanaethau. Mae hefyd yn ystyried y ffactorau llwyddiant hanfodol a'r rhwystrau er mwyn llywio ymyriadau yn y dyfodol.

### **Caiff y Gronfa ei gwerthfawrogi'n fawr fel ffrwd gyllido**

6.2 Roedd y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg a'r astudiaethau achos yn rhoi cryn werth ar y Gronfa fel ffrwd gyllido, gan gyfeirio ati'n aml fel 'cronfa werthfawr'. Mae'r gronfa wedi galluogi prosiectau i dreialu gweithgareddau newydd a chreadigol gan rannu gwersi ynghylch yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio cystal. Roedd y Gronfa hefyd yn cael ei hystyried yn ffrwd gyllido hanfodol i wireddu cynlluniau a syniadau hirsefydlog na ellid eu cefnogi drwy gyllid craidd. Ymhlith y sylwadau a wnaed roedd y canlynol: 'mae cyllid y Gronfa wedi bod yn hanfodol i'r prosiect hwn fynd yn ei flaen' 'rydym yn ddiolchgar iawn am y cyllid sydd wedi helpu cannoedd mewn angen gyda'u hiechyd meddwl a'u llesiant' (pob un o'r prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg).

6.3 Yn absenoldeb y Gronfa, roedd y rhan fwyaf o'r prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg (63 y cant) o'r farn na fyddai eu gwasanaethau wedi bodoli o gwbl tra bod eu chwarter yn meddwl y byddai agweddau ar eu gwasanaethau wedi cael eu cyflawni beth bynnag.

**Ffigur 6.1: Beth fyddai wedi digwydd yn absenoldeb y Gronfa Gofal Integredig**



Ffynhonnell: Arolwg OB3 o arweinwyr prosiectau (68 o ymatebion)

- 6.4 Roedd y Gronfa yn aml yn cyfrif am gyfran o'r cyllid a oedd ar gael i brosiectau'r astudiaethau achos (e.e. Nes at Adre, Powys; Enfys, Caerdydd a Bro Morgannwg, Gwasanaeth Cyfarpar Abertawe, Gorllewin Morgannwg). Mewn achosion eraill (e.e. Gofal yn y Cartref, Gorllewin Cymru; Hybiau Cymunedol, Cwm Taf Morgannwg) dim ond gan y Gronfa Gofal Integredig y cafodd y prosiectau eu hariannu i ddechrau ond ers hynny maent wedi cael gafael ar ffynonellau cyllid eraill. Mae cyllid y Gronfa fel arfer yn cael ei ymgorffori yn y gwasanaeth cyffredinol, yn hytrach na'i defnyddio i gyllido elfennau penodol o'r gwasanaeth hwnnw ac mae wedi galluogi gwasanaethau i ehangu eu cylch gorchwyl a'u capasiti. Ar gyfer prosiectau sydd hefyd yn manteisio ar ffynonellau cyllid eraill, mae'n amhosibl datblethu'r cyflawniadau a ariennir gan y Gronfa yn unig, gan fod prosiectau'n dueddol o adrodd ar ddata'r gwasanaeth cyffredinol.
- 6.5 Roedd tynnu cyllid y Gronfa yn ôl yn bryder mawr i brosiectau a ariannwyd, gyda llawer yn ei ddisgrifio fel newid 'trychinebus' a fyddai'n cael 'effaith ddramatig' ar y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, gan y byddai'r system yn 'chwalu' yn absenoldeb gwasanaethau cymorth. Roedd rhai prosiectau'n pryderu y byddai gwasanaethau sydd wedi'u hen sefydlu yn cael eu llyncu gan y gwasanaethau craidd, gan gollu eu ffocws a'u harbenigedd. Er enghraifft, un o gryfderau nodedig prosiect Atal

Cwmpïadau Gogledd Cymru oedd bodolaeth un tîm craidd sy'n gallu mynd i'r afael ag anghenion cleifion yn ogystal â chydlynu mewnbwn timau eraill megis y tîm llesiant cymunedol a gwasanaethau'r trydydd sector. Yn absenoldeb rhagor o gyllid, gallai 'ymdoddi' prosiectau i wasanaethau craidd arwain at 'gyfaddawdu' ar wasanaeth a gwasanaeth o 'safon is'.

### **Mae ymdrech wirioneddol i weithredu ar lefel ranbarthol**

- 6.6 Mae pob prosiect ond un yn yr astudiaethau achos yn gweithredu'n rhanbarthol ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn gweithredu fel timau sengl sy'n gweithio ar draws ffiniau (e.e. Gwasanaeth Cefnogi Lleoliadau Aml-Asiantaeth (MAPSS), Gorllewin Morgannwg a phrosiect Cymorth Rhianta Arbenigol, Cwm Taf Morgannwg). Roedd y prosiectau hyn o'r farn bod y dull hwn yn fanteisiol gan fod gwasanaethau'n gallu cadw rhywfaint o annibyniaeth oddi wrth unrhyw awdurdod lleol neu fwrdd ieuchyd unigol. Fodd bynnag, mae hefyd yn cyflwyno heriau o ran cyflawni e.e. mae un prosiect rhanbarthol yn yr astudiaethau achos yn cael ei gynnal gan awdurdod lleol a dim ond systemau TG yr awdurdod lleol hwnnw y gall gael mynediad iddynt.
- 6.7 Mae gan brosiectau eraill yr astudiaethau achos drefniadau rhanbarthol llacach. Mae'r Prosiect Swyddogion Gofalwyr mewn Ysbytai, Gorllewin Cymru yn brosiect rhanbarthol unigol ond yn cael ei ddarparu gan dri darparwr trydydd sector gwahanol. Mae Swyddogion Gofalwyr yn cwrdd yn rheolaidd ond cânt eu cyflogi gan wahanol sefydliadau ac maent yn gweithredu ychydig yn wahanol, yn bennaf er mwyn darparu ar gyfer dewisiadau pob lleoliad ysbyty. Er enghraifft, mewn un ysbyty gall swyddogion fynychu cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol rheolaidd sy'n arwain at fwy o atgyfeiriadau at y prosiect. Yn yr un modd, mae'r gwasanaeth Atal Cwmpïadau yng Ngogledd Cymru yn cynnwys tri phrosiect gwahanol sy'n gweithredu ar draws gorllewin, canol a dwyrain gogledd Cymru. O'r herwydd, mae natur y ddarpariaeth a'r dull gweithredu yn amrywio o'r naill sir i'r llall. Mae timau prosiectau yn cyfarfod bob chwarter i wella cysondeb ac i adolygu offer a phrosesau ond yn adrodd yn unigol i raglen y Gronfa.

- 6.8 Mae rhai prosiectau yn yr astudiaethau achos wedi esblygu i fod yn brosiectau rhanbarthol dros amser. Mae'r prosiect Atal a Dychwelyd yng Ngogledd Cymru yn un enghraifft o'r fath ar ôl dechrau yn Sir y Fflint, yna ehangu i Wrecsam ac yn olaf i ardaloedd awdurdodau lleol eraill ar draws Gogledd Cymru. Yn yr un modd, mae'r prosiect Cymorth Arbenigol i Rieni yng Nghwm Taf Morgannwg wedi ehangu o fod yn brosiect yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf i fod yn fenter mwy rhanbarthol. Mae'r ffaith bod y ddau brosiect hyn yn cael eu darparu gan un darparwr o'r trydydd sector, sef Gweithredu dros Blant a Sefydliad Halcyon yn y drefn honno, wedi bod o gymorth i'w hehangu.
- 6.9 Roedd tua dwy ran o dair o'r prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn bod lle i ehangu eu dull gweithredu o fewn eu rhanbarth (34 y cant) neu ar draws rhanbarthau eraill (33 y cant). Ychydig iawn (10 y cant) oedd yn meddwl nad oedd lle i wneud hynny o gwbl, ac roedd y rhain yn cynnwys prosiectau a oedd eisoes yn gweithredu ar lefel ranbarthol. Fodd bynnag, nid oedd ychydig yn llai na chwarter (24 y cant) yn gwybod ac mae hyn yn arwydd o'r diffyg gwybodaeth sydd gan brosiectau am ymyriadau tebyg sy'n gweithredu mewn rhanbarthau eraill.

**Mae dulliau ymgysylltu â dinasyddion wedi'u defnyddio'n effeithiol gan lawer o brosiectau astudiaethau achos i lywio'r ddarpariaeth**

- 6.10 Dywedodd y rhan fwyaf o brosiectau'r astudiaethau achos fod eu gwasanaethau wedi cael eu llywio drwy ymgysylltu â dinasyddion. Mae hyn o bosibl yn gwrthgyferbynnu â barn rhanddeiliaid rhanbarthol a dylid ei ddehongli'n ofalus o ystyried y nifer bach o astudiaethau achos sydd wedi'u cynnwys yn y gwerthusiad. Roedd lefel yr ymgysylltu'n amrywio o fewnbwn dinasyddion ar y cam dylunio strategol i fewnbwn ar lefel defnyddwyr gwasanaethau unigol, gyda nifer o brosiectau (e.e. Cysylltwyr Cymunedol) yn nodi'r defnydd o sgysiau 'beth sy'n bwysig' gyda defnyddwyr. Nodir isod enghreifftiau o ymgysylltu effeithiol â dinasyddion ar draws prosiectau'r astudiaethau achos:

Mae **My Mates** (Gwent) yn cefnogi unigolion ag anableddau dysgu i fyw'n annibynnol drwy ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar yn y

gymuned. Fe'i lansiwyd ym mis Hydref 2016, ar draws awdurdod lleol Sir Fynwy i ddechrau, mewn ymateb uniongyrchol i adborth gan bobl ag anableddau dysgu eu bod eisiau gwasanaeth a oedd yn cynnig cyfle iddynt ddatblygu cyfeillgarwch a pherthnasoedd. Er bod gan bobl fynediad at wasanaeth dydd traddodiadol, daeth yn amlwg bod prinder cyfleoedd i ymgysylltu â gweithgareddau o ddydd i ddydd fel mynd i'r dafarn, mynychu digwyddiadau, siopa, a bwyta allan yn ogystal â datblygu cyfeillgarwch ystyrlon. Mae'r prosiect wedi'i sefydlu fel menter a arweinir gan aelodau, gan sicrhau bod ei ddull a'i weithgareddau yn parhau i gael eu llywio gan ddiddordebau ac anghenion unigolion ag anableddau dysgu.


Mae prosiect **Porth Gofalwyr** Caerdydd a'r Fro, sy'n cael ei redeg gan Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, yn hwyluso Panel Rhwydwaith Gofalwyr Arbenigol o ofalwyr di-dâl. Mae'r panel hwn yn helpu i sicrhau bod lleisiau gofalwyr yn cael eu clywed a'u defnyddio i werthuso a llywio gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r panel yn myfyrio ar effaith datblygiadau polisi ehangach ar ofalwyr yn ogystal â chasglu barn i helpu i wella gwasanaethau eraill, megis gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r panel yn cyfarfod yn fisol ac yn cael ei hwyluso gan aelod o staff y prosiect. Mae'r galw i fynychu'r panel ymhlith gofalwyr di-dâl yn uchel gyda 'rhestr aros ... o gannoedd' adeg y gwaith maes.

Fe wnaeth y prosiect **Nes at Adre** ym Mhowys adolygu'r amgylchiadau i bob un o'r 69 o unigolion ag anableddau dysgu a leolwyd mewn llety preswyl y tu allan i'r sir, gyda'r bwriad o nodi bylchau ar draws seilwaith yn y sir a allai ddarparu ar gyfer eu hanghenion. Yn dilyn sgysiau 'beth sy'n bwysig', cydgynhyrchoedd y cleifion lety byw â chymorth unigol a chynlluniau cymorth ac ar adeg y gwaith maes roedd 21 o'r unigolion hyn wedi dychwelyd i lety addas yn y sir.

## Er gwaethaf yr heriau, mae prosiectau a ariannwyd wedi gwneud cynnydd da

6.11 Roedd pob un o'r prosiectau a gymerodd ran yn y arolwg yn meddwl eu bod yn cyflawni'r hyn yr oeddent wedi bwriadu ei gyflawni i raddau helaeth (78 y cant neu 53 o ymatebwyr) neu i ryw raddau (22 y cant neu 15 o ymatebwyr). Roedd y rhan fwyaf o'r prosiectau a gymerodd ran yn y arolwg a phrosiectau'r astudiaethau achos yn meddwl eu bod yn gwneud cynnydd da neu ragorol er nad oedd un rhan o ddeg o'r prosiectau (7 o ymatebwyr) yn credu bod hyn yn wir fel y dangosir yn Ffigur 6.2. Awgrymodd gwaith maes ar yr astudiaethau achos fod y prif ffactor a oedd yn gyfrifol am unrhyw ddiffyg cynnydd diweddar yn ymwneud â'r pandemig COVID-19 ac ymchwilir ymhellach i oblygiadau hyn yn y bennod hon.

**Ffigur 6.2: Y cynnydd a wnaed gan brosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg**



Ffynhonnell: Arolwg OB3 o arweinwyr prosiectau (68 o ymatebion)

6.12 Roedd nifer o brosiectau'r astudiaethau achos wedi'u sefydlu ers sawl blwyddyn, gan gynnwys rhai megis Gwasanaeth Cyfarpar Abertawe yng Ngorllewin Morgannwg cyn derbyn cyllid gan y Gronfa Gofal Integredig. Roedd y prosiectau hyn wedi gallu gwneud cynnydd da yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda rhai wedi ehangu eu capasiti a'u cylch gwaith o ganlyniad i dderbyn cyllid o'r Gronfa fel cyfran o gyfanswm eu cyllid:

Gwasanaeth wedi'i leoli yn Sir Benfro yw **Gofal yn y Cartref** sy'n darparu adnoddau cymunedol integredig i ofalu am bobl yn nes at adref. Wedi'i sefydlu yn 2017 mae'r prosiect wedi ehangu o dîm o lai na 10 o bobl i wasanaeth sy'n cyflogi 55 o weithwyr cymorth gofal iechyd. Mae'r Gronfa Gofal Integredig yn cyfrif am gyfran o'r rhain. Mae'r gwasanaeth wedi ymestyn o ddarparu gofal diwedd oes i gleifion yn eu cartrefi eu hunain i wasanaethau fel gofal ataliol, ymyrraeth aciwt ac mae'n gweithredu fel pont i wasanaethau gofal cymdeithasol ac ailalluogi.

- 6.13 Sefydlwyd rhai o brosiectau'r astudiaethau achos yn fwy diweddar ac roedd y pandemig COVID-19 wedi effeithio arnynt yn ystod eu cyfnod sefydlu. Er enghraifft, mae'r ddau brosiect gofalwyr (prosiectau Porth Gofalwyr Caerdydd a Bro Morgannwg a Swyddogion Gofalwyr Gorllewin Cymru) yn brosiectau cymharol newydd y dyfarnwyd cyllid iddynt yn ystod 2019 ac a ddaeth yn weithredol yn gynnar yn 2020. Nid oedd yr un o'r prosiectau hyn wedi gallu cyflawni ei waith yn unol â'r bwriad oherwydd COVID-19: yn achos y prosiect Porth Gyrfaedd y bwriad oedd i'r gwasanaeth weithio o leoliadau cymunedol tra bod y prosiect Swyddogion Gofalwyr yn bwriadu gweithio o safleoedd ysbytai. Yn yr un modd, derbyniodd Hybiau Cymunedol Cwm Taf Morgannwg gyllid yn union cyn storm Dennis a'r pandemig, a oedd yn golygu bod staff y prosiect wedi cael eu hadleoli i fod ar flaen y gad fel rhan o'r ymateb brys, ac ni wireddwyd y prosiect arfaethedig yn ôl y disgwyl.

#### **Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael cryn effaith ar waith y rhaglen ers mis Mawrth 2021**

- 6.14 Dywedwyd bod y pandemig COVID-19 wedi cael cryn effaith ar brosiectau yn ystod blwyddyn olaf y ddarpariaeth a ystyrir gan y gwerthusiad hwn (2020/21). Chwaraeodd prosiectau'r Gronfa ran allweddol o ran cefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ymateb i'r pandemig ac roedd yn rhaid i lawer addasu eu darpariaethau er mwyn gwneud hynny. Roedd y rhan fwyaf o brosiectau'n gallu symud i ddarpariaeth ar-lein a bu'n rhaid i eraill ohirio rhywfaint o'u darpariaeth neu'r ddarpariaeth gyfan. Dywedodd llawer o brosiectau'r astudiaethau achos nad oeddent wedi gallu

gweithredu yn unol â'r bwriad yn ystod y cyfnodau o gyfyngiadau ac mewn rhai achosion, bu'n rhaid i brosiectau leihau nifer yr apwyntiadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Dywedodd rhai o brosiectau'r astudiaethau achos eu bod wedi penderfynu canolbwyntio eu gwasanaethau ar y defnyddwyr mwyaf agored i niwed yn ystod y pandemig ac y bu'n rhaid iddynt wneud penderfyniadau anodd ynghylch ble i dargedu eu hadnoddau. Dywedodd prosiectau eraill eu bod wedi gorfod gweithredu gyda llai o gapasiti dros gyfnod y pandemig, oherwydd bod staff yn gorfod gwarchod eu hunain, ynysu neu wedi mynd yn sâl:

Rhoddodd y prosiect **My Mates** (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent) y gorau i dderbyn aelodau newydd wedi i'r pandemig ddechrau a mabwysiadwyd darpariaeth ddigidol am y tro cyntaf. Er nad oedd hyn yn darparu'r un lefel o ryngweithio i bobl ag anableddau dysgu, roedd serch hynny yn cynnig rhyw fath o gyswllt i helpu i fynd i'r afael ag ynysu. Darparodd y prosiect gymorth i bobl fynd ar-lein a chyflwynodd weithdai ar ddiogelwch ar-lein. Chwaraeodd y prosiect ran bwysig hefyd o ran hysbysu pobl am gyfyngiadau'r llywodraeth i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae'r prosiect yn debygol o gadw rhyw fath o ddarpariaeth ddigidol i aelodau ar ôl COVID-19, gan ei fod yn cynnig dull ychwanegol i bobl gadw mewn cysylltiad â'i gilydd.

- 6.15 Roedd y galw am ddarpariaeth yn ystod y pandemig hefyd yn amrywio o un prosiect i'r llall. Dywedodd rhai o brosiectau'r astudiaeth achos fod y galw am eu darpariaeth wedi cynyddu, wrth i fwy o atgyfeiriadau ddod i law gan fod y pandemig yn cael effaith negyddol ar ddefnyddwyr eu gwasanaethau. Gwnaeth y prosiectau hyn gyfraniad pwysig at yr ymateb rheng flaen i'r pandemig COVID-19 gan ehangu eu gweithgareddau. Er enghraifft, dywedodd prosiect Enfys (Caerdydd a Bro Morgannwg) iddo dderbyn cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau i'r prosiect gan y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y pandemig, a bod yr atgyfeiriadau hyn yn fwy cymhleth eu natur hefyd. Dywedodd eraill (e.e. Gofal yn y Cartref, Gorllewin Cymru a'r Cymorth Rhianta Arbenigol, Cwm Taf Morgannwg) fod y galw am eu gwasanaeth wedi lleihau oherwydd ffactorau fel y ffaith nad oedd eu



cleifion a'u perthnasau eisiau i staff y prosiect ymweld â'u cartref neu oherwydd bod y gwasanaeth yn cael llai o atgyfeiriadau gan wasanaethau eraill fel meddygon teulu, ysgolion, ac ysbytai oherwydd amharodrwydd cleifion i ymweld â'r lleoliadau hyn yn ystod y pandemig.

- 6.16 Soniodd y prosiectau'n aml bod yn rhaid iddynt oresgyn yr her o gyflwyno darpariaeth a oedd yn cydymffurfio â rheoliadau'r llywodraeth o ran cadw pellter cymdeithasol, diogelwch staff a'r defnydd o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE). Roedd nifer o brosiectau'r astudiaethau achos yn ei chael hi'n anoddach cadw cysylltiad â staff proffesiynol eraill e.e. gweithlu gofal cymdeithasol oherwydd eu bod yn gorfod gweithio gartref. Dywedodd un prosiect rhyddhau gofalwyr hefyd nad oedd yn gallu cael mynediad i wardiau ysbyty i ganfod gofalwyr y mae angen cymorth arnynt ac nad oedd gan staff ar y wardiau amser i ymgysylltu â'r gwasanaeth.
- 6.17 Cafodd prosiectau eraill eu had-drefnu (e.e. Nes at Adre a Chysylltwyr Cymunedol, Powys) a dywedwyd y bu'n rhaid iddynt adleoli eu hadnoddau staff, yn aml i wasanaethau rheng flaen megis i gynorthwyo gyda chyflenwi archebion PPE a chefnogi pobl yn eu cymuned:

Chwaraeodd y prosiect **Cysylltwyr Cymunedol** ym Mhowys ran fawr yn y gwaith o gefnogi unigolion ledled y sir yn ystod COVID-19. Daeth staff y prosiect i ymwneud â darparu cymorth siopa, casglu presgripsiynau a meddyginiaethau, dosbarthu parseli nwyddau brys, rhoi cyngor ar fudd-daliadau a materion ariannol, a darparu cymorth drwy wasanaethau cyfeillio. Derbyniwyd cyfanswm o dros 1,800 o geisiadau am gymorth gan y prosiect.

- 6.18 Nododd llawer o brosiectau'r astudiaethau achos heriau'n gysylltiedig â staff yn ystod y pandemig, boed yr heriau hynny'n ymwneud â rheoli staff o bell, morâl isel y tîm ac anawsterau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant ac uwchsgilio, yn enwedig staff newydd a oedd wedi'u recriwtio'n ddiweddar, cyn y pandemig, nad oeddent yn elwa o allu cysgodi aelodau profiadol o'r tîm. Roedd eraill yn cael anawsterau gyda chapasiti staff, yn bennaf oherwydd bod rhai deiliaid swyddi a ariannwyd gan y Gronfa yn cael eu hunain yn cynorthwyo gyda darparu gwasanaethau statudol oherwydd

problemau recriwtio a chapasiti staffio ar draws timau iechyd a gofal cymdeithasol eraill.

- 6.19 Nododd un neu ddau o brosiectau'r astudiaethau achos fod symud i ddulliau cyflawni digidol yn arbed amser a chostau ac roeddent am barhau â'r dull mwy hyblyg hwn fel rhan o fodel mwy cymysg o ran darpariaeth yn y dyfodol (e.e. Sgiliau i Fyw, Cymorth Rhianta Arbenigol). Esboniodd un prosiect:

'y fantais yw bod rhithgyfarfodydd yn ffordd fwy effeithiol o weithio i ni - rydym yn gallu gweld mwy o deuluoedd ac mae cyfarfod o bell yn gyfleus i lawer o'r teuluoedd, ac mae'n gyfleus i'r gweithwyr proffesiynol hefyd, ac mae'n well o ran diogelu plant. Mae'n fwy effeithlon' [un o brosiectau'r astudiaethau achos].

- 6.20 Roedd prosiectau eraill wedi rhoi dulliau penodol ar waith yr oeddent yn bwriadu eu dilyn ar ôl y pandemig. Er enghraifft, sefydlodd Gwasanaeth Cyfarpar Abertawe yng Ngorllewin Morgannwg linell ffôn uniongyrchol ar gyfer rhyddhau cleifion yn gyflym o'r ysbyty sydd wedi'i gynnal ers hynny yng ngoleuni ei effeithiolrwydd.

### **Nodwyd ystod eang o alluogwyr cyflawni allweddol gan brosiectau**

- 6.21 Nododd y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg a'r astudiaethau achos ystod eang o ffactorau llwyddiant hanfodol a oedd i'w priodoli i gynnydd da a chyflawni prosiectau'n effeithiol. Mae'r rhain wedi'u grwpio yn Nhabl 6.1 yn bedair thema allweddol: gweithio'n effeithiol gydag eraill, tîm cyflawni cryf, mabwysiadu model hyblyg ac ymatebol a gwella gwybodaeth ymarferwyr eraill.

**Tabl 6.1: Galluogwyr cyflawni allweddol**

Gweithio'n effeithiol gydag eraill	<ul style="list-style-type: none"><li>• cyfathrebu rhagorol a threfniadau cydweithio effeithiol ar waith rhwng staff o wahanol wasanaethau, gyda phrosesau sy'n cael eu deall yn dda ar gyfer cysylltu â gwahanol wasanaethau a manteisio ar eu mewnbwn</li><li>• mabwysiadu un pwynt cyswllt ar gyfer prosiect fel y gall pob sefydliad partner gyfeirio ato mewn modd cyson</li><li>• gwasanaethau'n ymsefydlu ac yn dod yn adnabyddus i gydweithwyr dros amser</li></ul>
------------------------------------	---

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• gwaith amlasiantaeth gydag ymrwymiad ar y cyd i gyflawni'r un canlyniadau ar draws gwasanaethau a gweithredu llwybrau gofal cydlynol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yn effeithiol</li> </ul>
Tîm cyflawni cryf	<ul style="list-style-type: none"> <li>• staff brwdfrydig, angerddol ac ymroddedig sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd, yn dysgu oddi wrth ei gilydd ac yn ffurfio dull cydlynol o weithio mewn tîm o amgylch defnyddiwr y gwasanaeth</li> <li>• staff sy'n arbenigwyr yn eu maes, yn brofiadol iawn ac yn arbenigwyr, sy'n gallu cefnogi defnyddwyr gwasanaethau yn effeithiol ag anghenion cymhleth a staff sydd â'r amser a'r adnoddau i gefnogi unigolion mewn ffordd wedi'i theilwra yn unol â'u hanghenion</li> </ul>
Model hyblyg y gellir ei addasu	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dulliau creadigol a hyblyg, y gellid eu treialu a'u mireinio i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau unigol</li> <li>• adnoddau digonol i ddarparu cymorth dwys wedi'i deilwra i unigolion dros gyfnod maith o amser</li> <li>• gallu addasu'n effeithiol i anghenion defnyddwyr gwasanaethau ac amgylchiadau yn ystod y pandemig COVID-19 drwy gynnig darpariaeth gyfunol, drwy gymysgedd o ddarpariaeth ar-lein ac wyneb yn wyneb. Roedd rhai prosiectau hefyd yn gallu addasu drwy ymdrin â chynnydd mewn atgyfeiriadau i'w gwasanaethau yn ystod y pandemig tra bod eraill yn gallu nodi a llenwi bylchau yn y ddarpariaeth drwy gefnogi pobl agored i niwed ar y rheng flaen.</li> </ul>
Gwella gwybodaeth ymarferwyr eraill	<ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau bod darpariaeth hyfforddi briodol ac effeithiol ar gael i ganolwyr fel gweithwyr iechyd proffesiynol a staff ysgol, sydd wedi cael ei groesawu</li> <li>• datblygu adnoddau, megis deunyddiau hyfforddi, y gellid eu defnyddio ar lefel ehangach ar ôl i'r cyllid ddod i ben</li> </ul>

**Mae prosiectau wedi wynebu tair her allweddol o ran cyflawni: y pandemig; natur flynyddol y cyllid; a recriwtio a chadw staff**

6.22 Cyfeiriodd y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg a'r astudiaethau achos at heriau a rhwystrau cyflawni cyffredin, ac roedd y materion a godwyd amlaf yn ymwneud â'r pandemig, natur flynyddol y cyllid a recriwtio a chadw staff. Mae'r heriau, a'r cyfleoedd, sy'n gysylltiedig â'r pandemig sydd

wedi effeithio ar brosiectau dros y flwyddyn gyflawni ddiwethaf yn ystod 2020/21 eisoes wedi'u hystyried uchod ac ni chânt eu hailadrodd yma.

- 6.23 Er bod Llywodraeth Cymru wedi pennu cynllun tair blynedd ar gyfer y Gronfa, mae'r cylch cyllido blynyddol a fabwysiadwyd gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi creu ansicrwydd ar gyfer prosiectau, a honnwyd ei fod yn eu hatal rhag mabwysiadu dull cynllunio tymor hwy. Dadleuodd sawl prosiect fod hyn wedi arwain at ddull a oedd yn fwy ymatebol na strategol, a dywedodd rhai prosiectau ei fod yn eu rhwystro rhag darparu gwasanaeth parhaus e.e. mae rhai yn rhoi'r gorau i dderbyn defnyddwyr gwasanaethau newydd tua diwedd y cyfnod cyllido blynyddol ac mae gan eraill fylchau yn eu darpariaeth oherwydd bod staff yn symud ymlaen o ganlyniad i ansicrwydd ariannol. Dywedodd eraill fod sefydliadau a gwasanaethau partner yn fwy amharod i ymrwymo i weithio gyda darpariaethau a ariennir gan y Gronfa o ystyried yr ansicrwydd ynghylch a fyddant yn dal i fod ar gael o un flwyddyn i'r llall.
- 6.24 Roedd prosiectau'n adrodd yn aml am anawsterau gyda recriwtio a chadw staff. Mae natur tymor byr y cyllid wedi gwneud recriwtio a chadw ymarferwyr profiadol o safon uchel yn her gan eu bod yn amharod i roi'r gorau i swyddi sicr mewn mannau eraill i fanteisio ar gyfleoedd am secondiad a chyfleoedd wedi'u hariannu yn y tymor byr. Er y dywedwyd bod rhai prosiectau wedi'i chael hi'n anodd recriwtio arweinwyr gwasanaethau, mae eraill wedi'i chael hi'n anodd recriwtio staff rheng flaen, megis gofalgwyr. Ychydig iawn o enghreifftiau a nodwyd yn ystod y gwaith maes lle roedd staff yn cael eu cyflogi ar gytundeb parhaol, er efallai fod y prosiect Plant ag Anableddau Dysgu ac Anghenion Cymhleth yng Ngogledd Cymru yn eithriad.
- 6.25 Ymysg yr enghreifftiau o'r problemau hyn mae'r canlynol:

Mae **Sgiliau i Fyw** a ddarperir gan Gweithredu dros Blant ledled Gwent wedi canfod bod y cyllid blynyddol treigl yn her o ran recriwtio a chadw seicolegwyr, gydag unigolion yn amharod i wneud cais am swyddi tymor

byr ac yn gadael y prosiect am swyddi mwy sicr, tymor hwy mewn manau eraill.

**Roedd y Prosiect Swyddogion Gofalwyr mewn Ysbytai** yng Ngorllewin Cymru wedi ei chael hi'n anodd penodi a chadw staff. O dîm bach o bedwar swyddog, gadawodd dau ohonynt ac roedd y prosiect yn ei chael hi'n anodd penodi deiliad swydd newydd mewn un ardal. Mae cyllid tymor byr yn torri ysbryd y staff.

- 6.26 Nododd cwpl o brosiectau'r astudiaethau achos yr her o ddiwallu lefel uchel o alw am eu gwasanaethau, a oedd yn gyffredinol wedi cynyddu ymhellach yn ystod y pandemig. Roedd gan y prosiectau hyn restrau aros hirfaith am eu gwasanaethau ac mewn rhai achosion roedd y gyfradd uchel o atgyfeiriadau yn golygu bod yn rhaid i'r gwasanaeth roi'r gorau i dderbyn cleientiaid newydd o bryd i'w gilydd. Soniodd rhai o brosiectau'r astudiaeth achos eu bod yn cael eu gweld fel ateb i broblemau partneriaid eraill - 'mae pobl eisiau i [enw'r prosiect] wneud popeth i bawb' - o ystyried y pwysau ar wasanaethau partneriaid.
- 6.27 Dangosodd cwpl o brosiectau'r astudiaethau achos yr her o gyflawni prosiectau a oedd yn gofyn am waith rhanbarthol a gwaith partneriaeth. Nodwyd bod cyflwyno darpariaeth drwy bartneriaeth yn aml yn gofyn am fwy o ymdrech a bod yn ystyriol o wahanol ddiwylliannau a meddylfryd ar draws gwahanol awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

**Mae'r rhan fwyaf o brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig, ond nid pob un, yn ystyried bod gofynion adrodd y Gronfa yn dderbyniol**

- 6.28 Roedd y rhan fwyaf o brosiectau'r astudiaethau achos o'r farn bod y gofynion adrodd a ddisgwylir ohonynt gan eu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mewn perthynas â'r Gronfa yn dderbyniol. Roedd y rhain yn dueddol o fod yn brosiectau yr oedd yn ofynnol iddynt gynhyrchu adroddiadau pob chwe mis, gan nodi:
- 'dyw hwn ddim yn ddisgwyliad afresymol .... mae'r Gronfa Gofal Integredig yn well na llawer o ffrydiau cyllido eraill. Mae rhaglenni a ariennir gan yr UE

[Undeb Ewropeaidd] yn llawer mwy beichus' [un o brosiectau'r astudiaethau achos].

- 6.29 Roedd yn ofynnol i eraill gynhyrchu adroddiadau chwarterol llawer manylach ar gyfer eu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a ystyriwyd yn feichus i staff. Yn wir, dywedodd un prosiect, er ei fod yn gweithredu system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid, ei fod wedi cymryd hyd at bum niwrnod i baratoi adroddiad ar y Gronfa Gofal Integredig gan nad yw ei system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid yn cynhyrchu'r wybodaeth yn y fformat sy'n ofynnol ar gyfer gofynion adrodd y Gronfa a osodwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:

'mae'r adroddiadau ar gyfer y Gronfa yn erchyll. Mae gennym tua 33 o dudalennau y chwarter i'w cwblhau' [un o brosiectau'r astudiaethau achos].

**Mae gwaith monitro yn canolbwyntio'n ormodol ar allbynnau, yn hytrach na chanlyniadau a gwersi a ddysgwyd**

- 6.30 Awgryma'r adborth o brosiectau'r astudiaethau achos eu bod yn aml yn cofnodi gwybodaeth fanwl yn ymwneud ag allbynnau prosiect (fel nifer y cyfranogwyr neu nifer y gweithgareddau). Mae sawl un hefyd yn cofnodi ac yn adrodd ar ganlyniadau prosiectau (e.e. y gwahaniaeth a wnaed i unigolion, lefelau boddhad â'r prosiect).
- 6.31 Neges allweddol o brosiectau astudiaethau achos oedd yr anawsterau o nodi a mesur eu hallbwn a'u dangosyddion canlyniad cyn dechrau cyflawni, yn enwedig o ystyried bod llawer o brosiectau'n newydd ac yn arloesol:
- 'mae angen i'r prosiect fod ar waith er mwyn deall beth yw mesurau ystyrion ar gyfer y gwasanaeth hwnnw a sut y gallwch ddweud beth yw 'da' ar gyfer y gwasanaeth hwnnw' [un o brosiectau'r astudiaethau achos].
- 6.32 Neges gyffredin arall a gyflwynwyd gan brosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg a'r astudiaethau achos oedd bod angen gwneud mwy o waith i ddiffinio beth yw llwyddiant. Er gwaethaf canllawiau Llywodraeth Cymru i brosiectau fabwysiadu dull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau a oedd yn nodi faint o weithgarwch a wnaed gan y prosiectau, pa mor dda yr oeddent a pha effaith yr oeddent yn ei chael, roedd prosiectau'n aml yn teimlo bod eu hadroddiadau monitro yn canolbwyntio'n ormodol ar 'faint' o

weithgarwch yr oeddent yn ei wneud ar draul 'gwersi a ddysgwyd' a 'phawahaniaeth' yr oedd eu gwasanaethau'n ei wneud, yn bennaf gan mai dyma sut yr oeddent yn dehongli'r hyn a oedd yn ofynnol ganddynt o ran gofynion adrodd. Er gwaethaf hyn, adroddodd prosiectau'r astudiaethau achos eu bod hefyd yn paratoi ac yn rhannu astudiaethau achos o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau yn rheolaidd gyda'u Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn adrodd i Lywodraeth Cymru, gan fod hwn yn ofyniad a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, ac roeddent yn teimlo bod y rhain yn dystiolaeth ansoddol werthfawr i ddangos effaith ymyriadau.

**Mae prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig yn cofnodi llai o dystiolaeth am y gwahaniaeth y maent yn ei wneud**

- 6.33 Nid oedd llawer o brosiectau'r astudiaethau achos, yn enwedig y rhai a oedd yn cefnogi niferoedd llai o ddefnyddwyr gwasanaethau mewn modd mwy dwys dros gyfnod hwy o amser, yn meddwl bod yr ystadegau allbwn a adroddwyd i'r Gronfa yn ddefnyddiol o ran dangos y gwahaniaeth yr oeddent yn ei wneud. Roedd prosiectau'r astudiaethau achos sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yn dadlau bod canlyniadau fel plant yn aros yn eu lleoliad am gyfnod hwy yn fesur da o effaith y prosiect ond eto nid oeddent yn gallu cofnodi'r rhain ac adrodd arnynt o fewn cyfnod byr dymor. Ar draws y mathau hyn o brosiectau roedd consensws eang 'nad yw'r allbynnau'n dangos fawr ddim mewn gwirionedd'.
- 6.34 Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, nid oedd prosiectau sy'n ymwneud yn bennaf â chefnogi nifer fwy o ddefnyddwyr gwasanaethau mewn modd llai dwys yn ystyried hyn yn gymaint o broblem ac roeddent yn fodlon ar y cyfan â'r data allbwn a adroddwyd ar y Gronfa:

Mae **Gwasanaeth Cyfarpar Abertawe** (Gorllewin Morgannwg) yn darparu cyfarpar ailalluogi a chyfarpar arall ar fenthyg am ddim i bobl ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot i'w galluogi i fyw'n annibynnol gartref. Mae'r Gronfa wedi cael ei defnyddio i gynyddu adnoddau staff gan ychwanegu tua 14 o ddeiliaid swyddi ar draws y gwasanaeth gan ganiatáu i'r gwasanaeth gynyddu faint o gyfarpar sy'n cael ei ddosbarthu a'i gasglu yn ogystal â lleihau'r amser aros ar gyfer ei

gyflenwi. Yn yr achos hwn, mae gan y prosiect system gwybodaeth reoli ddatblygedig sy'n cofnodi data allbwn, gan ganiatáu iddo adrodd yn hawdd ar ddangosyddion o'r fath i'r Gronfa. Yn yr achos hwn, ystyriwyd bod data allbwn yn ddangosydd da ar gyfer llwyddiant y prosiect ac mae'r prosiect wedi gallu dangos newidiadau cadarnhaol e.e. lleihau amser aros cyfartalog o 4/5 diwrnod i'r lefel gyfredol o dri diwrnod a chynnydd yn nifer y gwelyau a ddsbarthwyd y dydd o 40 yn 2018 i tua 120-130 ar hyn o bryd.

Yn y prosiect **Gofal yn y Cartref** (Gorllewin Cymru) ceir system fonitro gynhwysfawr sy'n cofnodi allbynnau gwasanaeth megis nifer y cleifion, oriau gofal a ddarperir, nifer y galwadau tŷ a wneir y dydd a llwyth achosion cyfartalog fesul CALI y dydd. Mae'r gwasanaeth yn paratoi adroddiadau misol at ddibenion rheoli mewnol a ddefnyddir i lywio adroddiadau'r Gronfa. Er bod y gwasanaeth wedi'i chael hi'n heriol ac yn feichus bodloni gofynion adrodd y Gronfa i ddechrau, dros amser a chyda mwy o brofiad o baratoi datganiadau mae'r broses adrodd yn gymharol syml bellach.

- 6.35 O blith y prosiectau a adolygwyd fel rhan o'r dadansoddiad pen desg, ystyriwyd bod gan dair rhan o bump (46 o'r 77) rywfaint o dystiolaeth werthuso yn y dogfennau hynny megis gwerthusiadau mewnol ac allanol, adroddiadau neu ddata diwedd prosiect, neu ddeunydd astudio a oedd ar gael i'r tîm ymchwil ei adolygu. Nid yw hyn yn annisgwyl o ystyried bod y sampl o brosiectau wedi'i gogwyddo tuag at y rhai a oedd ag o leiaf rywfaint o dystiolaeth werthuso. Ar y cam cynnig, mae prosiectau'n nodi dulliau da iawn o werthuso eu gweithgareddau gan ddefnyddio egwyddorion Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau, ond mae'r dystiolaeth a nodir mewn adroddiadau gan brosiectau a datganiadau chwarterol Llywodraeth Cymru yn cael eu llywio i raddau llai gan dystiolaeth o'r fath.



6.36 O ran y dystiolaeth ddogfennol a oedd ar gael i'r tîm ymchwil yn ymwneud â chyflawni a pherfformiad prosiectau, ystyriwyd bod gan un rhan o bump lawer o dystiolaeth o ran cyflawni prosiectau, a rhoddwyd cod 'gwyrdd' iddynt yn Nhabl 6.3.

**Tabl 6.3: Dadansoddiad desg o brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig**

Asesiad o'r dystiolaeth sydd ar gael am gyflawniad a pherfformiad prosiectau	Nifer y prosiectau a adolygwyd
Gwyrdd (tystiolaeth dda)	15
Oren (rhywfaint o dystiolaeth)	40
Coch (dim dystiolaeth neu dystiolaeth wan)	22
Cyfanswm	77

6.37 Yn nodweddiadol, mae gan brosiectau sydd wedi'u dosbarthu fel rhai sydd â thystiolaeth dda o gyflawni a pherfformiad (cod gwyrdd) o leiaf un o'r canlynol ar waith:

- adroddiad gwerthuso cynhwysfawr, diweddar, gan gynnwys gwerthusiadau allanol annibynnol
- templed Adolygu Statws Prosiect wedi'i gwblhau, mewn ymateb i gais y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i brosiectau gwblhau hwn.
- adroddiadau manwl ar gynnydd, gan ddefnyddio cerdyn sgorio Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau Llywodraeth Cymru ac adroddiadau ar ffurf taenlenni chwarterol, yn amlinellu cyflawniadau yn erbyn y targedau a osodwyd.

6.38 Yn nodweddiadol, mae gan brosiectau sydd wedi'u dosbarthu fel rhai sydd â rhywfaint o dystiolaeth (cod oren) o leiaf un o'r canlynol ar waith:

- adrodd manwl ar gynnydd gan ddefnyddio cerdyn sgorio Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau Llywodraeth Cymru ac adroddiadau ar ffurf taenlenni chwarterol, ond ni osodwyd unrhyw dargedau i ganiatáu asesiad llawn o berfformiad
- cynlluniau ar gyfer gwerthuso'r prosiect, megis cyllideb wedi'i dyrannu i werthuswr allanol, cyfeiriad at dechnegau fel y Newidiadau Mwyaf

Arwyddocaol, Damcaniaeth Newid a chyfrifiadau Cost a Budd, ond dim tystiolaeth bod hyn wedi'i wneud

- tystiolaeth ansoddol gychwynnol ar weithgarwch peilot y prosiect megis adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, a ddefnyddiwyd i lywio'r ddarpariaeth
- prosesau monitro da ar gyfer cael adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau
- astudiaethau achos defnyddiol o ddefnyddwyr gwasanaethau.

6.39 Mae prosiectau sydd wedi'u dosbarthu fel rhai sydd â thystiolaeth wan neu ddim tystiolaeth (cod coch) fel arfer yn dangos:

- ychydig iawn o ddata allbwn a monitro, os o gwbl, i ddangos yr hyn y mae'r prosiect wedi'i gyflawni, yn aml gyda datganiad yn nodi bod targedau'n cael eu cyrraedd, a/neu
- asesiad gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fod y dystiolaeth ar gyfer canlyniadau a gyflawnwyd gan brosiect yn wael.

### **Ychydig iawn o rannu arferion effeithiol a phrofiadau a fu rhwng prosiectau tebyg y Gronfa**

6.40 Yn gyffredinol, awgrymodd prosiectau'r astudiaethau achos mai ychydig iawn o gysylltiad a fu rhyngddynt â phrosiectau tebyg sy'n gweithredu mewn rhanbarthau eraill, er bod rhai cyfweleion yn ymwybodol o ymyriadau tebyg mewn mannau eraill. Dim ond un enghraifft o gymuned ymarfer a gasglwyd yn ystod y gwaith maes ac arweiniwyd hyn gan Brifysgol Bangor ac roedd yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaethau ag anableded dysgu. Byddai datblygu cymunedau ymarfer ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar ymyriadau tebyg, i'w groesawu yn y dyfodol.

6.41 Credai llawer o brosiectau'r astudiaethau achos y byddai dysgu am agweddau ar eu darpariaeth o fudd i ranbarthau eraill e.e. gellid cyflwyno'r hyfforddiant a ddarperir gan y rhaglen Cymorth Arbenigol i Rieni ar draws ardal Cwm Taf Morgannwg i ranbarthau eraill er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o faterion niwroddatblygiadol ymhlith darparwyr gwasanaethau. Yn yr un modd:

Ystyrir bod y dull a fabwysiadwyd gan **Nes at Adre** i gomisiynu llety â chymorth ar draws Powys yn arloesol a cheir awydd i ailadrodd y dull hwn os bydd yn llwyddiannus mewn rhannau eraill o Gymru. Mae'r prosiect wedi adolygu'r anghenion llety â chymorth presennol ac wedi cynyddu'r portffolio llety sydd ar gael ar draws y sir er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddychwelyd i Bowys i fyw. Ailgomisiynwyd model newydd o lety â chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn seiliedig ar anghenion. Mae'r gwasanaeth wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Llywodraeth Leol y DU 2021 ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol<sup>39</sup>.

**Mae'r rhan fwyaf o brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig yn annhebygol o fod yn gynaliadwy heb ryw fath o gyllid parhaus**

6.42 Dangosodd y macroddadansoddiad o ddogfennau lefel prosiect fod prosiectau wedi dechrau ystyried eu cynaliadwyedd yn y dyfodol ar ôl i'r Gronfa ddod i ben. Dangosodd y dadansoddiad:


- fod gan nifer fach o brosiectau gynlluniau pendant i barhau â'u gweithgaredd ar ôl i gyllid y Gronfa Gofal Integredig ddod i ben a dywedwyd bod y rhain eisoes wedi gallu dangos eu gwerth ac y byddent yn parhau fel darpariaeth brif ffrwd o fis Ebrill 2022 ymlaen.
- roedd chwarter y prosiectau (tua 21 o brosiectau) yn bwriadu parhau ar ôl i'r Gronfa ddod i ben ond nid oedd ganddynt unrhyw fanylion penodol ynghylch sut y byddai'r ymyrraeth yn cael ei hariannu. Yn y rhan fwyaf o achosion, cydnabuwyd y byddai angen cyllid ar y prosiect o gronfeydd prif ffrwd neu o ffynhonnell arall ac na fyddai modd iddo barhau heb ryw fath o gyllid parhaus. Roedd rhai prosiectau yn bwriadu cyllido darpariaeth barhaus drwy arbedion cost a gynhyrchwyd mewn manau eraill, ond ni wnaethant ddarparu tystiolaeth bod yr arbedion yn cael eu sicrhau i ffurfio dadl gref dros eu parhad.

<sup>39</sup> [Local Government Chronicle Awards 2022](#)

- roedd rhai o brosiectau'r trydydd sector yn rhagweld y byddent yn darparu rhai gweithgareddau ar gost isel neu ddim cost yn y dyfodol, gan ddefnyddio gwirfoddolwyr a/neu ymgorffori eu dull gweithredu mewn darpariaethau presennol mewn rhyw ffordd
- roedd dadl gref y byddai dirwyn prosiectau i ben yn absenoldeb cyllid yn y dyfodol yn niweidiol, gan eu bod yn cael eu hystyried yn rhan annatod o ddarpariaeth prif ffrwd na ellid ei therfynu.

6.43 Daeth darlun cymysg i'r amlwg ynghylch cynaliadwyedd posibl y prosiectau a arolygwyd ar ôl i'r Gronfa ddod i ben, fel y dangosir yn Ffigur 6.3. Yn gyffredinol, roedd hanner y rhai a holwyd yn meddwl ei bod yn debygol y byddai eu gwasanaeth yn parhau ar ôl i'r Gronfa ddod i ben, ac roedd yr hanner arall yn meddwl bod hynny'n annhebygol neu nid oeddent yn gwybod.

**Ffigur 6.3: Cynaliadwyedd prosiectau ar ôl i'r Gronfa Gofal Integredig ddod i ben**



Ffynhonnell: Arolwg OB3 o arweinwyr prosiectau (68 o ymatebion)

6.44 Datgelodd prosiectau'r astudiaethau achos ddarlun cymysg tebyg am eu cynaliadwyedd yn y dyfodol. Roedd disgwyl i nifer o brosiectau sefydledig yr astudiaethau achos a ariannwyd drwy sawl ffynhonnell barhau yn absenoldeb cyllid y Gronfa yn y dyfodol, ond ar raddfa lai. Roedd eraill, yn bennaf prosiectau mwy newydd fel y prosiect Hybiau Cymunedol yng Nghwm Taf Morgannwg, yn dal yn eu cyfnod peilot ac oherwydd bod COVID-19 wedi effeithio ar gyflawni'r prosiectau hyn dros y 18 mis diwethaf

roedd ganddynt lai o dystiolaeth i ddangos eu heffeithiolrwydd er mwyn sicrhau parhad cymorth ariannol.

- 6.45 Roedd Gwasanaeth Cyfarpar Abertawe, Gorllewin Morgannwg wrthi'n ysgrifennu achos busnes i barhau i ariannu ei dîm staff ac i sicrhau cyllid o gyllidebau partneriaid craidd a oedd wedi cytuno mewn egwyddor i barhau i ariannu'r gwasanaeth. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn ystyried symud i fodel saith diwrnod yr wythnos, a fyddai angen cyllid ychwanegol. Yn yr un modd, roedd y rhaglen Nes at Adre yn rhagweld y byddai'n parhau ar ôl i'r Gronfa ddod i ben gan ddefnyddio cyllid craidd i gefnogi'r ddarpariaeth. Roedd rhai prosiectau'r trydydd sector yn ymchwilio i ddulliau mwy creadigol, amgen o ariannu darpariaeth yn y dyfodol gan gynnwys drwy danysgrifiad gan aelodau a'r posibilrwydd o sefydlu Cwmni Buddiannau Cymunedol.
- 6.46 Byddai prosiectau astudiaethau achos yn croesawu cyfnod cyllido mwy hirdymor yn y dyfodol, gan y byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â materion recriwtio a chadw staff yn ogystal â'u galluogi i ddarparu parhad gwasanaeth. Byddent hefyd yn croesawu symleiddio'r cyllid yn y dyfodol, yn enwedig prosiectau sydd â mwy nag un ffynhonnell gyllido.

## 7. Y gwahaniaeth a wnaed

7.1 Mae'r bennod hon yn seiliedig ar facroddadansoddiad o ddogfennau'r prosiectau yn ogystal â gwaith maes gydag astudiaethau achos a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'n ystyried yr allbynnau a'r canlyniadau a gyflawnir gan brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a'r gwahaniaeth a wneir gan ymyriadau.

### Tystiolaeth o'r macroddadansoddiad

7.2 Mae Tabl 7.1 isod yn nodi'r allbynnau a'r gweithgareddau a adroddir amlaf ar draws y sampl o brosiectau a adolygwyd fel rhan o'r macroddadansoddiad. Nid oes cysondeb ar draws prosiectau o ran sut y caiff pob gweithgaredd neu allbwn ei ddiffinio na pha gyfnod o amser y maent yn ei gwmpasu. Er enghraifft, mae rhai prosiectau yn adrodd ar allbynnau wythnosol neu fisol cyfartalog tra bod eraill yn adrodd ar allbynnau chwarterol neu flynyddol cyfanredol. Mae'r materion hyn yn ei gwneud yn amhosibl cydgrynhoi cyflawniadau rhaglen y Gronfa. Mae hefyd yn werth tynnu sylw at y ffaith nad oedd y gweithgareddau a adroddwyd gan brosiectau bob amser yn cael eu mesur mewn termau rhifiadol, boed hynny yn nhermau targedau rhifiadol disgwylidig neu allbynnau a gyflawnwyd.

**Tabl 7.1: Allbynnau a gweithgareddau a adroddir yn gyffredin**

Pobl	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cyfanswm y defnyddwyr gwasanaethau sy'n ymgysylltu ac yn cymryd rhan</li><li>• Nifer y defnyddwyr gwasanaethau newydd, ychwanegol a recriwtiwyd</li><li>• Nifer y defnyddwyr gwasanaethau sy'n mynychu gweithgareddau neu'n cael cymorth yn wythnosol, yn fisol neu'n chwarterol</li><li>• Nifer y defnyddwyr gwasanaethau a/neu staff cyfryngol sy'n cael hyfforddiant</li><li>• Nifer y gwirfoddolwyr a recriwtiwyd ac/neu sy'n cael eu defnyddio gan y prosiect</li><li>• Nifer y gofalwyr sy'n ymgysylltu ac yn cymryd rhan</li><li>• Nifer y gofalwyr a gefnogir</li><li>• Nifer y defnyddwyr gwasanaethau a gefnogir yn y gymuned</li></ul>
------	---

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nifer y defnyddwyr gwasanaethau sy'n cael mynediad at wybodaeth</li> <li>• Nifer yr hyfforddwyr a hyfforddwyd</li> <li>• Nifer yr atgyfeiriadau a wnaed</li> <li>• Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd</li> </ul>
Gweithgareddau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nifer yr oriau cymorth gwirfoddolwyr a ddarparwyd</li> <li>• Nifer y nosweithiau seibiannau byr a ddarparwyd</li> <li>• Nifer yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd</li> <li>• Nifer yr asesiadau a gynhaliwyd</li> <li>• Nifer yr ymweliadau cartref</li> <li>• Nifer y sesiynau hyfforddi neu gyrsiau a ddarparwyd</li> <li>• Nifer y grwpiau a sefydlwyd</li> <li>• Nifer y sesiynau grŵp/cyfarfodydd a gynhaliwyd</li> </ul>

7.3 Mae Tabl 7.2 yn nodi'r canlyniadau a adroddwyd gan y sampl o brosiectau'r Gronfa a gynhwyswyd yn y macroddadansoddiad. Nid yw'r canlyniadau hyn bob amser yn cael eu diffinio na'u mesur, ac mae rhai prosiectau'n gosod targed cymesur iddyn nhw eu hunain i'w gyrraedd, e.e., 60 y cant neu 80 y cant o ddefnyddwyr gwasanaethau yn nodi newid.

**Tabl 7.2: Canlyniadau cyffredin yr adroddir amdanynt**

Defnyddwyr gwasanaethau'n llywio'r gwasanaeth ac yn dylanwadu arno	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleisiau defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu clywed, ac yn llywio'r ddarpariaeth</li> <li>• Defnyddwyr gwasanaethau â gwell dealltwriaeth o'r cymorth sydd ar gael ac yn fwy gwybodus</li> <li>• Defnyddwyr gwasanaethau'n cael mynediad at y wybodaeth gywir pan fo angen</li> <li>• Defnyddwyr gwasanaethau yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt</li> </ul>
Canfyddiad defnyddwyr gwasanaethau o ganlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnyddwyr gwasanaethau yn dweud bod eu llesiant yn well</li> <li>• Defnyddwyr gwasanaethau yn dweud bod eu hiechyd yn well</li> <li>• Defnyddwyr gwasanaeth yn dweud bod ansawdd eu bywyd yn well</li> <li>• Defnyddwyr gwasanaethau yn dweud bod ganddynt fwy o annibyniaeth</li> <li>• Defnyddwyr gwasanaethau yn dweud bod ganddynt fwy o hyder</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnyddwyr gwasanaethau yn dweud eu bod yn cymdeithasu mwy</li> <li>• Defnyddwyr gwasanaethau'n dweud eu bod yn dioddef llai o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol</li> </ul>
Canlyniadau i blant a theuluoedd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Plant yn sefydlog yn eu lleoliadau</li> <li>• Plant yn camu i lawr o ofal maeth preswyl neu annibynnol</li> <li>• Plant yn aros gartref gyda theuluoedd</li> <li>• Plant yn dychwelyd adref at eu teuluoedd</li> <li>• Lleihad yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant</li> <li>• Lleihad yn nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal</li> <li>• Plant yn dychwelyd i'r awdurdod lleol lletyol o leoliad y tu allan i'r sir</li> </ul>
Canlyniadau lefel gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfran a dderbynnir i wasanaeth Cam i Fyny/Cam i Lawr o'r cartref</li> <li>• Cyfran a dderbynnir i wasanaeth Cam i Fyny/Cam i Lawr o'r ysbyty</li> <li>• Cyfran a ddychwelodd adref o wasanaeth Cam i Fyny/Cam i Lawr sy'n aros gartref am gyfnod hwy</li> <li>• Nifer y rhai a ryddhawyd o'r ysbyty (gan gynnwys trefniadau rhyddhau ail-alluogi a'r rheini a wnaed o fewn amserlen benodol)</li> <li>• Nifer y derbyniadau i'r ysbyty a gafodd eu hosgoi</li> <li>• Maint y gostyngiad mewn pecynnau gofal a ariennir</li> <li>• Lleihad yn nifer y defnyddwyr gwasanaethau sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth statudol, gan gynnwys darpariaeth gofal iechyd sylfaenol</li> <li>• Nifer y dyddiau gwely a arbedwyd</li> <li>• Lleihad mewn derbyniadau heb eu trefnu i ysbytai</li> <li>• Lleihad yn hyd yr arosiadau mewn ysbyty</li> <li>• Lleihad mewn lleoliadau ar gyfer cartrefi preswyl a nyrsio</li> <li>• Arbedion ariannol i'r Bwrdd Iechyd (arbedion y dydd neu y flwyddyn)</li> <li>• Arbedion ariannol i Awdurdod Lleol (arbedion yr wythnos fesul preswilydd sydd mewn cartref gofal fel arfer)</li> </ul>



- 7.4 Canfu'r macroddadansoddiad fod y rhan fwyaf o brosiectau wedi cynnig cynlluniau clodwiw iawn i gynnal gwerthusiad economaidd o'u hymyrraeth fel rhan o'r broses ymgeisio, ond yn gyffredinol nid oedd ganddynt unrhyw dargedau mesuradwy a fyddai'n ei gwneud yn bosibl dod i gasgliad ynghylch a oeddent wedi cyflawni'r hyn a fwriadwyd ai peidio.
- 7.5 Canfu'r macroddadansoddiad mai dim ond ambell brosiect a oedd yn nodi targedau rhifiadol a chyflawniadau yn ei ddogfennau. Mae nifer ychydig yn fwy o brosiectau yn adrodd am gyflawniadau yn erbyn targedau anfesuradwy. Er bod hyn yn ddefnyddiol, nid yw'n bosibl ffurfio barn ynghylch maint y cyflawniadau hyn ac i ba raddau y mae prosiectau wedi cyflawni eu targedau. Derbynnir, wrth gwrs, mai dim ond darlun rhannol o berfformiad prosiect y mae data o'r fath yn ei roi a bod tystiolaeth o'r gwaith maes, a nodir isod, yn ystyried i ba raddau y mae prosiectau'r Gronfa yn cyflawni newid ystyrion.
- 7.6 Mae'n werth gwneud nifer o sylwadau eraill am y data ar berfformiad a nodir mewn dogfennau lefel prosiect:
- roedd perfformiad prosiectau a oedd yn gosod neu'n adrodd ar dargedau neu allbynnau wythnosol neu fisol yn amrywio, ac efallai y byddai'n fwy priodol adrodd ar allbynnau targedau chwarterol neu flynyddol a fyddai'n amrywio llai dros amser
  - cydnabyddir cyflawniadau ar gyfer 2020/21 fel rhai sy'n wahanol i'r rhai a gynlluniwyd oherwydd effeithiau'r pandemig ar recriwtio a darparu gwasanaethau
  - mae sawl prosiect yn casglu gwybodaeth am foddhad defnyddwyr gwasanaethau ac yn gwerthuso effaith y prosiect dros gyfnod penodol o amser gyda sampl o'u defnyddwyr gwasanaethau. Er y gall meintiau'r samplau fod yn fach, maent serch hynny yn darparu rhywfaint o dystiolaeth bod prosiectau'n cyrraedd eu targedau
  - canfuwyd bod nifer fach o brosiectau, yn bennaf y rhai sy'n canolbwyntio ar leihau derbyniadau i'r ysbyty, neu gefnogi rhyddhau pobl yn gynnar o ysbytai, yn casglu ac yn adrodd ar arbedion cost a gyflawnwyd.

- 7.7 Roedd y macroddadansoddiad o 77 o brosiectau yn ystyried y dystiolaeth a oedd ar gael ar y manteision a'r effeithiau yr oedd prosiectau wedi'u cyflawni ar gyfer unigolion a chymunedau, darpariaeth gwasanaethau a modelau gweithio yn ogystal â gwella integreiddio gwasanaethau. Cynhaliwyd asesiad o'r dystiolaeth a oedd ar gael ar gyfer y tair agwedd hyn gan ddefnyddio dull Coch Oren Gwyrdd.
- 7.8 Dangosodd yr asesiad hwn, yn gyffredinol, fod o leiaf rywfaint o dystiolaeth ar gael i ddangos yr effaith yr oedd prosiectau yn ei chael ar unigolion a chymunedau mewn tua thri o bob pump o achosion (45 o brosiectau). Roedd enghreifftiau niferus o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau a lefelau boddhad ar gyfer prosiectau, boed hynny drwy astudiaethau achos neu holiaduron arolwg. Roedd prosiectau fel arfer yn nodi cynlluniau ar gyfer casglu adborth gan ddefnyddwyr ond nid oedd bob amser yn glir o'r dogfennau a oeddent wedi gwneud hynny ai peidio. Adroddwyd yn eang hefyd bod COVID-19 wedi cael effaith negyddol ar eu gallu i fonitro ansawdd y ddarpariaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.
- 7.9 Nodir y math o effeithiau y dywedodd y prosiectau eu bod yn eu cael ar unigolion a chymunedau yn Nhabl 7.3. Oherwydd natur yr effeithiau hyn, mae rhywfaint o orgyffwrdd â'r canlyniadau a nodir yn Nhabl 7.2 uchod. Er mwyn bod yn gyflawn, mae'r canlyniadau a nodir yn Nhabl 7.2 hefyd wedi'u cynnwys yn y tabl isod, lle y bo'n berthnasol.

**Tabl 7.3: Effeithiau ar unigolion a chymunedau**

Mynediad at wasanaethau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnyddwyr gwasanaethau yn llywio dyluniad y gwasanaeth a ddarperir</li> <li>• Defnyddwyr gwasanaethau yn cael mwy o wybodaeth am y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt</li> <li>• Defnyddwyr gwasanaethau'n cael mynediad at y wybodaeth gywir pan fo angen</li> <li>• Defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu cynnwys yn fwy gweithredol yn y penderfyniadau am eu gofal a chymorth</li> <li>• Defnyddwyr gwasanaethau yn cael mynediad at gymorth mwy priodol ac amserol</li> </ul>
-------------------------	---

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnyddwyr gwasanaethau yn cael mynediad cynharach at wasanaethau galluogi ac ataliol</li> </ul>
Manteision i ddefnyddwyr gwasanaethau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llai o risg yn gysylltiedig â chwympiadau a damweiniau</li> <li>• Gwell iechyd corfforol</li> <li>• Gwell iechyd meddwl a llesiant</li> <li>• Gwell ansawdd bywyd</li> <li>• Mwy o annibyniaeth</li> <li>• Mwy o hyder</li> <li>• Mwy o gymdeithasu</li> <li>• Llai o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol</li> <li>• Gwell dealltwriaeth rhwng cenedlaethau a chysylltiadau cymunedol</li> <li>• Defnyddwyr gwasanaethau yn gallu gwneud a chyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt</li> </ul>
Canlyniadau i blant a theuluoedd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Plant yn sefydlog yn eu lleoliadau</li> <li>• Plant yn camu i lawr o ofal maeth preswyl neu annibynnol</li> <li>• Plant yn aros gartref gyda theuluoedd</li> <li>• Plant yn dychwelyd adref at eu teuluoedd</li> <li>• Lleihad yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant</li> <li>• Lleihad yn nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal</li> <li>• Plant yn dychwelyd i'r awdurdod lleol lletyol o leoliad y tu allan i'r sir</li> <li>• Lleihad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu lleoli y tu allan i ardal eu hawdurdod lleol / cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n aros yn eu cymunedau lleol</li> <li>• Gostyngiad yn nifer y plant sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol</li> <li>• Plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod</li> <li>• Gwell dealltwriaeth ymhlith teuluoedd o'r trawma a wynebir gan blant mabwysiedig</li> <li>• Teuluoedd/gofalwyr yn fwy hyderus wrth reoli ymddygiad plentyn</li> </ul>

7.10 Mae Tabl 7.4 yn nodi'r mathau o fanteision ac effeithiau ar newid darpariaeth gwasanaeth a modelau gweithio a nodwyd fel rhan o'r macroddadansoddiad:

**Tabl 7.4: Effeithiau ar ddarparu gwasanaethau a modelau gweithio**

<p>Gwell dealltwriaeth a mynediad</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu grwpiau blaenoriaeth ymhlith cyfryngwyr, sefydliadau partner a gweithwyr proffesiynol</li> <li>• Gwell perthnasoedd gwaith rhwng partneriaid, gan gynnwys timau gwaith cymdeithasol</li> <li>• Un pwynt mynediad i weithwyr iechyd cymunedol proffesiynol gael mynediad at ymatebion cyflym i ystod o wasanaethau</li> <li>• Gwell trefniadau cynllunio gofal a darpariaeth iechyd, gyda dull mwy cyfannol yn ei le</li> <li>• Mwy o rôl i'r trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau</li> </ul>
<p>Galw am wasanaethau</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llai o alw ar ofal cymdeithasol statudol a gofal iechyd sylfaenol, fel y gellir trosglwyddo arian i ymyrraeth ataliol a chynnar</li> <li>• Llai o alw am ymyriadau arbenigol, o ganlyniad i ymyrraeth gynnar</li> <li>• Llai o restrau aros ar gyfer gwasanaethau penodol e.e. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)</li> <li>• Llai o bwysau ar ddarpariaeth cartrefi gofal</li> <li>• Rhyddhau pobl o'r ysbyty yn fwy amserol</li> <li>• Lleihad mewn Achosion o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal</li> <li>• Lleihad mewn derbyniadau i ysbytai ac apwyntiadau cleifion allanol</li> <li>• Llai o bwysau ar ofal sylfaenol, gan gynnwys meddygon teulu</li> <li>• Mwy o gapasiti yn y farchnad gofal cartref</li> <li>• Arbed diwrnodau gwely mewn ysbyty neu gartref gofal</li> </ul>

7.11 Cyflwynodd chwarter y prosiectau a adolygwyd fel rhan o'r macroddadansoddiad (19 achos) o leiaf rywfaint o dystiolaeth i ddangos eu bod yn cael effaith ystyrlon ar wella'r broses o integreiddio gwasanaethau. Mae'r math o enghreifftiau a nodir ar draws y dogfennau lefel prosiect i'w gweld yn Nhabl 7.5:

**Tabl 7.5: Enghreifftiau o'r effeithiau y mae prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig yn eu cael ar wella integreiddio gwasanaethau**

Partneriaethau a llwybrau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Partneriaethau mwy a chryfach rhwng y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â phrosiectau sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth â'r trydydd sector</li> <li>• Mwy o gyfranogiad gan y trydydd sector yn y gwaith o ddarparu ymyriadau ataliol ac ymyrraeth gynnar</li> <li>• Creu llwybrau atgyfeirio mwy integredig ar gyfer grwpiau penodol, fel plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i ofal</li> </ul>
Gwasanaethau sydd wedi bwrw gwreiddiau a gwasanaethau trawsddisgyblaethol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae rhai prosiectau wedi'u hintegreiddio'n llawn o'r cychwyn cyntaf i'r ddarpariaeth bresennol, h.y., mae'r cyllid wedi'i ddefnyddio i wella capasiti'r gwasanaethau presennol. Mewn rhai o'r achosion hyn sicrhawyd bod gwasanaeth mwy cyfannol ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau o ganlyniad i dîm ehangach</li> <li>• Creu timau amlddisgyblaethol a gwasanaethau cymorth di-dor</li> </ul>
Gwasanaethau wedi'u prif ffrydio a'u cynnal	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwasanaethau'n cael eu prif ffrydio ar ôl i gyllid y Gronfa ddod i ben, gan y dangoswyd gwerth y prosiect</li> </ul>

### **Tystiolaeth gan brosiectau'r astudiaethau achos a defnyddwyr gwasanaethau**

7.12 Roedd defnyddwyr gwasanaethau yn hynod gadarnhaol yn eu hadborth am y gwasanaethau a'r cymorth a gafwyd drwy brosiectau'r Gronfa. Roedd y prif sylwadau a wnaed gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn ymwneud â'r canlynol:

- roedd cymorth ar gael ei ddarparu gan staff sy'n pryderu amdanynt ac sy'n ymddiddori yn eu hamgylchiadau a'u hanghenion
- roedd y staff yn wybodus, yn hyddysg ac yn hawdd siarad â nhw
- roedd y staff yn parchu eu materion a'u dymuniadau

- roedd y staff ar gael pan fo'u hangen ac nid oedd unrhyw gyfyngiadau ar yr amser y gallant ei neilltuo i unigolion e.e. 'treuliodd amser yn meithrin ymddiriedaeth gyda fy mab, mae hynny'n hanfodol, dim terfyn amser. Rwy'n teimlo eu bod nhw yno i helpu ... maen nhw bob amser yn ceisio darparu'r cymorth sydd ei angen arnoch chi' (Defnyddiwr y gwasanaeth Atal a Dychwelyd).

7.13 Nodir isod ddwy enghraifft o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r ddwy yn enghreifftiau o brosiectau sy'n cynnig cymorth dwys i unigolion:

Cafodd Heather<sup>40</sup> gymorth gan y **Prosiect Plant ag Anableddau Dysgu ac Anghenion Cymhleth** yng Ngogledd Cymru, i ddelio â phroblemau cysgu ei merch i ddechrau ond dros amser ehangodd y ddarpariaeth i gynnig cymorth ehangach i rieni, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd neu apwyntiadau ysbyty a chynnig syniadau i alluogi ei merch i fyw gartref cyhyd â phosibl. Ychwanegodd:

'Gallwn ffonio i ofyn unrhyw beth iddyn nhw. Os oeddwn i'n cael problemau gyda fy merch byddwn i'n ffonio a bydden nhw'n dweud ambell beth wrtha i y gallwn i roi cynnig arno i geisio gwella'r sefyllfa ac fel arfer bydden nhw'n gweithio. [Yn ystod y pandemig] fe gawson ni lawer o alwadau ffôn, llawer o e-byst ac os oedd angen unrhyw beth arna i ar frys, fe wnaethon nhw hyd yn oed gynnig ddod â bwyd draw i mi os oeddwn i angen bwyd neu feddyginiaethau ... roedden nhw'n dda iawn, iawn. Ers dros ddwy flynedd fe gefais i lawer o help, oni bai am y tîm CALDS a'r staff anghenion cymhleth a phawb arall, fyddwn i ddim wedi cael gofal seibiant. Mae'r gofal seibiant ... wedi fy helpu fi a fy merch i gael gwell perthynas'.

Mae **Sgiliau i Fyw** (Gwent) yn darparu cymorth ar gyfer llesiant emosiynol i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sy'n gadael gofal fel eu bod mewn sefyllfa well i reoli eu hemosiynau, cynnal ffyrdd iachach o fyw a

<sup>40</sup> Mae enwau pob defnyddiwr gwasanaethau wedi'u newid drwy'r adroddiad cyfan


meithrin mwy o hunanbarch. Mae'r prosiect fel arfer yn gweithio gyda phobl ifanc, drwy seicolegydd penodedig, am hyd at flwyddyn. Mae pobl ifanc yn mynychu sesiynau cymorth un i un wythnosol yn ogystal â therapi grŵp, gan ddefnyddio Therapi Ymddygiadol Dialectig. Mae natur ddwys y cymorth yn golygu y gall y prosiect gefnogi tua 45 o bobl ifanc dros gyfnod o flwyddyn.

Roedd Claire wedi cael ei hatgyfeirio at Sgiliau i Fyw gan y gwasanaethau cymdeithasol ac wedi cael cymorth gan y prosiect ers rhyw 15 mis ar yr adeg y cafodd ei chyfweld. Roedd wedi cael cymorth gan y prosiect yn wythnosol a dywedodd nad oedd erioed wedi aros mor hir gyda gwasanaeth o'r fath o'r blaen. Roedd y cymorth yn amhrisiadwy o ran rhoi'r offer cywir iddi i'w helpu i fynd i'r afael â phroblemau fel patrymau cysgu, cyfathrebu gwael ag aelodau o'r teulu, rheoli ôl-fflachiau dirdynnol a thasgau bob dydd fel dal y bws neu ateb y ffôn.

Ychwanegodd 'Fyddwn i ddim yn gallu siarad â chi ar y ffôn nawr oni bai am fy nghynghorydd Sgiliau i Fyw'.

- 7.14 Mae'r arolwg ar y we o arweinwyr prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig (a ddangosir yn Ffigur 7.1) hefyd yn awgrymu bod y Gronfa wedi cael effaith gadarnhaol ar y ffordd y mae defnyddwyr gwasanaethau'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig o ran eu galluogi i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt a sicrhau eu bod cael gwell dealltwriaeth o'r cymorth sydd ar gael iddynt. Mae'n bwysig nodi y byddai ein dadansoddiad o ddogfennau prosiectau ac adborth o brosiectau'r astudiaethau achos a gyfwelwyd yn awgrymu bod ymatebion arweinwyr prosiectau'r Gronfa i'r arolwg yn seiliedig ar dystiolaeth anecdotaidd (e.e. astudiaethau achos defnyddwyr gwasanaethau) neu ganfyddiadau o'r gwahaniaeth a wnaed.


**Ffigur 7.1: Y gwahaniaeth a wnaed gan brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig o ran sut y mae defnyddwyr yn cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**



Ffynhonnell: Arolwg OB3 o arweinwyr prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig (68 o ymatebion)

7.15 Mae adborth o brosiectau'r Gronfa a gymerodd ran yn yr arolwg hefyd yn awgrymu bod eu hymyriadau'n arwain at fanteision iechyd a llesiant cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau, yn enwedig o ran iechyd meddwl gwell ac ansawdd bywyd. Fel y dangosir yn Ffigur 7.2, mae gwelliannau eraill hefyd yn cael eu cynhyrchu er bod gwell iechyd corfforol a newidiadau mwy arbenigol eraill, megis lleihau'r risg o gwmpo, yn llai cyffredin oherwydd bod nifer llai o brosiectau'n canolbwyntio ar y materion hyn.

**Ffigur 7.2: Y gwahaniaeth a wnaed gan brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig i iechyd a llesiant defnyddwyr gwasanaethau**




Ffynhonnell: Arolwg OB3 o arweinwyr prosiectau (68 o ymatebion)

7.16 O blith y 23 o brosiectau'r Gronfa a holwyd sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd mewn rhyw ffordd, canfuwyd bod yr ymyriadau wedi creu ystod o effeithiau cadarnhaol. Yr hyn a nodwyd amlaf oedd bod teuluoedd/gofalwyr



yn fwy hyderus wrth reoli ymddygiad plentyn a bod plant yn fwy sefydlog yn eu lleoliad (gweler Ffigur 7.3), o ganlyniad i ymyrraeth. Ategwyd hyn gan dri o brosiectau'r astudiaethau achos sy'n gweithio'n benodol gyda phlant a'u teuluoedd. Yn yr achosion hyn, mae ymyriadau seicolegol ac emosiynol a ddarperir mewn modd dwys dros gyfnod maith yn helpu i atal lleoliadau gofal rhag chwalu ac yn arfogi rhieni a gofalwyr maeth yn well i ddeall a chefnogi'r materion y mae'r plentyn yn eu hwynebu.

**Ffigur 7.3: Y gwahaniaeth a wnaed gan brosiectau plant a theuluoedd y Gronfa Gofal Integredig**



Ffynhonnell: Arolwg OB3 o arweinwyr prosiectau plant a theuluoedd (23 o ymatebion)

7.17 Darparwyd llawer o enghreifftiau gan brosiectau'r astudiaethau achos a holwyd i ddangos sut yr oedd ymyriadau'r Gronfa yn newid y ffordd y gallai unigolion gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- mae llawer o brosiectau'r Gronfa yn darparu cymorth mwy dwys wedi'i deilwra nag a fyddai wedi bod ar gael fel arall drwy wasanaethau statudol, gan weithio'n aml gyda'r achosion mwyaf cymhleth. Dywedodd sawl prosiect fod ganddo staff mwy profiadol a oedd yn gallu ymdrin ag achosion cymhleth. Roedd y prosiectau a oedd yn gweithio gyda phlant ar ymylon gofal, er enghraifft, fel MAPSS, yn aml yn adrodd bod teuluoedd yn cael gwasanaeth mwy pwrpasol, a oedd wedi'i deilwra i'w hanghenion cymhleth. Dywedodd

eraill fod y gwasanaethau a ddefnyddir gan unigolion yn fwy tebygol o gael eu llywio gan sgwrsiau am 'yr hyn sy'n bwysig i mi' a bod lleisiau defnyddwyr yn cael eu clywed a'u hadlewyrchu wrth wneud penderfyniadau

- dadleuodd y prosiectau fod defnyddwyr gwasanaethau yn cael mynediad at wasanaeth mwy hyblyg sydd wedi'i gynllunio i ddarparu cymorth cofleidiol i unigolion. Yn aml, disgrifiodd y prosiectau eu dull gweithredu fel un 'y gellir ei addasu ac nid un dull sy'n addas i bawb'. Roedd un prosiect o'r fath yn dadlau bod 'dycnwch yn beth mawr i ni. Gyda CAMHS dim ond tri chynnig gewch chi... ond byddwn ni'n parhau... dydyn ni ddim yn gadael i bobl sy'n methu apwyntiadau ein poeni'
- dadleuodd llawer o brosiectau'r Gronfa fod defnyddwyr gwasanaethau'n cael mynediad at wasanaethau'n gynt ac mewn modd mwy amserol. Roedd prosiect Gwasanaeth Cyfarpar Abertawe yn un enghraifft o'r fath, lle mae cyfuno gwasanaethau llogi cyfarpar ar draws y ddwy sir yn ffordd fwy effeithlon o weithio ac yn rhyddhau amser staff ysbytai a fyddai wedi bod yn ymwneud â darpariaeth o'r fath yn flaenorol
- roedd prosiectau'n adrodd yn gyson bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael gwasanaeth mwy integredig a chyfannol nag a fyddai wedi bod yn wir fel arall, gan fod prosiectau'n gweithio'n agos gyda gwasanaethau eraill i fabwysiadu 'dull tîm o amgylch y person' e.e. CAMHS a gwasanaethau plant yn achos prosiectau sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal
- mae mwy o ddarpariaeth wedi bod ar gael drwy ddarpariaeth ddigidol dros y 18 mis diwethaf mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, nad yw wedi bod yn addas ar gyfer pob prosiect, ond sydd serch hynny wedi galluogi gwasanaethau i barhau
- mae defnyddwyr gwasanaethau yn fwy tebygol o gael mynediad at gymorth ataliol drwy weithgareddau a ariennir gan y Gronfa yr oedd prosiectau'n meddwl eu bod yn helpu i leihau'r angen am fathau

mwy dwys o gymorth yn ddiweddarach e.e. mae gwasanaethau y gellir eu galw allan 24 awr y dydd wedi arwain at osgoi defnyddio gwasanaethau statudol, mae gwasanaethau sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant ag anghenion cymorth ychwanegol yn cael eu cefnogi cyn i argyfwng godi

- mae defnyddwyr gwasanaethau yn fwy tebygol o gael mynediad at gymorth a ddarperir gan bartneriaid y trydydd sector. Mae cynnwys y trydydd sector fel partner cyflawni'r Gronfa wedi helpu i gynyddu capasiti ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol ac wedi cyflwyno atebion creadigol i helpu i fynd i'r afael â phroblemau presennol.

7.18 Dywedodd llond llaw o brosiectau'r astudiaethau achos eu bod wedi cyflawni canlyniadau anfwriadol ychwanegol i unigolion a chymunedau, oherwydd bod eu gwasanaeth yn darparu ymateb brys rheng flaen yn ystod y pandemig. Mae'r prosiect Hybiau Cymunedol yng Nghwm Taf Morgannwg yn un enghraifft o'r fath, sydd wedi nodi cyflawniadau anfwriadol megis gwell mynediad at fwyd, llety diogel, a hawliau budd-daliadau ariannol.

7.19 Dim ond dau o brosiectau'r astudiaethau achos a grybwyllodd eu bod yn defnyddio dulliau safonedig i ganfod y gwahaniaeth a wneir i ddefnyddwyr gwasanaethau, sy'n aml yn cynnwys profion cyn ac ar ôl yr ymyrraeth i ganfod y pellter a deithiwyd gan unigolion:

- Mae Sgiliau i Fyw (Gwent) yn defnyddio'r Dull Mesur Canlyniadau Clinigol mewn Gwerthusiad Rheolaidd (CORE-OM)<sup>41</sup> yn ystod ac ar ôl ymyrraeth i gasglu data ar y pellter a deithiwyd a'r gwahaniaeth a wnaed
- Mae MAPSS (Gorllewin Morgannwg) yn defnyddio fersiwn wedi'i theilwra o Outcomes Star i gasglu data ar ddechrau a diwedd yr

---

<sup>41</sup> Mae'r offeryn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion asesu sut y maent wedi bod yn teimlo dros yr wythnos flaenorol yn erbyn rhestr safonol o 34 o ddatganiadau

ymyriad. Hyd at y pandemig roedd y prosiect hefyd yn defnyddio'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau<sup>42</sup>.

### **Profiadau personol defnyddwyr gwasanaethau**

- 7.20 Mae prosiectau'r astudiaethau achos yn creu ystod eang o fuddion i ddefnyddwyr gwasanaethau a rhannodd holl ddefnyddwyr gwasanaethau yr astudiaethau achos brofiadau personol i ddangos bod ymyriadau wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'w bywydau eu hunain. Mae'r manteision hyn yn adlewyrchu'n fras y canlyniadau a nodir yn Nhabl 7.3 yr adroddiad hwn.
- 7.21 Mae'r chwe enghraifft a nodir isod yn rhoi cipolwg o'r gwahaniaeth cadarnhaol y mae prosiectau'r Gronfa wedi'i wneud i unigolion. Mae tri yn enghreifftiau o brosiectau sydd wedi cefnogi plant a theuluoedd, mae dau yn ymwneud â gofalwyr ac un yn ymwneud â phrosiect sy'n cefnogi unigolion ag anableddau dysgu:

Dywedodd gofalwr maeth o'r enw Sue<sup>43</sup>, a oedd yn ymgysylltu â'r **Gwasanaeth Cefnogi Lleoliadau Amlasiantaeth (MAPSS)** yng Ngorllewin Morgannwg ei bod wedi bod yn maethu bachgen 14 oed ers rhyw dair blynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw roedd y plentyn wedi ymddieithrio'n sylweddol ac nid oedd wedi gallu creu unrhyw berthynas gyda'i dad maeth. Y lleoliad hwn oedd trydydd lleoliad maeth y plentyn. Cyflwynwyd Sue i'r gwasanaeth MAPSS yng ngwanwyn 2021 pan awgrymodd gweithiwr cymdeithasol newydd y byddai'r teulu'n elwa o'r cymorth therapiwtig dwys sydd ar gael. Am y chwe mis diwethaf, mae swyddog MAPSS a gweithiwr cymdeithasol plant wedi ymweld â'r teulu'n wythnosol. Mae'r ddau yn ymweld â'r tŷ ac yn treulio hyd at ddwy awr gyda'r plentyn a'r teulu. Rhagwelir y bydd y sesiynau hyn yn parhau tan ddiwedd 2021.

Mae'r plentyn wedi cael therapi sy'n ystyriol o drawma er mwyn deall ei orffennol yn well. Yn ystod sesiynau therapiwtig, archwiliwyd hanes ei fywyd a'i brofiadau. Ychydig iawn o wybodaeth a oedd ganddo ef, a'i rieni

<sup>42</sup> [Holiadur Cryfderau ac Anawsterau](#)

<sup>43</sup> Mae pob enw wedi ei newid

maeth, am hyn yn flaenorol ac mae gallu cael gafael ar y wybodaeth hon a'i thrafod gyda gweithiwr proffesiynol wedi galluogi'r plentyn i ddeall ei amgylchiadau'n well. Nid yw bellach yn beio ei hun am y chwalfa deuluol. Mae'r rhieni maeth hefyd yn deall gorffennol y plentyn yn well ac maent bellach yn teimlo y gallant drafod hyn gydag ef, heb ofni dweud y pethau anghywir a gwaethygu pethau. 'O'r blaen doeddwn i ddim yn gwybod yr holl hanes felly roeddwn i'n osgoi codi'r mater. Does gen i ddim ofn siarad amdano mwyach'.

O ganlyniad i'r gwasanaeth, mae bywyd y plentyn wedi 'newid cyfeiriad'. Mae'r plentyn wedi dechrau ymgysylltu'n fwy â bywyd a'i deulu maeth, mae wedi gallu datblygu perthynas well gyda'i dad maeth ac mae'n gwneud mwy o gynnydd yn yr ysgol. Mae'r teulu maeth yn bwriadu darparu lleoliad i'r plentyn nes ei fod yn 18 oed ac yn credu bod MAPSS wedi helpu i ddod â sefydlogrwydd i'r lleoliad. Yn absenoldeb y gwasanaeth MAPSS byddai Sue 'yn pryderu beth fyddai'n dod ohono'.

Yn ystod y cyfnod clo cyntaf datblygodd teulu bryderon sylweddol am iechyd meddwl ac addysg eu mab. Roedd Owain wedi ymddieithrio'n llwyr o ddysgu, yn hynod bryderus am COVID-19 ac nid oedd yn mentro allan o'r tŷ. Roedd ei batrymau cysgu hefyd wedi gwaethygu, a rhoddwyd y teulu mewn cysylltiad â'r **Prosiect Cymorth Rhianta Arbenigol** yng Nghwm Taf Morgannwg, a ddarperir gan Sefydliad Halcyon.

Cynhaliwyd y sesiynau cyntaf ar-lein. Roedd Owain yn bryderus iawn i ddechrau a cheisiodd osgoi'r sesiwn gyntaf ond ar ôl cyfarfod â'r swyddog prosiect, buan iawn y dechreuodd ymlacio a chymryd rhan yn y sesiynau o'i wirfodd. Helpodd y prosiect ef yn bersonol i ddatblygu hyder a hunan-barch yn ogystal â'i gefnogi'n academiaidd. Cafodd Owain gymorth gydag adolygu, paratoi ar gyfer ffug arholiadau a chafodd awgrymiadau ymarferol ar sut i ymdopi a threfnu ei fywyd. Rhoddodd y prosiect hefyd gymorth i Owain gyda pharatoi CV a'i annog i feddwl am ei ddyfodol, opsiynau, a chryfderau. Drwy gydol y cyfnod hwn, bu'r swyddog

prosiect hefyd yn gweithio'n agos gyda'r ysgol a rhoddodd fwy o fewnwelediad a gwybodaeth iddynt ar sail ei hasesiadau a'i sesiynau. Dros yr haf, gwelodd y teulu newidiadau cadarnhaol yn eu mab a gwelliant amlwg yn ei hunanbarch:

'Cafodd [y prosiect] effaith ddramatig a chadarnhaol iawn ar Owain. Gallwn ddweud yn onest ein bod ni fel teulu ar goll, wedi cyrraedd pen ein tennyn heb unman i fynd. Ni fyddai gennym yr uned deuluol sydd gennym heddiw oni bai am Halcyon'.

Gweithiodd y **prosiect Atal a Dychwelyd** yng Ngogledd Cymru â rhiant maeth o'r enw Delyth, i'w helpu i ymdopi â phroblemau ymddygiad plentyn ifanc dan ei gofal. Dechreuodd Delyth ymwneud â'r prosiect ym mis Awst 2020 a chafodd gymorth dwys am tua blwyddyn i helpu i ddeall y materion sy'n wynebu'r plentyn a'r ffordd orau o ymdopi ac ymateb i wahanol sefyllfaoedd. Bu'r swyddog prosiect yn ymgysylltu â'r teulu yn rhithwir yn ogystal ag wyneb yn wyneb, gan gynnwys ymweld ag ysgol y plentyn. Mynychodd gyfarfodydd ar y cyd â'r gwasanaethau cymdeithasol hefyd i eirioli ar ran y plentyn ac i amlinellu'r cymorth a'r adnoddau yr oedd eu hangen arno. Roedd yr adborth ar y gwasanaeth yn hynod gadarnhaol, yn enwedig o ran parhad y gwasanaeth a'r gallu i weithio gyda'r un swyddog drwy gydol y cyfnod.

Meddai Delyth: 'Dyw [y plentyn] ddim yr un person ers gorffen gyda RAP. Mae bellach yn mwynhau chwarae gemau... mae'n gallu ymdopi â cholli nawr. Mae'n ddyn ifanc mor gariadus nawr, sy'n wahanol iawn i'r un blin a welsom gyntaf. Rwyf wedi addasu fy ymatebion iddo mewn gwahanol sefyllfaoedd oherwydd fy mod i'n ei ddeall yn well, os yw'n dweud celwydd wrtha'i, rwy'n deall bod rheswm trawmatig dros hynny. Mae'r gwasanaeth wedi fy nhrawsnewid i a'r person ifanc dan fy ngofal – heb os, byddai'r trefniant maethu wedi chwalu heb yr ymyriad hwn.'

Mae Sarah, ynghyd â'i thad, yn ofalwyr i'w mam oedrannus. Derbyniwyd ei mam i'r ysbyty am gyfnod o dri mis yn ystod y pandemig COVID-19, a threuliodd rywfaint o'r cyfnod hwnnw yn yr uned gofal dwys. Yn ystod y cyfnod hwn, nid oedd y cyfathrebu â'r ysbyty wedi bod yn ddigon cyson, er gwaethaf y ffaith nad oedd y claf yn gallu siarad. Roedd hyn wedi gwneud i'r teulu deimlo'n rhwystredig ac yn ddi-rym.

Cysylltodd y **prosiect Swyddogion Gofalwyr** â Sarah i drafod y broses o ryddhau ei mam o ofal yr ysbyty. Roedd Sarah yn bryderus ynghylch sut y bydden nhw fel teulu yn ymdopi â gofalu am ei mam. Roedd rôl y Swyddog Gofalwyr yn cael ei hystyried yn hollbwysig ac wedi helpu'r teulu:

- yn emosiynol, drwy fod ar gael i wrando ar bryderon a phroblemau
- i gael mwy o wybodaeth, drwy ddarparu gwybodaeth a diweddariadau am y claf tra roedd yn yr ysbyty
- drwy gael pwynt cyswllt cyson dros amser, drwy sicrhau bod y Swyddog Gofalwyr ar gael fel un pwynt cyswllt i godi materion a phryderon
- i gyfathrebu â staff ysbyty ar eu rhan drwy gyfleu pryderon a chwestiynau i staff meddygol
- i gyfeirio pobl at wasanaethau eraill y gallant gael mynediad atynt i sicrhau bod y claf yn cael ei gefnogi gan wasanaethau gofal
- i gael cymorth ariannol drwy eu gwneud yn ymwybodol o lwfans gweini a'u helpu i wneud cais am hwn
- ar ôl rhyddhau cleifion o'r ysbyty, gan fod y Swyddog Gofalwyr wedi gallu eirioli ar eu rhan i sicrhau bod y claf yn cael mynediad at ddarpariaeth gofal cymdeithasol priodol

Prif fanteision y gwasanaeth i'r teulu yw lleihau'r gorbryder tra roedd y claf yn yr ysbyty, gan eu bod yn gallu cael mynediad at well gwybodaeth am ei chyflwr ac ymyrraeth feddygol. 'Roeddwn yn ffonio bob dydd i gael diweddariad ond nid oeddwn yn cael unrhyw wybodaeth. Roedd yn hyfryd cael rhywun i wrando ar ein pryderon a mynd ar drywydd pethau i ni'.

Ystyriwyd bod y Swyddog Gofalwyr wedi eu helpu i 'ffendio'n ffordd drwy'r system' ac roedd y ffaith bod yr un person ar gael yn gyson yn werthfawr iawn.

Mae un defnyddiwr gwasanaethau o **Borth Gofalwyr** Caerdydd a'r Fro, Carys, yn gofalu am ei mab sydd â Syndrom Asperger. Dechreuodd Carys ymwneud â'r prosiect yn ystod y pandemig COVID-19 ar ôl clywed y gallai gael cymorth ariannol i helpu i brynu iPad ac i gael gafael ar dalebau bwyd. Bryd hynny nid oedd ganddi ddyfais a oedd yn caniatáu iddi ymgysylltu ag unrhyw grwpiau ar-lein. Er mai'r cynnig o gymorth ariannol oedd y prif reswm dros ddefnyddio'r gwasanaeth, roedd Carys wedyn yn gallu ymgysylltu â grwpiau cymorth ar-lein a oedd yn ei 'chadw mewn cysylltiad â gofalwyr eraill y byddwn fel arfer yn eu gweld yn wythnosol. Roedd hynny'n help mawr i mi.'


Dengys adborth gan aelodau **My Mates** eu bod yn mwynhau'r cyfleoedd i ddod at ei gilydd ac roedd aelodau'r grwpiau ffocws yn gyfarwydd iawn â'i gilydd ac roedd ganddynt berthynas agos. Roedd gan yr aelodau lais cryf yn y gweithgareddau yr oeddent wedi bod yn rhan ohonynt ac wedi mwynhau gwibdeithiau diweddar megis noson allan yng Nghaerdydd. Mae'r aelodau'n troi at ei gilydd yn naturiol am gefnogaeth pan fydd materion yn codi yn eu bywydau.

### **Y gwahaniaeth a wnaed i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**

- 7.22 Roedd y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg yn canfod eu bod yn cael dwy effaith gadarnhaol allweddol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill, gyda phrosiectau'n creu gwell perthnasoedd gwaith rhwng sefydliadau partner ac yn helpu i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith sefydliadau partner.



**Ffigur 7.4: Y gwahaniaeth y mae prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig yn ei wneud i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**



Ffynhonnell: Arolwg OB3 o arweinwyr prosiectau (23 o ymatebion)

7.23 Ystyriwyd rhai o'r gwahaniaethau allweddol a nodwyd gan brosiectau a arolygwyd yn Ffigur 6.4 ymhellach gan brosiectau astudiaeth achos ac mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd ganddynt wedi'i nodi isod:

**Adroddodd prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig bod eu perthnasoedd gwaith a'r integreiddio rhwng sefydliadau partner wedi gwella**

7.24 Nododd prosiectau'r astudiaethau achos sawl ffordd yr oedd eu gwasanaeth wedi helpu i integreiddio iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill yn well, gan gynnwys:

- gwasanaethau'n dod yn fwy cydgysylltiedig a chydlynol gyda staff prosiectau'n aml yn gweithredu fel rhan o dimau amlddisgyblaethol ehangach. Mae hyn wedi arwain at wella llwybrau clinigol a darparu sesiynau ar y cyd i ddefnyddwyr gwasanaethau mewn rhai achosion (e.e. sesiynau cymorth ar y cyd i deuluoedd) a gweithio o amgylch anghenion yr unigolyn. Mae'r prosiect Plant ag Anableddau Dysgu ac Anghenion Cymhleth yng Ngogledd Cymru yn un enghraifft o'r fath lle mae swyddogion staff yn mynychu cyfarfodydd amlasiantaeth yn rheolaidd ac yn gwneud penderfyniadau ar y cyd â'r gwasanaethau cymdeithasol am achosion unigol. Yn yr achos hwn

dadleuwyd bod y Gronfa wedi caniatáu i'r tîm gyflogi mwy o staff a all neilltuo'r amser angenrheidiol i'r trafodaethau hyn.

- gwaith amlasiantaeth, a staff iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy gwybodus ynglŷn â phwy i gysylltu â nhw ac at ba ddibenion. Roedd gweithredu Un Pwynt Mynediad wedi cefnogi hyn ac adroddodd sawl prosiect fod gweithdrefnau atgyfeirio gwell a chyflymach ar waith. Dywedodd staff fod ganddynt well dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r hyn sydd ar gael gan wasanaethau eraill a nodwyd sawl enghraifft o grwpiau prosiect amlasiantaeth sydd ag ymrwymiad gan wahanol bartneriaid i gyflawni canlyniadau a ariennir gan y Gronfa.
- gweithredu prosesau gwell a symlach megis partneriaid a gwasanaethau gwahanol yn cydweithio i fabwysiadu un asesiad safonol a gwell trefn ar gyfer gwasanaethau. Dywedodd y prosiectau hefyd eu bod wedi gallu lleihau nifer y bobl sy'n gweithio gyda phlant ar draws gwasanaethau er mwyn gwella parhad ac ymddiriedaeth.

7.25 Roedd prosiectau'r astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar blant ar ymylon gofal yn dadlau bod eu modelau cyflawni wedi'u hintegreiddio'n sylweddol ar draws y meysydd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Roedd y rhain yn cynnwys Atal a Dychwelyd, Gogledd Cymru; Enfys, Caerdydd a Bro Morgannwg a MAPSS, Gorllewin Morgannwg):

Mae **Enfys**, sy'n gweithredu ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg, yn wasanaeth y GIG sydd wedi'i leoli o fewn yr adran Iechyd Plant Cymunedol ac mae'n gweithio ochr yn ochr â CAMHS. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys seicolegydd clinigol, gweithwyr iechyd meddwl, therapyddion galwedigaethol a chymorth gweinyddol. Mae'r prosiect yn darparu cymorth i blant sy'n derbyn gofal, eu teulu maeth a gweithwyr cymdeithasol i wella eu dealltwriaeth o'r plentyn.

Mae'r prosiect **Gwasanaeth Cefnogi Lleoliadau Amlasiantaethol** (MAPSS) (Gorllewin Morgannwg) yn gweithredu drwy dîm amlddisgyblaethol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal sydd â salwch meddwl ac anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, neu mewn perygl o

ddioddef cyflyrau o'r fath. Mae'r tîm ymroddedig o weithwyr cymdeithasol, therapyddion chwarae a gweithwyr teulu yn cefnogi gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr eraill wrth ddarparu cymorth i blant. Mae'r prosiect yn mabwysiadu ymarfer sy'n ystyriol o drawma ac ymlyniad i sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr yn datblygu dealltwriaeth fanwl o'r profiadau a wynebir gan y plentyn. Wedi'i ddisgrifio fel 'y glud yn y system', mae MAPSS yn darparu ymyriad cofleidiol wedi'i deilwra ar gyfer plant â chefnidir ac anghenion cymhleth. Mae'r ddarpariaeth yn helpu i wella dealltwriaeth gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr o'r trawma a brofir gan y plentyn er mwyn gwella sefydlogrwydd lleoliadau.

### **Mae rhai o brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig yn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith sefydliadau partner yn effeithiol**

- 7.26 Dywedodd o leiaf dri o brosiectau'r astudiaethau achos eu bod yn cynnal sesiynau ymwybyddiaeth a hyfforddiant i wasanaethau ac ymarferwyr prif ffrwd, gyda'r nod o wella'r ddealltwriaeth o anghenion eu grŵp targed. Mae enghreifftiau o'r dulliau hyn a'r gwahaniaeth y maent wedi'i wneud wedi'u nodi isod:

Mae **Porth Gofalwyr** Caerdydd a Bro Morgannwg, sy'n brosiect y trydydd sector, wedi cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth i staff iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal â chyflogwyr fel gwasanaethau tân ac achub a'r heddlu. Mae'r sesiynau hyfforddi hyn yn helpu i wella dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu gofalwyr, yn darparu cymorth i adnabod gofalwyr di-dâl a hefyd yn helpu i wella polisïau cyflogwyr ar gyfer gofalwyr.

Mae'r prosiect **Cymorth Rhianta Arbenigol**, a ddarperir gan y darparwr trydydd sector Sefydliad Halcyon yng Nghwm Taf Morgannwg, yn darparu hyfforddiant i grwpiau cymunedol, teuluoedd, gofalwyr,

gwasanaethau statudol gan gynnwys ymarferwyr ysgol, a busnesau i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyflyrau'r sbectrwm awtistig a chyflyrau niwroddatblygiadol eraill. Mae'r prosiect wedi canfod bod darparu hyfforddiant i staff ar draws un awdurdod lleol wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau i'r prosiect gan fod ymarferwyr wedi gallu mabwysiadu technegau ac arferion newydd yn eu gwaith eu hunain. Mae ymarferwyr hefyd wedi rhannu'r hyn a ddysgwyd ag eraill gan gynnwys gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol. Mae'r awdurdod lleol wedi ail-lunio ei fodel darpariaeth ar gyfer pobl anabl, yn sgil yr hyfforddiant. Bellach, mae'r atgyfeiriadau y mae'r prosiect yn eu derbyn yn tueddu i fod ymysg yr achosion mwyaf cymhleth.

Gwasanaeth rhanbarthol yw **Prosiect Atal Cwypïadau Gogledd Cymru** sy'n cwmpasu iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector er mwyn lleihau'r risg o gwypïadau ymhlith pobl hŷn ar draws y rhanbarth. Mae'r prosiect yn addysgu cartrefi gofal am sut i atal cwypïadau ac yn gwella eu dealltwriaeth o sut y gall meddyginiaeth gyfrannu at achosion o gwympo er mwyn lleihau nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ar ôl cwympo. Darparwyd hyfforddiant wyneb yn wyneb cyn COVID-19 gan droi at ddulliau rhithwir yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn heriol oherwydd materion yn ymwneud â thechnoleg e.e. nid oedd gan lawer o staff fynediad at dechnoleg, ac roedd adborth yn awgrymu nad oedd staff cartrefi gofal yn cael cymaint o fudd o'r sesiynau o gymharu â rhai wyneb yn wyneb. Serch hynny, roedd yn cynnig mwy o hyblygrwydd i gartrefi gofal h.y. gallent drefnu i 1-2 aelod o staff fynychu sesiynau rhithwir yn hytrach na bod angen rhyddhau grwpiau mawr o staff i fynychu sesiwn yn bersonol yn y cartref gofal. Mae data o gartrefi gofal yn cael eu casglu gan y prosiect sy'n dangos bod mwyafrif helaeth y cwypïadau bellach yn cael eu trin gan staff cartrefi gofal, er nad oes data sylfaenol ar gael er mwyn cymharu.

## **Mae'r Gronfa Gofal Integredig wedi galluogi'r trydydd sector i ymgymryd â mwy o rôl gyflawni**


- 7.27 Awgryma'r adborth gan brosiectau astudiaethau achos y trydydd sector fod y Gronfa wedi bod yn allweddol o ran dod â nhw at y bwrdd a defnyddio eu gwasanaethau i wella integreiddio ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn absenoldeb y Gronfa, dadleuodd un o brosiectau astudiaethau achos y trydydd sector y byddent yn dal i gael eu gweld fel 'pobl o'r tu allan' ac na fyddai 'clinigwyr, pediatregwyr a gweithwyr cymdeithasol mor agored yn eu trafodaethau' gyda nhw am ddefnyddwyr gwasanaethau.
- 7.28 Dywedodd un prosiect trydydd sector o'r fath ei fod wedi chwarae rhan bwysig wrth bontio gwasanaethau statudol a darpariaeth y trydydd sector. Mae'r gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol, drwy ei 15 rhwydwaith cymorth lleol, wedi creu cysylltiadau ac wedi hwyluso cydweithio rhwng gwasanaethau statudol a llawer o sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio ledled Powys. Yn yr un modd, ystyriwyd bod y Prosiect Cymorth Rhianta Arbenigol yng Nghwm Taf Morgannwg yn hollbwysig ar draws y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol ledled y rhanbarth, ac roedd y partneriaid o'r farn y byddai'r 'system yn chwalu' yn ei absenoldeb.
- 7.29 Fodd bynnag, mae prosiectau'r trydydd sector wedi wynebu eu heriau eu hunain yn eu hymdrech i gyflwyno darpariaeth integredig, yn bennaf oherwydd anawsterau wrth ddarparu un gwasanaeth ar draws ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol. Mae un prosiect a arweinir gan y trydydd sector, sef Atal a Dychwelyd yng Ngogledd Cymru, wedi gorfod teilwra ei ddull gweithredu ar draws ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol i gynnwys gwahanol ffyrdd o weithio. Mewn un sir, mae'r gwasanaeth yn cael ei ystyried yn un sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn gyda phartneriaeth wirioneddol ar waith gyda gweithwyr cymdeithasol a staff y tîm maethu: 'rydym yn teimlo fel un sefydliad ac mae hynny'n gwneud gwahaniaeth mawr'.
- 7.30 Enghraifft arall o wasanaeth y trydydd sector a oedd yn bwriadu cael ei integreiddio'n dda yw'r prosiect Swyddogion Gofalwyr mewn Ysbytai yng Ngorllewin Cymru:

Comisiynodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda dri sefydliad o'r trydydd sector ar y cyd ar draws Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, a Cheredigion fel rhan o'r **prosiect Swyddogion Gofalwyr mewn Ysbytai** i gyflogi pedwar swyddog gofal i gefnogi gofalwyr. Y bwriad oedd y byddai'r deiliaid swyddi hyn yn cael eu lleoli ym mhob un o'r pedwar ysbyty ar draws Gorllewin Cymru i ddatblygu perthynas waith agos gyda staff ysbytai ac i adnabod gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae'r cyfyngiadau sydd ar waith o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 wedi golygu bod swyddogion wedi gorfod gweithio o bell a goresgyn yr heriau ymarferol o beidio â bod wedi'u lleoli mewn ysbytai. Mae atgyfeiriadau a recriwtio i'r gwasanaeth wedi bod yn llai na'r disgwyl gan nad yw staff wedi gallu meithrin perthynas â staff ysbytai, sydd hefyd wedi bod yn ymateb i flaenoriaethau uniongyrchol eraill yn ystod y pandemig.

**Mae prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig yn credu eu bod yn helpu i leihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**

- 7.31 Roedd y rhan fwyaf o'r prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg yn credu eu bod wedi helpu i leihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Dim ond cyfran fach (15 y cant) oedd yn meddwl nad oedd hyn yn wir.

**Ffigur 7.5: I ba raddau y mae prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig wedi lleihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**



Ffynhonnell: Arolwg OB3 o arweinwyr prosiectau (68 o ymatebion)

7.32 Darparodd prosiectau'r astudiaethau achos enghreifftiau o sut y mae eu hymyrraeth yn helpu i leihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol prif ffrwd. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- mae cymorth ataliol yn helpu unigolion i ddod yn llai dibynnol ar wasanaethau statudol. Er enghraifft, nododd y prosiect My Mates fod pobl angen llai o wasanaethau gofal y telir amdanynt a'u bod yn gwneud mwy o benderfyniadau eu hunain am eu pecyn gofal o ganlyniad i ymyrraeth
- mae cymorth ataliol yn helpu i atal argyfyngau rhag gwaethygu. Er enghraifft, canfu'r prosiect My Mates fod defnyddwyr gwasanaethau yn fwy tebygol o droi at gyfeillgarwch a sefydlwyd drwy'r prosiect i helpu i drafod a datrys materion yn gyflym, yn hytrach na gadael iddynt waethygu. Nid oedd un o'u defnyddwyr bellach yn galw am wasanaethau ambiwlans yn rheolaidd ond byddai wedi gwneud hynny o'r blaen
- mae gwasanaethau arbenigol ac wedi'u teilwra yn helpu i leihau nifer yr atgyfeiriadau amhriodol i ddarpariaeth statudol arall. Er enghraifft, roedd prosiectau sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal yn

meddwl y byddai atgyfeiriadau ar gyfer plant â phroblemau ymddygiad wedi parhau i gael eu gwneud i CAMHS er bod y gwasanaeth hwnnw yn fwy priodol ar gyfer cefnogi plant â phroblemau iechyd meddwl.

- mae gwasanaethau ataliol yn helpu i gyflawni arbedion cost ar gyfer gwasanaethau statudol. Dywedodd prosiectau sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal fod gwelliant i sefydlogrwydd lleoliadau maeth yn helpu i atal plant rhag mynd i ofal preswyl. Dadleuodd y prosiect Atal a Dychwelyd yng Ngogledd Cymru ei fod wedi llwyddo i atal nifer bach o blant rhag cael eu rhoi mewn gofal preswyl y tu allan i'w gwlad sy'n golygu arbedion ariannol i awdurdodau lleol, o ystyried y byddai costau blynyddol lleoliad preswyl tua £250,000
- mae gwasanaethau rhai prosiectau'n cyfrannu at ryddhau cleifion yn gyflymach ac yn fwy effeithlon o ysbytai. Er enghraifft, dadleuodd prosiect Gwasanaeth Cyfarpar Abertawe y gall bellach ddsbarthu mwy o welyau yn gyflymach nag y gallai'n flaenorol heb gyllid y Gronfa gan ganiatáu i gleifion gael eu trosglwyddo adref yn gynt.
- mae modelau gweithio newydd yn fwy effeithlon na dulliau traddodiadol blaenorol, fel y dangosir yn yr enghraifft isod:

Credwyd bod cyflwyno'r **Prosiect Gofal yn y Cartref** yn Sir Benfro yng Ngorllewin Cymru, sydd wedi cynnwys darpariaeth drwy'r sector cyhoeddus yn hytrach na'r sector preifat, wedi gwella'r broses o gynllunio a chydlynu ymweliadau â chartrefi. Mae defnyddwyr gwasanaethau yn elwa ar gydweithio agosach rhwng staff a thimau nyrsio ardal ac amrywiol wasanaethau therapi. Mae'r model newydd yn golygu nad yw gwasanaethau gwahanol bellach yn cyrraedd tŷ defnyddiwr gwasanaethau ar yr un pryd. Mae defnyddwyr gwasanaethau hefyd yn elwa o gael cymorth gan staff mewnol sydd wedi'u hyfforddi'n well, o gymharu â phan ddarparwyd y gwasanaeth gan y sector preifat. Mae cyflwyno'r gwasanaeth wedi helpu i leihau'r pwysau ar y tîm nyrsio ardal,



a ddefnyddiwyd yn flaenorol i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn y gwasanaeth a ddarperir gan y sector preifat.

- 7.33 Fodd bynnag, mae llawer o'r dystiolaeth hon yn anecdotaidd ei natur ac fe'i dangosir drwy astudiaethau achos o ddefnyddwyr gwasanaethau unigol a chanfyddiad tîm y prosiect o newidiadau. Ychydig iawn o dystiolaeth ac adborth a gesglir gan brosiectau gan wasanaethau statudol prif ffrwd i gefnogi eu canfyddiad. Efallai fod y gwaith a wnaed gan y prosiect Atal Cwmpiadau yng Ngogledd Cymru yn eithriad:

Mae **Prosiect Atal Cwmpiadau** Gogledd Cymru yn defnyddio adroddiadau chwarterol sy'n cael eu paratoi gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i alluogi'r prosiect i adnabod y rhai sy'n ffonio'r gwasanaeth yn gyson. Mae'r prosiect yn defnyddio'r data hyn i lywio ei waith targedu cymorth yn ogystal ag i fonitro effaith ei ymyrraeth. Mae'r prosiect hefyd yn cael mynediad at ddata ar gyfer unigolion sy'n cael eu derbyn i Adrannau Achosion Brys er mwyn monitro nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn oherwydd cwmpiadau dros amser. Dengys y data fod darpariaethau sydd ar gael drwy'r prosiect, yn enwedig rhaglenni ymarfer corff yn y cartref, wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at leihau nifer y galwadau a wneir am wasanaethau ambiwlans oherwydd cwmpiadau ar draws cartrefi gofal yn ogystal ag ymhlith pobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain.

Ategwyd y gwahaniaeth cadarnhaol hwn gan y defnyddwyr gwasanaethau a gyfwelwyd. Roedd un cwpl oedrannus, Gwyneth a Glyn, wedi dechrau ymwneud â'r prosiect am y tro cyntaf pan gynhaliodd swyddog prosiect ddosbarthiadau ymarfer corff i grwpiau yn lleol. Yna ymwelodd y swyddog â'r cwpl gartref pan laciodd y cyfyngiadau COVID-19 er mwyn parhau â'r ymarferion. Erbyn hynny, roedd eiddilwch Glyn wedi gwaethygu ac roedd yn cwmpo'n gyson. Trefnodd y prosiect i Glyn gael dyfais Camel yn ei gartref i'w godi mewn argyfwng, wedi'i dylunio i godi unigolyn bregus o'r llawr mewn modd diogel gyda chymorth un

person arall. Roedd y cwpl eisoes wedi'u hyfforddi i ddefnyddio'r cyfarpar hwn gan fod hyn wedi'i gynnwys yn eu dosbarthiadau ymarfer corff ond cawsant arweiniad pellach gan swyddog y prosiect ar sut i'w ddefnyddio. Ers hynny mae'r cwpl wedi defnyddio'r cyfarpar hwn deirgwaith, gan osgoi'r angen i ffonio'r gwasanaeth ambiwlans i helpu i'w godi o'r llawr:

'Allwn i ddim ymdopi â chodi Glyn cyn cael y Camel, roedd yn rhaid i mi ffonio'r gwasanaeth ambiwlans, roeddwn bob amser yn gofyn am y car bach ond weithiau doedd e ddim ar gael, mae ganddyn nhw'r cyfarpar i gyd ac maen nhw'n gallu cymryd drosodd yn lle defnyddio ambiwlans. Rwy'n meddwl bod ambiwlans mawr wedi dod ddwywaith, mae'n drueni defnyddio'r adnodd hwnnw pan fydd pobl eraill eu hangen yn ddybryd, mae'n chwerthinllyd mewn gwirionedd pan fyddwch chi'n gwybod mai'r cyfan sydd angen i'r claf ei wneud yw codi oddi ar y llawr'.

- 7.34 Dadleuodd sawl prosiect a oedd yn ymwneud â darparu gwasanaethau rheng flaen yn ystod y pandemig COVID-19 eu bod wedi helpu i leddfu'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft, fe wnaeth y prosiect Hybiau Cymunedol yng Nghwm Taf Morgannwg leddfu'r pwysau ar wasanaethau oedolion statudol drwy ymateb ac ymdrin ag atgyfeiriadau yn ogystal ag ymweld ag unigolion a oedd yn gwarchod eu hunain i wirio eu llesiant a chanfod pa gymorth yr oedd ei angen arnynt. Roedd y prosiect yn obeithiol y gallai'r cyfraniad cadarnhaol hwn tuag at leddfu'r pwysau ar wasanaethau statudol barhau ar ôl COVID-19, gan fod y prosiect mewn sefyllfa dda i 'ymgyfryd â rhai o'r gweithgareddau a oedd yn arfer gorfod cael eu darparu drwy'r gwasanaethau cymdeithasol'.

## **8. Casgliadau ac argymhellion**

- 8.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno ein casgliadau, yn seiliedig ar ein hadolygiad desg a'r gwaith maes, ac mae'n amlinellu argymhellion ac ystyriaethau allweddol ar gyfer unrhyw gronfa yn y dyfodol.
- 8.2 Mae'r Gronfa Gofal Integredig wedi cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i drawsnewid y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru fel yr amlinellir yn ei Rhaglen Lywodraethu. Wedi'i sefydlu yn 2014/15, mae wedi esblygu'n sylweddol dros amser i fabwysiadu'r egwyddorion a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac i helpu i wireddu'r amcanion a nodir yn Cymru Iachach. Roedd rhanddeiliaid rhanbarthol o'r farn bod nodau ac amcanion y Gronfa Gofal Integredig wedi'u cyflawni. Ystyrir yn gyffredinol bod y Gronfa wedi ariannu ymyriadau ataliol priodol sydd wedi helpu i gynnal gwasanaethau craidd yn ystod cyfnod o bwysau sylweddol yn ogystal â bod yn gronfa allweddol sydd wedi ysgogi dull integredig o weithio ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, tai a'r trydydd sector.
- 8.3 Trown i ystyried y pum amcan allweddol y gwerthusiad:
- effaith y rhaglen rhwng 2016 a 2021 ar unigolion a'r cymunedau dan sylw
  - effaith y rhaglen ar ddarparu gwasanaethau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol
  - effaith prosiectau ataliol ar leihau'r pwysau ar y system iechyd a gofal
  - y ffactorau llwyddiant hanfodol a'r rhwystrau a all lywio rhaglenni ac ymyriadau yn y dyfodol
  - i ba raddau y gellid ehangu modelau cyflawni a'u lledaenu er mwyn eu mabwysiadu'n ehangach ledled Cymru.

### **Effaith ar unigolion a chymunedau**

- 8.4 Mae tystiolaeth dda bod prosiectau'r Gronfa yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion a chymunedau – yn enwedig o ran sut y maent yn cael mynediad

at wasanaethau a sut y maent yn elwa o ymgysylltu. Mae set eang iawn o ganlyniadau defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu cyflawni ar lefel y rhaglen, yn bennaf oherwydd bod ystod yr ymyriadau a ariennir yn amrywio o ran cwmpas a grwpiau targed â blaenoriaeth. Mae'n amhosibl cydgrynhoi'r canlyniadau hyn i ddefnyddwyr gwasanaethau ar lefel y rhaglen gan eu bod wedi'u gosod a'u diffinio'n wahanol gan brosiectau unigol, yn hytrach na bod prosiectau'n adrodd ar eu cyflawniadau yn erbyn set o fesurau cenedlaethol cyson ar lefel y rhaglen.

- 8.5 Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad hwn am y gwahaniaeth y mae gwasanaethau wedi'i wneud i'w bywydau yn gadarnhaol ac, mewn llawer o achosion, yn drawsnewidiol. Mae dulliau ymgysylltu â dinasyddion wedi'u defnyddio'n effeithiol gan lawer o brosiectau i lywio'r ddarpariaeth. Dywedodd staff cyflawni'r prosiectau a defnyddwyr gwasanaethau fel ei gilydd fod gwasanaethau'n arwain at fanteision iechyd a llesiant cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau, yn enwedig o ran iechyd meddwl gwell ac ansawdd bywyd. Dangosir y gwahaniaethau hyn orau drwy astudiaethau achos unigol a'r pellter a deithiwyd. O ganlyniad, mae'n anodd adrodd yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru ar ganlyniadau cadarnhaol a newidiadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn gyffredinol, mae adroddiadau prosiectau wedi canolbwyntio ar allbynnau prosiect megis y niferoedd yr ymgysylltwyd â nhw neu weithgareddau a ddarparwyd, er gwaethaf y farn nad ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu'r gwahaniaeth y mae ymyriadau'n ei wneud – yn enwedig ymyriadau dwys, hirdymor megis y rhai sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd.

### **Effaith y rhaglen ar ddarparu gwasanaethau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol**

- 8.6 Mae adborth gan randdeiliaid a chynrychiolwyr prosiectau yn dangos bod y Gronfa wedi helpu i wella gwaith partneriaeth rhwng sefydliadau ac ar draws rhanbarthau. Mae'r gronfa hefyd wedi annog a hwyluso ffordd fwy rhanbarthol o weithio ac wedi cefnogi symudiad tuag at integreiddio gwasanaethau. Mae llawer o enghreifftiau lle mae'r Gronfa wedi cael ei

defnyddio i sefydlu timau amlddisgyblaethol, Un Pwynt Mynediad, a llwybrau gofal gwell.

- 8.7 Mae'r Gronfa hefyd wedi bod yn allweddol o ran gwella rôl y trydydd sector ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, sydd mewn sefyllfa dda i ymwneud â darparu gwasanaethau ataliol mewn modd hyblyg. Fodd bynnag, mae prosiectau'r trydydd sector yn tueddu i fod yn llai integredig na'r rhai sy'n cael eu harwain gan wasanaethau statudol ac maent wedi wynebu heriau unigryw o ganlyniad.

### **Effaith prosiectau ataliol ar leihau'r pwysau ar y system iechyd a gofal**

- 8.8 Dywedodd y rhanddeiliaid a chynrychiolwyr prosiectau fod prosiectau'r Gronfa wedi cyfrannu at ostyngiad mewn gofal sefydliadol ac wedi helpu i leihau'r defnydd o welyau ysbyty. Roedd y gronfa wedi gwneud gwahaniaeth penodol o ran newid y cydbwysedd tuag at wasanaethau ataliol, agosach at y cartref drwy ddatblygu llwybrau gofal canolraddol. Cyfeiriwyd at y cynlluniau amrywiol fel ymyriadau effeithiol i atal derbyniadau i'r ysbyty a hwyluso rhyddhau cleifion yn gynnar ac o ganlyniad, roedd mwy o bobl bellach yn gallu aros yn ddiogel ac yn iach gartref. Roedd ymyrraeth gynnar a gwaith atal bellach yn haws eu cyflawni. Yn ei hanfod, honnwyd bod y Gronfa wedi arwain at wasanaethau gwell a mwy effeithiol, yn enwedig o ran y mentrau sy'n seiliedig ar raglenni.
- 8.9 Mynegwyd safbwyntiau cadarnhaol cryf gan rai am yr effaith a gafodd y Gronfa ar drawsnewid dulliau gweithredu drwy fentrau ataliol. Disgrifiwyd y Gronfa fel galluogwr a oedd wedi helpu i newid agweddau o fewn sefydliadau tuag at ymyrraeth ac atal. Ystyriwyd hefyd bod mentrau ataliol wedi creu manteision i blant, yn enwedig o ran gwella sefydlogrwydd lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal a'u cefnogi gartref neu'n agosach at eu cartrefi.
- 8.10 Fodd bynnag, pwysleisiodd pobl hefyd na ddylai newidiadau cadarnhaol gael eu priodoli i'r Gronfa yn unig gan ei bod yn un o nifer o ffynonellau cyllido a ddefnyddiwyd i gyflawni newid a gwella gwasanaethau. Roedd yn amhosibl, felly, datblethu effaith y Gronfa oddi wrth y ffynonellau eraill hyn wrth asesu i ba raddau y gellid priodoli effeithiau iddi.

## **Y ffactorau llwyddiant hanfodol a'r rhwystrau a all lywio rhaglenni ac ymyriadau yn y dyfodol**

- 8.11 Mae'r Gronfa yn ffrwd gyllido a werthfawrogir yn fawr, ac mae'r ffaith ei bod yn dod i ben yn bryder mawr i randdeiliaid rhanbarthol yn ogystal â phrosiectau a ariennir. Heb gyllid parhaus, mae cynaliadwyedd gwasanaethau presennol yn ansicr. Mae prosiectau'r Gronfa yn darparu gwasanaethau a chymorth gwerthfawr i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u cymunedau, ac felly byddai eu dirwyn i ben yn niweidiol. Mae'n ymddangos mai prosiectau sydd wedi'u hen sefydlu sydd hefyd yn cael mynediad at ffynonellau cyllid eraill yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o barhau, er ar raddfa lai, a'r prosiectau mwy newydd a'r rhai sy'n gwbl ddbynol ar y Gronfa fel eu ffynhonnell gyllido sydd fwyaf agored i niwed pe bai cyllid yn cael ei ddirwyn i ben.
- 8.12 Yn gyffredinol, mae'r prosiectau a ariannwyd wedi gwneud cynnydd da er bod y dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r rhai a sefydlwyd yn fwy diweddar (h.y. o 2020 ymlaen) wedi cael yr un cyfle i dreialu eu modelau ag a fwriadwyd. Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddofn a chyferbyniol ar ddarpariaethau a ariennir o ran lefel y galw, capasiti staffio a dull cyflawni. Mae prosiectau'r Gronfa wedi chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gefnogi ymdrechion y rheng flaen yn ystod y pandemig.
- 8.13 Nodwyd ystod eang o alluogwyr cyflawni allweddol gan brosiectau y gellid eu nodi fel ffactorau llwyddiant hanfodol. Ymysg y rhain roedd trefniadau effeithiol ar gyfer cydweithio ag eraill; tîm cyflawni cryf; mabwysiadu model cyflawni a darpariaeth hyblyg y gellir ei addasu sy'n gwella gwybodaeth ymarferwyr eraill drwy hyfforddiant neu gydweithio.
- 8.14 Yn yr un modd, nodwyd nifer bach o rwystrau allweddol gan brosiectau. Roedd y rhain, fel y gellid disgwyl, yn cynnwys y pandemig COVID-19 a effeithiodd mewn gwahanol ffyrdd ar gyflawni prosiectau dros y 18 mis diwethaf. Roeddent hefyd yn cynnwys effaith trefniadau cyllido blynyddol a goblygiadau hyn o ran recriwtio a chadw staff.
- 8.15 Nid yw rhannu arfer da a gwersi rhwng prosiectau tebyg wedi bod yn nodwedd gref o raglen gyfredol y Gronfa. Mae awydd cryf i wneud hynny fel

rhan o unrhyw fodel cyllido yn y dyfodol, er mwyn rhannu profiadau a mireinio modelau cyflawni. Yn ddi-ddorol fodd bynnag, mae nifer bach o brosiectau'r Gronfa wedi helpu i wella dealltwriaeth o anghenion eu grŵp targed penodol ymhlith ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, drwy weithio ar y cyd i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau a chyflwyno sesiynau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i gydweithwyr mewn sefydliadau partner.

### **Argymhellion**

- 8.16 Mae hyd a lled a dyfnder ein hymchwil yn ein galluogi i gynnig sawl argymhelliad i Lywodraeth Cymru ei ystyried wrth lunio canllawiau ar gyfer unrhyw gronfa yn y dyfodol. Mae'r argymhellion yn ystyried canfyddiadau'r ymchwil a'r casgliadau a amlinellir uchod. Wrth gyflwyno'r argymhellion hyn, rydym yn ymwybodol, ar ôl cael ystod mor eang o farn a safbwyntiau ar y materion perthnasol, ei bod yn anochel nad oes un fersiwn unigol o'r newidiadau y byddai rhanddeiliaid a swyddogion Llywodraeth Cymru yn dymuno eu gwneud. At hynny, mae hyblygrwydd y Gronfa wedi caniatáu iddi gael ei defnyddio i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol lluosog sydd yn eu tro yn sicr o arwain at rywfaint o wahaniaeth barn am ei defnydd a'i heffeithiolrwydd. Mae'r argymhellion, felly, yn adlewyrchu ein barn gytbwys ar y materion i'w hystyried wrth symud ymlaen yn hytrach nag unrhyw ymgais i ddod i gonsensws ar sail yr hyn a glywsom.
- 8.17 Cyflwynir yr argymhellion ar bum thema allweddol a nodwyd yn ystod yr ymchwil ac wrth wneud hynny, rydym hefyd yn nodi'n gryno y rhesymeg dros bob un. Dylid eu darllen fel pum set o argymhellion a gyflwynir yn yr ysbryd o gynnig syniadau yn hytrach na rhestr gyfarwyddol o newidiadau - er ein bod hefyd wedi eu crynhoi fel rhestr wirio yn Nhabl 8.1. I gyd-fynd â nhw mae rhai awgrymiadau am y ffactorau y gellid eu hystyried wrth weithredu pob argymhelliad yn ogystal â rhai cwestiynau "prawf" y credwn y byddai'n ddefnyddiol eu hystyried.

## **Thema 1: Yr angen i barhau â rhyw fath o gyllid wedi'i neilltuo yn y dyfodol er mwyn cefnogi arloesi ac integreiddio**

- 8.18 Mae'n bosibl mai'r pryder a fynegwyd gan randdeiliaid wrth ystyried canlyniadau dirwyn y Gronfa i ben oedd y cyfiawnhad mwyaf amlwg o werth cael cronfa wedi'i neilltuo. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid wedi'i neilltuo i gefnogi arloesi a darpariaethau integredig a chydweithredol ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae achos cryf dros symleiddio'r cyllid presennol sydd ar gael drwy'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid mewn un gronfa o fis Ebrill 2022 ymlaen sy'n cefnogi'r amcanion a nodir yn Cymru Iachach a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
- 8.19 O ran cefnogi arloesedd, rydym yn argymhell bod mwy o eglurder yn cael ei ddarparu ar yr hyn y mae gwir arloesi yn ei olygu yn ymarferol er mwyn osgoi unrhyw arloesi 'synthetig' sy'n honni ei fod yn newydd ond sydd mewn gwirionedd yn ddim ond ailddyfeisio'r olwyn rhyw fymryn. Dylai trefniadau cyllido yn y dyfodol sicrhau nad yw rhanbarthau'n cael eu hannog yn anfwriadol i ddehongli arloesi fel cynyddu nifer y prosiectau. Dylid nodi'n gliriach effaith bosibl prosiectau cyn cytuno arnynt.
- 8.20 O ran cefnogi integreiddio, rydym yn argymhell ehangu'r gofyniad i randdeiliaid eraill fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu mentrau sy'n deillio o'r gronfa, yn enwedig defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, y sector annibynnol, ac Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru. Byddem hefyd yn awgrymu bod canllawiau'r dyfodol yn ei gwneud yn glir ei bod yn dderbyniol i fanteision y gronfa gael eu cronni'n anghymesur gan wahanol asiantaethau partner ar yr amod bod hyn wedi'i gytuno ar y cyd.

### **Cwestiwn Prawf:**

Pa bartneriaid (y tu hwnt i Lywodraeth Cymru, y rhanbarthau, awdurdodau lleol, y bwrdd iechyd a'r trydydd sector) y mae angen eu hintegreiddio'n fwy yn y rhaglen ar ôl 2022 er mwyn helpu i sicrhau manteision ychwanegol?



## **Thema 2: Yr angen i'r gronfa gefnogi gwelliant a newid cynaliadwy**

- 8.21 Er bod barn wahanol yn ddiamau ynghylch a yw'r Gronfa wedi bod yn gronfa anghylchol flynyddol mewn gwirionedd, canfuwyd digon o ansicrwydd i argymhell bod angen i gyllid yn y dyfodol fod ar gael am gyfnod hwy, am dair blynedd o leiaf ond yn ddelfrydol am bum mlynedd, er mwyn caniatáu trawsnewidiad a mynd i'r afael â heriau cyflawni. Hyd yn oed wedyn, mae angen cynnwys trefniadau wrth gefn yn y gronfa er mwyn sicrhau y gellir rheoli strategaethau ymadael yn briodol.
- 8.22 Mae rhanbarthau wedi dod yn ddibynnol ar y Gronfa Gofal Integredig (a'r Gronfa Trawsnewid), ac mae'n dilyn bod yn rhaid eu galluogi i rannu perchnogaeth o gynaliadwyedd prosiectau, rhaglenni a mentrau a gynhyrchir gan gronfeydd fel y rhain. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i sefydlu'r trefniadau mwyaf priodol ar gyfer sicrhau y gall prosiectau ddechrau a gorffen heb ofni gorfod wynebu sefyllfa lle y daw'r cyllid i ben yn sydyn, boed hynny'n digwydd mewn gwirionedd neu'n ganfyddiad.
- 8.23 Mae'n ymddangos bod y graddau y mae prosiectau a rhaglenni wedi cael eu hehangu a/neu eu prif ffrydio wedi bod yn dameidiog ar y gorau ac yn aml caiff anawsterau gwneud hynny eu tanamcangyfrif. Byddem yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cael dealltwriaeth gliriach gyda rhanddeiliaid o'r anawsterau hyn a gwneud darpariaeth o fewn y gronfa newydd er mwyn eu goresgyn.
- 8.24 Yn sail i fynd ar drywydd gwelliant cynaliadwy mae'r angen am eglurder ynghylch amcanion. Mae'r Gronfa Gofal Integredig wedi bod yn amhrisiadwy o ran helpu i gynnal gwasanaethau craidd sydd wedi bod dan bwysau yn ystod cyfnod o galedi, a byddem yn cefnogi defnydd hyblyg ohoni yn hyn o beth. Yn yr un modd, byddem yn cefnogi parhau i gyflwyno gwahanol ffrydiau cyllido i gyflawni amcanion a byddem yn argymhell bod hyn yn cael ei gynnwys o fewn canllawiau'r gronfa newydd ynghyd ag eglurder ynghylch sut y mae hyn yn effeithio ar atebolrwydd lleol a rhanbarthol yng ngoleuni unrhyw newidiadau sy'n codi o'r Papur Gwyn diweddar. Fodd bynnag, gellir dadlau bod defnydd hyblyg o'r Gronfa

weithiau wedi bod ar draul cyflawni mwy o arloesi a newid. Argymhellwn felly y dylid egluro i ba raddau y mae hyn yn dderbyniol yn y canllawiau ar y gronfa newydd. Dylai amcanion y gronfa newydd gael eu deall ac, yn ddelfrydol, gael eu cytuno gan randdeiliaid; dylent hefyd, lle bynnag y bo'n bosibl, fodloni'r egwyddorion o fod yn rhai "CAMPUS" - cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol ac wedi'u hangori o fewn amserlen. Credwn fod cydberthynas rhwng amcanion eglur a disgwyliadau o'r gronfa ac osgoi gwyro oddi wrthynt a hyd yn oed mynd oddi ar y cledrau.

- 8.25 Byddem yn argymhell ystyried sefydlu elfennau ar wahân o'r gronfa newydd ar gyfer arloesi, cydgrynhoi a thrawsnewid, a therfynu.

**Cwestiynau Prawf:**

Sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau dull mwy hirdymor, cynaliadwy o ymdrin â'r rhaglen ar ôl 2022?

Pa gyfran o'r cyllid ddylai fod yn gyllid ar gyfer arloesi, ar gyfer cydgrynhoi a thrawsnewid, ac ar gyfer terfynu yn y rhaglen ar ôl 2022?

**Thema 3: Sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cyfarwyddyd a disgresiwn**

- 8.26 Canfuwyd rhywfaint o densiwn rhwng y graddau y dylai'r gronfa newydd gael ei hategu gan ganllawiau cyfarwyddol ynghylch ei defnyddio. Roedd enghreifftiau a ddarparwyd yn ystod y gwaith ymchwil yn ymwneud â dyraniadau penodedig ar gyfer grwpiau poblogaeth, trefniadau casglu data ac amserlenni ar gyfer cyflwyno cynigion am brosiectau. Credwn fod rhywfaint o gyfarwyddyd yn anochel ac yn angenrheidiol er mwyn diogelu uniondeb y gronfa a sicrhau atebolrwydd. Er enghraifft, rydym wedi gwneud argymhellion ynghylch sicrhau gwell prif ffrydio a dysgu sy'n sicr o gynnwys elfennau o gyllid gwarchodedig. Fodd bynnag, mae graddau'r cyfarwyddyd hwn yn dibynnu ar nifer o ffactorau sy'n cynnwys cysyniadau cymhleth o ymddiriedaeth a rheolaeth, a chredwn ei bod yn werth ffafrio caniatáu cymaint â phosibl o ddisgresiwn rhanbarthol pan fydd rhywun yn ystyried mai cyfran fach iawn o'r gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol gyffredinol yr oedd y Gronfa Gofal Integredig yn ei chynrychioli. Nid oes metrig clir ar

gyfer cyflawni'r cydbwysedd cywir. Credwn mai'r ffordd orau o sicrhau'r cydbwysedd hwn yw drwy broses ymgysylltu effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ac argymhellwn y dylid gwneud hyn cyn gynted ag y bo modd.

- 8.27 Byddem hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod dulliau ymgysylltu yn mynd y tu hwnt i gyswllt uniongyrchol â chynrychiolwyr rhanbarthol enwebedig ac yn cynnwys cynrychiolwyr yr holl rhanddeiliaid allweddol, e.e. ADSS Cymru, Conffederasiwn GIG Cymru, CGGC, CLILC a Fforwm Gofal Cymru.

#### **Cwestiynau Prawf:**

Sut y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r rhanbarthau i gyd-ddylunio blaenoriaethau'r rhaglen ar ôl 2022?

Yn dilyn yr ymgynghoriad ffurfiol, sut y gall ffurf y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn y dyfodol ddylanwadu'n gadarnhaol ar y rhaglen ar ôl 2022?

#### **Thema 4: Defnyddio data i ysgogi gwelliannau i wasanaethau ac ansawdd**

- 8.28 Mae angen ailystyried sut y mae data a gwybodaeth yn cael eu casglu, eu monitro a'u defnyddio. Mae angen mwy o eglurder ynghylch sut y mae gwahanol rhanddeiliaid yn defnyddio data gyda'r nod o sicrhau bod y fethodoleg casglu data a monitro prosiectau o fudd iddynt hwy ac i Lywodraeth Cymru. Dylid annog ymyriadau a ariennir i fabwysiadu dulliau safonol o fesur y pellter a deithiwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau, ac yn ddelfrydol gyda modelau gofal tebyg, yn ymchwilio i'r opsiwn o fabwysiadu offer cyffredin.
- 8.29 Er gwaethaf yr angen i sicrhau atebolrwydd wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus, rydym yn argymhell newid y pwyslais o ddulliau casglu a monitro data sy'n canolbwyntio ar gydymffurfiaeth i ysgogi gwelliannau ansawdd lleol, rhanbarthol a rhynggranbarthol. Dylai'r defnydd o fethodoleg atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau barhau i fod yn fodd o gyflawni hyn ond gyda mwy o eglurder ynghylch y disgwyliadau o ran sut y caiff ei chymhwyso.

8.30 Er ein bod yn deall yr heriau o gymhwyso fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn gyffredinol, rydym yn argymhell ymhellach y dylai unrhyw gronfa yn y dyfodol gael ei llywio gan gyfres o ganlyniadau cenedlaethol wedi'u diffinio'n dda, sydd wedi'u grwpio i adlewyrchu'r canlyniadau disgwylidig ar gyfer modelau gofal neu grwpiau blaenoriaeth penodol. Wrth gymhwyso hyn, rydym yn argymhell y dylai'r ffocws yn y dyfodol fod ar y data a'r metrigau pwysicaf, a chynnwys partneriaid allweddol fel Comisiwn Bevan, Gofal Cymdeithasol Cymru, a Gwelliant Cymru yn y broses honno.

8.31 Byddai cyflawni mwy o welliannau i wasanaethau ac ansawdd yn elwa o newid y pwyslais o ddull yn seiliedig ar brosiectau i ddull rhaglen y gellid alinio prosiectau â hi. Rydym yn argymhell bod y gronfa newydd yn annog ac yn cefnogi hyn drwy wella'r gyfatebiaeth rhwng systemau data lluosog, gan gynnwys ystyried ei gwneud yn orfodol i ddefnyddio system Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.

#### **Cwestiynau Prawf:**

Pa rôl y mae angen i ddata ei chwarae (a pha ddata sydd ei angen) yn y rhaglen ar ôl 2022?

Pa fecanweithiau y mae angen eu rhoi ar waith i fonitro effaith y rhaglen ar ôl 2022 mewn modd mwy ystyrllon?

Sut y gall y gofynion ynghylch data gan Lywodraeth Cymru helpu i gyflawni'r newid o (ganfyddiadau o) ddull monitro wedi'i arwain gan gydymffurfiaeth i ddull gwella wedi'i arwain gan fewnwelediad?

#### **Thema 5: Yr angen i sicrhau bod y canlyniadau sy'n deillio o'r gronfa yn arwain at ddysgu a lledaenu arfer da**

8.32 Mae angen cynyddu cyflymder y prosiectau llwyddiannus sy'n cael eu rhoi ar waith ledled Cymru. Mae angen cyflymu'r broses ddysgu i bwynt lle mae nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda mewn un ardal yn arwain yn gyflym at ei fabwysiadu a'i gymhwyso mewn mannau eraill. Mae digwyddiadau dysgu blynyddol yn werthfawr ond yn annigonol. Rydym yn argymhell creu cymunedau ymarfer wedi'u harwain gan gymheiriaid er mwyn i arweinwyr prosiectau sy'n ymwneud â modelau gofal tebyg rannu arferion da a

phrofiadau, a mireinio modelau cyflawni. Rydym hefyd yn argymhell ailystyried sut y caiff prosiectau eu treialu gyda'r nod o gael nifer o ranbarthau i dreialu mentrau ar y cyd er mwyn dysgu a'u cyflwyno yn hytrach na bod pob un o'r saith rhanbarth yn cychwyn yr un prosiectau. Dylid annog cydberchnogaeth o'r gronfa newydd yn y canllawiau drwy bwysleisio ei bod yn gronfa Cymru gyfan sydd â'r nod o ddangos manteision y tu hwnt i ffiniau lleol a rhanbarthol. Dylid defnyddio ysgogiadau a chymhellion, megis mynediad at ragor o gyllid, i annog rhaedru'r hyn a ddysgir.

- 8.33 Rydym yn argymhell ymhellach y dylid adolygu prosesau ymgysylltu rhwng rhanbarthau i sicrhau bod trafodaethau trawsffiniol yn digwydd, a bod Llywodraeth Cymru yn hwyluso'r gwaith o gasglu gwybodaeth am fentrau llwyddiannus y tu hwnt i Gymru, gan gynnwys ymweliadau â safleoedd a sesiynau briffio lle y bo'n briodol.

#### **Cwestiynau Prawf:**

Sut y gellid miniogi a gwella'r egwyddorion ar gyfer gweithredu'n effeithiol a chyfleoedd dysgu cysylltiedig?

I ba raddau y gall y rhaglen ar ôl 2022 ddarparu sylfeini cadarnach ar gyfer trefniadau gweithio rhyngranbarthol a mewranbarthol gwell?

A ddylid neilltuo rhywfaint o gyllid y rhaglen ar ôl 2022 i fabwysiadu modelau sydd wedi eu profi o fannau eraill?

#### **Crynodeb a Rhestr Wirio**

- 8.34 Er hwylustod, ac fel rhestr wirio, nodir ein hawgrymiadau a'n hargymhellion yn Nhabl 8.1

#### **Tabl 8.1: Crynodeb o'r argymhellion a'r awgrymiadau**

1. Parhau i sicrhau bod cyllid wedi'i neilltuo i gefnogi arloesi a darpariaethau integredig a chydweithredol ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
2. Ystyried symleiddio'r cyllid presennol sydd ar gael drwy'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid mewn un gronfa o fis Ebrill

2022 ymlaen sy'n cefnogi'r amcanion a nodir yn Cymru Iachach a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

3. Darparu mwy o eglurder ynghylch yr hyn y mae gwir arloesi yn ei olygu yn ymarferol er mwyn osgoi unrhyw arloesi 'synthetig' sy'n honni ei fod yn newydd ond nad yw'n newydd mewn gwirionedd.
4. Sicrhau nad yw rhanbarthau'n cael eu hannog yn anfwriadol i ddehongli arloesi fel cynyddu nifer y prosiectau.
5. Cael cadarnhad o effaith bosibl prosiectau cyn cytuno arnynt.
6. Ehangu'r gofyniad i randdeiliaid eraill fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu mentrau sy'n deillio o'r gronfa, yn enwedig defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, y sector annibynnol ac Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru.
7. Egluro ei bod yn dderbyniol i fanteision y gronfa gael eu cronni'n anghymesur gan wahanol asiantaethau partner ar yr amod bod hyn wedi'i gytuno ar y cyd.
8. Sicrhau bod cyllid ar gael yn y dyfodol am gyfnod hwy - tair blynedd o leiaf ond yn ddelfrydol, pum mlynedd - er mwyn caniatáu trawsnewidiad a mynd i'r afael â heriau cyflawni.
9. Cynnwys trefniadau wrth gefn yn y gronfa er mwyn sicrhau y gellir ymdrin â strategaethau ymadael yn briodol.
10. Galluogi cydberchnogaeth o gynaliadwyedd prosiectau, rhaglenni a mentrau a gynhyrchir gan gronfeydd fel y Gronfa Gofal Integredig.
11. Ymgysylltu â rhanddeiliaid i sefydlu'r trefniadau mwyaf priodol ar gyfer sicrhau y gall prosiectau ddechrau a gorffen heb ofni gorfod wynebu sefyllfa lle y daw'r cyllid i ben yn sydyn, boed hynny'n digwydd mewn gwirionedd neu'n ganfyddiad.
12. Ceisio cael dealltwriaeth gliriach gan randdeiliaid o'r anawsterau sy'n gysylltiedig â phrif ffrydio ac ehangu a chynnwys darpariaeth o fewn y gronfa newydd i oresgyn yr anawsterau hynny.

13. Cefnogi defnydd hyblyg o'r gronfa a pharhau i gyfuno gwahanol ffrydiau cyllido er mwyn cyflawni'r amcanion a nodir yn y canllawiau ar gyfer y gronfa newydd ac egluro sut y mae hyn yn effeithio ar atebolrwydd lleol a rhanbarthol yng ngoleuni unrhyw newidiadau sy'n codi o'r Papur Gwyn diweddar. Egluro i ba raddau y mae defnyddio'r gronfa newydd mewn ffordd hyblyg yn dderbyniol.
14. Sicrhau dealltwriaeth o amcanion y gronfa newydd ac, yn ddefnyddiol, cytuno arnynt gyda rhanddeiliaid. Sicrhau lle bynnag y bo modd bod yr amcanion yn bodloni egwyddorion "CAMPUS".
15. Ystyried sefydlu elfennau ar wahân yn y gronfa newydd ar gyfer arloesi, cydgrynhoi a thrawsnewid, a therfynu.
16. Ffurfio cymaint o ddisgresiwn rhanbarthol â phosibl wrth ystyried y cydbwysedd rhwng cyfarwyddyd a disgresiwn yn y gronfa newydd. Sicrhau'r cydbwysedd hwn drwy broses ymgysylltu effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid a gwneud hyn cyn gynted ag y bo modd.
17. Sicrhau bod dulliau ymgysylltu yn mynd y tu hwnt i gyswllt uniongyrchol â chynrychiolwyr rhanbarthol enwebedig ac yn cynnwys cynrychiolwyr yr holl rhanddeiliaid allweddol, e.e. ADSS Cymru, Conffederasiwn GIG Cymru, CGGC, CLILC, Fforwm Gofal Cymru.
18. Ailystyried sut y mae data a gwybodaeth yn cael eu casglu, eu monitro a'u defnyddio. Darparu mwy o eglurder ynghylch sut y mae gwahanol rhanddeiliaid yn defnyddio data gyda'r nod o sicrhau bod y fethodoleg casglu data a monitro prosiectau o fudd iddynt hwy ac i Lywodraeth Cymru.
19. Annog mabwysiadu dulliau safonol o fesur y pellter a deithiwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau, gyda modelau gofal tebyg, ac yn ddefnyddiol ymchwilio i'r opsiwn o fabwysiadu offer cyffredin.

20. Symud y pwyslais o ddulliau casglu a monitro data sy'n canolbwyntio ar gydymffurfiaeth i ysgogi gwelliannau ansawdd lleol, rhanbarthol a rhynganbarthol.
21. Parhau i ddefnyddio methodoleg atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau ond egluro'r disgwyliadau o ran sut y caiff ei chymhwyso.
22. Sicrhau bod y gronfa newydd yn seiliedig ar gyfres o ganlyniadau cenedlaethol wedi'u diffinio'n dda, sy'n cael eu grwpio i adlewyrchu'r canlyniadau disgwylidig ar gyfer modelau gofal neu grwpiau blaenoriaeth penodol.
23. Sicrhau bod y ffocws yn y dyfodol ar y data a'r metrigau pwysicaf, a chynnwys partneriaid allweddol fel Comisiwn Bevan, Gofal Cymdeithasol Cymru, a Gwelliant Cymru yn y broses honno.
24. Symud y pwyslais o ddull yn seiliedig ar brosiectau i ddull rhaglen y gellid alinio prosiectau â hi. Cefnogi hyn drwy wella'r gyfatebiaeth rhwng systemau data lluosog, gan gynnwys ystyried ei gwneud yn orfodol i ddefnyddio system Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.
25. Cynyddu cyflymder prosiectau llwyddiannus sy'n cael eu rhoi ar waith ledled Cymru drwy greu cymunedau ymarfer a arweinir gan gymheiriaid er mwyn i arweinwyr prosiectau sy'n ymwneud â modelau gofal tebyg rannu arferion da a phrofiadau, a mireinio modelau cyflawni.
26. Ailystyried sut y caiff prosiectau eu treialu gyda'r nod o gael nifer o ranbarthau i dreialu mentrau ar y cyd er mwyn dysgu a'u cyflwyno yn hytrach na bod pob un o'r saith rhanbarth yn cychwyn yr un prosiectau.
27. Annog cydberchnogaeth o'r gronfa newydd drwy bwysleisio ei bod yn gronfa Cymru gyfan sydd â'r nod o ddangos manteision y tu hwnt i ffiniau lleol a rhanbarthol.



28. Ystyried defnyddio ysgogiadau a chymhellion, megis mynediad at ragor o gyllid, i annog rhaeadru'r hyn a ddysgir.

## Atodiad A: Tabled ar gyfer adolygiad metaddadansoddiad o brosiectau'r Gronfa

### RHAN 1 – MANYLION Y PROSIECT

Cyfeirnod Unigryw'r Prosiect		
Rhanbarth		
Blaenoriaeth		
Mathau o wasanaeth		
Grŵp thematig		
Enw'r prosiect		
Prif fuddiolwr		
Buddiolwr eilaidd		
Buddiolwyr eraill		
Ôl-troed daearyddol		
Partner arweiniol		
Partneriaid eraill		

Dyraniad cyllid blynyddol y Gronfa	2016/17 – £ 2017/18 – £ 2018/19 – £ 2019/20 - £ 2020/21 - £	
Unrhyw nodiadau ar gyllid		

<b>Disgrifiad/trosolwg</b> cryno o'r prosiect (tua 100 o eiriau)	

A oes unrhyw <b>dystiolaeth werthuso</b> ar gael ar gyfer y prosiect hwn? (os oes, nodwch beth ydyw e.e. gwerthusiad allanol, adroddiad diwedd prosiect, deunydd astudiaeth achos)	Oes		
	Nac oes		

### RHAN 2 – TYSTIOLAETH AM GYFLAWNI A PHERFFORMIAD

Asesiad o dystiolaeth yn ymwneud â <b>chyflawni a pherfformiad:</b> (nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch priodol hefyd)		
<b>Coch</b>	<b>Oren</b>	<b>Gwyrdd</b>

<i>(Dim tystiolaeth o gyflawni ar gael)</i>	<i>(Rhywfaint o dystiolaeth ond nid yw'n cael ei hystyried yn gadarn ac nid yw'n glir a yw'r prosiect yn cael ei gyflawni yn unol â'r bwriad.)</i>	<i>(Tystiolaeth glir bod y prosiect yn cael ei gyflawni yn unol â'r bwriad. Tystiolaeth gadarn i gefnogi hyn).</i>

Ffactorau sy'n cyfrif am <b>berfformiad cryf</b> (h.y. yn y categori 'gwyrdd' uchod)	Ffactorau sy'n cyfrif am <b>berfformiad gwan</b> (h.y. yn y categori 'oren' uchod)

Beth yw'r <b>pwyntiau dysgu allweddol</b> ?	
Beth sydd wedi <b>gweithio'n dda</b> ?	Beth sydd <b>heb weithio cystal</b> ?

Sut mae'r prosiect wedi perfformio yn erbyn <b>targedau mesuradwy</b> ?	
Gosodwyd targed mesuradwy	Wedi'i gyflawni (do/naddo/ansicr)?

### RHAN 3 – EFFAITH

Pa fanteision ac effeithiau a gyflawnwyd gan y prosiect o ran:
<b>Unigolion a chymunedau</b>
<b>Y gwasanaethau a ddarperir/modelau gweithio</b>
<b>Integreiddio gwasanaethau</b>

Asesiad o dystiolaeth yn ymwneud ag **effaith** ar:  
(ticiwch y blwch perthnasol)

	<b>Coch</b> <i>(Dim dystiolaeth o effeithiau prosiect)</i>	<b>Oren</b> <i>(Peth dystiolaeth o effaith ond nid yw'n cael ei hystyried yn gadarn ac nid yw'n glir a yw'r prosiect yn cynhyrchu'r effeithiau disgwylidig/rhagweledig.)</i>	<b>Gwyrdd</b> <i>(Tystiolaeth glir bod y prosiect yn cyflawni effeithiau. Tystiolaeth gadarn i gefnogi hyn gyda manylion ynghylch sut y mae'r dystiolaeth wedi'i chasglu/dilysu).</i>
Defnyddwyr gwasanaethau/cymunedau			
Y gwasanaethau a ddarperir/modelau gweithio			
Integreiddio gwasanaethau'n well			

#### RHAN 4 – Y GALL I EHANGU A LLEDAENU

Pa dystiolaeth sydd ar gael y gallai'r prosiect hwn ehangu/bod y prosiect hwn yn cael ei ehangu i'w fabwysiadu'n ehangach?

--	--

Astudiaeth achos posibl?

<b>Oes</b>	
<b>Nac oes</b>	

## **Atodiad B: Methodoleg a phroffil prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a adolygwyd**

Mae'r atodiad hwn yn nodi ein dull o gynnal y metaddadansoddiad o ddogfennau prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a phroffil y prosiectau a ystyriwyd ar gyfer yr ymarfer hwnnw. Mae hefyd yn nodi gwybodaeth am broffil y prosiectau a ymatebodd i'r arolwg ar y we. Yn olaf, mae hefyd yn nodi gwybodaeth am y sampl o 15 o brosiectau astudiaethau achos y Gronfa a gafodd eu cynnwys yn y gwaith maes.

### **B1. Dull metaddadansoddi**

Roedd y dull a fabwysiadwyd i gynnal y metaddadansoddiad o 77 o brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig fel a ganlyn:

- dewiswyd sampl o brosiectau o gronfa ddata Llywodraeth Cymru o 442 o brosiectau a ariannwyd yn ystod 2018/19, gan y byddai'r prosiectau hyn wedi bod ar waith ers o leiaf tair blynedd
- dewiswyd y sampl er mwyn cynnig trawstoriad o ran:
  - lleoliad daearyddol
  - math o wasanaeth
  - poblogaeth darged, a
  - gwerth y cyllid.
- dyluniwyd y sampl hefyd er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl brosiectau yr oedd yn hysbys bod ganddynt o leiaf rywfaint o dystiolaeth werthuso (e.e. adroddiad gwerthuso). Roedd y dull pwrpasol hwn yn golygu bod y sampl a ddewiswyd o bosibl yn gogwyddo tuag at brosiectau mwy llwyddiannus a oedd yn cael eu rheoli'n well ac mae angen i ganfyddiadau'r gwerthusiad ystyried y cyfyngiad hwn.
- yna rhannwyd y sampl o'r prosiectau gyda phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn caniatáu iddo ystyried eu haddasrwydd a nodi unrhyw faterion. Lle y bo'n bosibl, cafodd prosiectau amgen eu nodi a'u cynnwys yn y sampl, gan ddewis prosiectau tebyg lle bo modd. Gofynnwyd i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol rannu dogfennaeth ar lefel prosiect ar gyfer y sampl y cytunwyd arni gyda'r tîm ymchwil. Roedd gwneud

hynny'n her i rai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol oherwydd gwnaed y cais am wybodaeth yn ystod mis Mawrth 2021, pan oedd y sector yn dal i ymateb i effaith y pandemig COVID-19 ac yn cael trafferth gyda'r gallu i rannu'r wybodaeth angenrheidiol.

- roedd diffinio 'prosiect' fel hyn, h.y. ei fod yn cynrychioli llinell gyllido benodol ar gronfa ddata Llywodraeth Cymru yn 2018/19, wedi arwain at rai problemau ymarferol. Mewn rhai rhanbarthau mae'r 'prosiectau' hyn wedi uno ers hynny i ffurfio un prosiect neu raglen ranbarthol fwy, e.e. yn flaenorol byddai pob prosiect awdurdod lleol wedi'i nodi ar wahân fel un prosiect. O'r herwydd, roedd y sampl terfynol a adolygwyd yn cynnwys rhai prosiectau lluosog ar draws rhai rhanbarthau.
- ystyriodd y dadansoddiad amrywiaeth o dystiolaeth a ddarparwyd i ni gan Lywodraeth Cymru (yn enwedig adroddiadau taenlen blynyddol rhanbarthol) a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (fel ffurflenni cynnig prosiectau, astudiaethau achos ac adroddiadau gwerthuso).

## **B2. Proffil y prosiectau a ystyriwyd yn y macroddadansoddiad**

Roedd y dadansoddiad pen desg yn seiliedig ar ddogfennaeth a dderbyniwyd ar gyfer cyfanswm o 77 o brosiectau, fel y nodir yn Nhabl B.1.

**Tabl B.1: Adolygu proffil daearyddol prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig**

Rhanbarth	Nifer y prosiectau a adolygwyd
Caerdydd a Bro Morgannwg	11
Cwm Taf	12
Gwent	5 <sup>44</sup>
Gogledd Cymru	12 <sup>45</sup>
Powys	10
Gorllewin Morgannwg	13
Gorllewin Cymru	14
Cyfanswm	77

Mae Tablau B.2 i B.7 yn nodi proffil y prosiectau a ddadansoddwyd yn ôl grŵp blaenoriaeth, mathau o wasanaeth, grŵp thematig, buddiolwyr targed, ôl troed daearyddol, a phartner arweiniol. Roedd y wybodaeth hon eisoes wedi'i chodio ar gyfer prosiectau a ddewiswyd o gronfa ddata 2018/19 Llywodraeth Cymru, ac mae'r categorïau a ddefnyddir ar draws cronfa ddata Llywodraeth Cymru wedi'u defnyddio yn y tablau a ganlyn. Fodd bynnag, nid oedd bob amser yn bosibl cynnwys prosiectau dirprwyol yn ôl-weithredol yn y dosbarthiadau hyn. O'r herwydd, mae nifer o brosiectau wedi'u codio fel "arall" yn y tablau hyn.

**Tabl B.2: Grŵp blaenoriaeth prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a adolygwyd**

Grŵp blaenoriaeth	Nifer y prosiectau a adolygwyd
Pobl hŷn	34
Pobl sydd ag anableddau dysgu	13
Plant ag anghenion cymhleth, gan gynnwys y rhai ar ffiniau achos	19
Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc	10
Arall	1
Cyfanswm	77

<sup>44</sup> Mae rhesymau penodol sy'n egluro'r nifer bach o ymatebion ar gyfer Gwent. Defnyddiwyd y tîm o wyth aelod o staff rhanbarthol y Gronfa Gofal Integredig a gefnogodd y portfolio partneriaeth i gefnogi meysydd eraill o waith y byrddau iechyd yn ystod y pandemig COVID-19. Bu problemau o ran absenoldeb staff hefyd. Mae'r tîm wedi bod yn gweithredu ar gapasiti o 30 y cant ers mis Medi 2020 sydd yn anochel wedi cyfyngu ar ei allu i gefnogi'r gwerthusiad. Fodd bynnag, mae staff bellach wedi'u cyflogi, gyda'r mwyafrif ar secondiad yn dechrau'n llawn amser ar 1 Mehefin, ac mae cynlluniau ar waith i rannu'r dogfennau sy'n weddill yn ystod yr wythnosau nesaf.

<sup>45</sup> Mae'r 12 prosiect 'rhanbarthol' hyn yn cynrychioli 21 o brosiectau 'lleol' sy'n cael eu darparu ar draws Gogledd Cymru.

**Tabl B.3: Y math o wasanaeth a ddarparwyd gan brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a adolygwyd**

Math o wasanaeth	Nifer y prosiectau a adolygwyd
Mynediad at Wasanaethau	12
Cymorth Cynnar ac Atal	18
Iechyd a Llesiant Emosiynol	10
Cymorth i deuluoedd	3
Gofal canolraddol / llwybr	3
Presgripsiynu cymdeithasol	4
Aros Gartref / Dychwelyd Adref	13
Cam i fyny/cam i lawr	5
Arall <sup>46</sup>	9
Cyfanswm	77

**Tabl B.4: Grŵp thematig prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a adolygwyd**

Grŵp thematig	Nifer y prosiectau a adolygwyd
Plant a theuluoedd	4
Gwasanaethau emosiynol ac iechyd meddwl	13
Gwasanaethau gartref o'r ysbyty	20
Gofal yn seiliedig ar leoedd	33
Arall	7
Cyfanswm	77

<sup>46</sup> Gan gynnwys datrysiadau llety, asesu a diagnosis, timau cymunedol integredig



**Tabl B.5: Buddiolwyr prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a adolygwyd<sup>47</sup>**

Grwpiau blaenoriaeth	Prif fuddiolwr	Buddiolwr eilaidd	Trydydd buddiolwr
Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc	10	26	31
Plant sydd mewn perygl o fynd i ofal / ar ymylon gofal	12	7	2
Plant sydd ag anghenion cymhleth	7	10	5
Pobl hŷn	34	4	10
Pobl â dementia	1	17	9
Pobl ag anableddau dysgu	12	7	7
Heb ei ddsbarthu	1	6	13
Cyfanswm	77	77	77

**Tabl B.6: Ôl Troed daearyddol prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a adolygwyd**

Ôl-troed daearyddol	Nifer y prosiectau a adolygwyd
Awdurdod lleol	31
Rhanbarthol	45
Heb ei ddsbarthu	1
Cyfanswm	77

**Tabl B.7: Partner arweiniol prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a adolygwyd**

Partner arweiniol	Nifer y prosiectau a adolygwyd
Awdurdod lleol	31
Bwrdd Iechyd	12
Trydydd sector	18
Partner arweiniol ar y cyd (o'r uchod)	16
Cyfanswm	77

O ran partneriaid eraill sy'n ymwneud â phrosiectau, adroddir mai awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau'r trydydd sector yw'r mwyafrif. Mae partneriaid eraill hefyd yn ymwneud â darparu nifer llai o brosiectau gan gynnwys prosiectau addysg (ysgolion a phrifysgolion), tai (fel cymdeithasau tai) yn ogystal â'r rhai yn y sector preifat/annibynnol.

<sup>47</sup> Roedd yn rhaid i bob prosiect nodi pa fath o fuddiolwr fyddai eu prif grŵp targed (prif fuddiolwr) yn ogystal â grwpiau eraill a fyddai'n elwa o'u hymyrraeth.

Y bwriad oedd bod y dadansoddiad yn ystyried lefel y cyllid a oedd ar gael i brosiectau dros y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2016/17 a 2020/21. Fodd bynnag, mae'r anawsterau o ran cael y data hyn ar gyfer y cyfnod hwn wedi golygu nad yw'n bosibl cymharu. Yn hytrach, mae proffil y prosiectau a ddadansoddwyd o ran eu lefelau cyllido ar gyfer 2020/21 i'w weld yn Nhabl 4.8<sup>48</sup>.

**Tabl B.8: Lefel gyllido flynyddol prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a adolygwyd**


Maint y cyllid (2020/21)	Nifer y prosiectau a adolygwyd
< £20,000	6
£20,000 i £49,999	4
£50,000 i £99,999	11
£100,000 i £149,999	15
£150,000 i £199,999	8
£200,000 i £250,000	3
£250,000 i £299,999	5
£300,000 i £399,999	6
£400,000 i £499,999	1
£500,000 i £599,999	1
£600,000 i £699,999	3
£700,000 i £800,000	2
>£800,000	5
Dim data ar gael	7
Cyfanswm	77

### **B3. Proffil arweinwyr prosiectau yn seiliedig ar y rhai a ymatebodd i'r arolwg ar y we**

Cwblhawyd arolwg ar y we gan 68 o arweinwyr prosiectau. O blith y rhain cwblhawyd y mwyafrif helaeth (66) yn Saesneg a dau yn Gymraeg. Roedd yr ymatebion i'r arolwg yn adlewyrchu trawstoriad o grwpiau blaenoriaeth y Gronfa yn ogystal â phum Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd y gyfradd ymateb gan ddau Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Caerdydd a Bore Morgannwg a Gwent) yn isel.


<sup>48</sup> Ar gyfer pum prosiect, ystyrir gwerth y cyllid ar gyfer 2019/20 gan nad oedd data ar gael ar gyfer 2020/21 ar gyfer tri ohonynt a daeth dau brosiect i ben yn 2019/20.

*Ffigur B1: Proffil grŵp blaenoriaeth y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg*



Ffynhonnell: Arolwg ar y we OB3 o arweinwyr prosiectau (68 o ymatebion)

*Ffigur B2: Proffil daearyddol y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg*



#### **B4. Proffil prosiectau astudiaethau achos y Gronfa Gofal Integredig**

Cwblhawyd cyfweiliadau gyda 48 o staff ar draws 15 o brosiectau a 26 o ddefnyddwyr gwasanaethau ar draws 9 o'r prosiectau hyn. Ceir crynodeb o'r 15 prosiect hyn yn Nhabl B9.

O blith prosiectau'r astudiaethau achos:

- roedd dau wedi'u lleoli ym mhob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a thri o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

- roedd pedwar yn cefnogi plant a theuluoedd, tri yn canolbwyntio ar iechyd emosiynol ac iechyd meddwl, tri yn brosiectau gartref o'r ysbyty a phump yn brosiectau gofal yn seiliedig ar le
- roedd pump yn cefnogi pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, dau yn cefnogi pobl ag anawsterau dysgu, chwech yn cefnogi plant ag anghenion cymhleth a dau yn cefnogi gofalwyr.

**Tabl B9: Prosiectau astudiaethau achos y Gronfa Gofal Integredig:**

Enfys Caerdydd a Bro Morgannwg	Mae Enfys, a elwid gynt yn Wasanaeth Trawma Datblygiadol, yn wasanaeth sy'n rhan o'r GIG yn y maes Seicoleg Plant o fewn yr adran Iechyd Plant Cymunedol a ddarperir ochr yn ochr â CAMHS. Wedi'i sefydlu yn 2016, mae'n gweithio ar draws rhanbarth Caerdydd a Bro Morgannwg ac mae'n wasanaeth a arweinir gan seicoleg i blant sy'n derbyn gofal.
Porth Gofalwyr Caerdydd a Bro Morgannwg	Mae Porth Gofalwyr Caerdydd a'r Fro yn darparu gwybodaeth a chymorth i ofalwyr di-dâl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r gwasanaeth, a ddatblygwyd yn 2019, yn cael ei ddarparu gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr De-orllewin Cymru ar y cyd â sefydliadau partner eraill ar draws y rhanbarth. Mae'r prosiect yn gweithio ar draws y rhanbarth i helpu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i ddeall pa gymorth sydd ar gael; darparu cymorth i gael mynediad at wasanaethau; codi ymwybyddiaeth o bwy yw gofalwyr a'r materion y maent yn eu hwynebu a darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i ofalwyr.
Hybiau Cymunedol Cwm Taf Morgannwg	Mewn ymateb i nifer o flaenoriaethau strategol, nod CBS RhCT oedd datblygu nifer o Hybiau Cymunedol i gefnogi a bod wrth wraidd deg rhwydwaith cymdogaeth. Bydd y canolfannau hyn yn darparu gwasanaethau cyhoeddus gwell, yn effeithlon, wedi'u cydlynu ac wedi'u lleoli'n agos at y man ble mae eu hangen. Dyrannwyd cyllid y Gronfa Gofal Integredig i'r prosiect yn 2020 a chafodd y prosiect ei daro'n syth gan yr angen i ymateb i'r argyfwng llifogydd, ac yna'r pandemig Covid-19.
Cymorth Rhianta Arbenigol Cwm Taf Morgannwg	Nod y prosiect hwn, a gyflwynir gan yr Halcyon Training Foundation, yw cefnogi rhieni plant â chyflyrau niwroddatblygiadol drwy ddarparu hyfforddiant a gwell gwybodaeth am ddatblygiad plant fel bod ganddynt yr offer a'r wybodaeth i gefnogi plant ag anghenion emosiynol a llesiant. Mae bellach wedi ehangu i weithio ar draws rhanbarth Cwm Taf Morgannwg ac mae'n

	wasanaeth cwbl integredig sy'n gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdod lleol.
My Mates Gwent	Mae My Mates yn cefnogi unigolion ag anableddau dysgu i fyw'n annibynnol drwy ddarparu mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar yn y gymuned, a gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyhoeddus o'u hanghenion. Mae hefyd yn cefnogi unigolion i ddatblygu cyfeillgarwch a pherthnasoedd. Fe'i lanswyd yn 2016 i ddechrau yn CBS Sir Fynwy ond roedd cyllid y Gronfa Gofal Integredig wedi galluogi'r prosiect i ehangu i bob un o'r pum ardal awdurdod lleol yn rhanbarth Gwent. Caiff ei letya gan Gyngor Sir Fynwy a'i ariannu'n llawn gan y Gronfa Gofal Integredig.
Sgiliau i Fyw Gwent	Mae Sgiliau i Fyw yn dîm iechyd meddwl arbenigol a ddarperir gan Gweithredu dros Blant, elusen yn y DU, sydd wedi ymrwmo i gefnogi pobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae'n brosiect arloesol i wella llesiant emosiynol pobl ifanc sy'n gadael gofal ar draws rhanbarth Gwent. Mae hefyd yn darparu hyfforddiant i ddatblygu'r sgiliau i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal mewn modd cyson. Caiff ei ariannu'n llawn gan y Gronfa Gofal Integredig
Anableddau Dysgu ac Anghenion Cymhleth Plant Gogledd Cymru	Prosiect rhanbarthol sy'n ceisio cefnogi a galluogi plant a phobl ifanc ag Anableddau Dysgu ac anghenion cymhleth yn eu cymunedau lleol. Mae hefyd yn gweithio i leihau'r risg y bydd teuluoedd yn chwalu i atal plant a phobl ifanc rhag cael eu lleoli y tu allan i'r sir.
Atal Cwmpadau Gogledd Cymru	Gwasanaeth atal cwmpadau a ddarperir ar y cyd rhwng cydweithwyr iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Mae tri phrosiect wedi'u hariannu ar sail is-ranbarthau Sir y Fflint a Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych; a Gwynedd ac Ynys Môn, i sicrhau bod y risg o gwmpo i bobl hŷn yn y gymuned a chartrefi gofal yn cael ei lleihau drwy asesiad risg a hyfforddiant atal cwmpadau.
Gwasanaeth Atal a Dychwelyd Gogledd Cymru	Mae'r prosiect hwn, sy'n cael ei arwain gan Gweithredu dros Blant ac a ddarperir yng Ngwynedd, yn anelu at gynnig cymorth wedi'i dargedu ac ymyriadau therapiwtig i gefnogi cydweithwyr yn y Gwasanaethau Plant ac Addysg i weithio gyda phlant, pobl ifanc, a'u teuluoedd/gofalwyr.  Mae tair elfen i'r Gwasanaeth Atal a Dychwelyd i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth (a'u teuluoedd) yn nes at adref:

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymorth adsefydlu a therapiwtig y trydydd sector (RAP)</li> <li>• Datrysiadau a ddarperir gan y trydydd sector i atal teuluoedd rhag chwalu a/neu anghenion rhag gwaethygu gan arwain at risg o leoliadau y tu allan i'r sir</li> <li>• Cynnydd mewn capasiti maethu i blant RAP er mwyn darparu seibiant i deuluoedd (yn aml gofalwyr maeth eu hunain).</li> </ul>
Cysylltwyr Cymunedol Powys	Mae'r Gwasanaeth Iechyd a Llesiant Cymunedol hwn yn cyflogi Cysylltwyr Cymunedol i weithio gyda phobl ac asiantaethau lleol i hwyluso mynediad cyflym, hawdd a phriodol i wasanaethau cymunedol ar draws Powys. Wedi'i ddarparu gan PAVO, ei nod yw cefnogi pobl i gynnal bywydau annibynnol ac atal yr angen am wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol lefel uwch a hyrwyddo rhyddhau pobl yn gynnar o'r ysbyty.
Nes at Adre Powys	Mae'r gwasanaeth Nes at Adre yn cael ei redeg gan Gyngor Sir Powys ac mae'n galluogi unigolion a oedd yn arfer byw y tu allan i'r sir oherwydd eu hanghenion cymorth, i fyw'n nes at adref, eu teuluoedd a'u rhwydweithiau cymdeithasol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ganlyniadau dymunol unigolion ac yn helpu i nodi'r adnoddau sydd eu hangen. Nid oedd gan Bowys y cyfleusterau a'r seilwaith i gefnogi pobl â lefel uchel iawn o angen, a nod y prosiect hwn yw creu cyfleoedd newydd i ddiwallu rhai o'r anghenion hynny o fewn y sir.
Gwasanaeth Cefnogi Lleoliadau Amlasiantaeth (MAPSS)	Mae MAPSS yn brosiect rhanbarthol a sefydlwyd yn 2017 ar gyfer siroedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, ac mae'n fodel amlddisgyblaethol sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol neu sydd mewn perygl o hynny. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth lleoliad arbenigol a'i nod yw gwella sefydlogrwydd lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal. Arweinir y prosiect gan Gyngor Sir Castell-nedd Port Talbot ac fe'i darperir mewn partneriaeth â Chyngor Sir Abertawe.
Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Abertawe, Gorllewin Morgannwg	Prosiect rhanbarthol sy'n cwmpasu siroedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, mae'r Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol yn darparu cyfarpar ailalluogi a chyfarpar arall ar fenthyg i bobl i'w galluogi i fyw'n annibynnol gartref. Defnyddiwyd y Gronfa Gofal Integredig i ganiatáu i'r gwasanaeth ehangu ei adnoddau a'i gapasiti a thrwy hynny alluogi pobl i gael eu rhyddhau'n gynt o'r ysbyty ac i leihau derbyniadau i'r ysbyty.

<p>Gofal yn y Cartref Gorllewin Cymru</p>	<p>Yn brosiect awdurdod lleol sydd wedi'i leoli yn Sir Benfro ac a arweinir gan y bwrdd iechyd, mae Gofal yn y Cartref yn darparu gofal i bobl yn nes at eu cartrefi drwy dîm adnoddau cymunedol integredig er mwyn atal derbyniadau a hwyluso rhyddhau pobl yn gynnar o'r ysbyty. Mae'r prosiect yn darparu gofal diwedd oes i bobl yn eu cartrefi eu hunain yn ogystal â gwasanaethau pontio megis gofal ataliol ac ymyrraeth aciwt. Sefydlwyd y prosiect yn 2017 ac mae wedi trawsnewid y model o gomisiynu gofal yn y cartref o fodel a ddarperir gan y sector annibynnol i dîm mewnol o ryw 55 o weithwyr cymorth gofal iechyd. Mae'r Gronfa Gofal Integredig yn cyfrif am gyfran o'i gyllid.</p>
<p>Prosiect Swyddogion Gofalwyr mewn Ysbytai Gorllewin Cymru</p>	<p>Yn brosiect rhanbarthol cymharol newydd a sefydlwyd yn 2020 ac a arweinir gan y bwrdd iechyd, mae'r prosiect Swyddogion Gofalwyr mewn Ysbytai yn cael ei ddarparu gan dri sefydliad o'r trydydd sector sy'n cyflogi pedwar Swyddog Gofalwyr i gefnogi gofalwyr yn ystod y broses o ryddhau cleifion ar draws ysbytai. Cyflwynodd y prosiect hefyd sesiynau codi ymwybyddiaeth i ymarferwyr i wella eu dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu gofalwyr.</p>